Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC72: Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

**Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd**

**Hydref 2025**

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

**<u>Adroddiad Cydraddoldeb CDLlN Conwy - Hydref 2025 - CDLlN Conwy 2018 - 2033</u>**

## Cyflwyniad

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011, mae'n ofynnol bod Awdurdodau Lleol yn ystyried anghenion grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig yn ofalus wrth wneud penderfyniadau ac o fewn y polisïau sy'n cael eu datblygu.

Bydd deall cymunedau yng Nghonwy yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleol i nodi unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol posibl a allai godi yn sgil y penderfyniadau sy'n cael eu llunio mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol ynghyd â hysbysu'r broses o ddatblygu polisi a'r broses o ddyrannu safleoedd sy'n dilyn.

## Y Gofynion Cyfreithiol

Mae gan yr holl gyrff sector cyhoeddus ddyletswydd i ddiwallu gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (adran 149) yn y Ddeddf.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn ei gwneud yn ofynnol i rai sy'n gwneud penderfyniadau 'roi sylw dyledus' i'r
tri nod cyffredinol y ddyletswydd fel y nodwyd isod:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf Cydraddoldeb.
2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Felly mae'r PSED yn cyflwyno gofyniad rhagweithiol ar Gyrff Cyhoeddus i ystyried sut y gallant weithio i fynd i'r afael â gwahaniaethu systemig a'r anfantais sy'n effeithio ar bobl gyda nodweddion gwarchodedig.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r PSED yn ymdrin â'r grwpiau canlynol yn benodol, sy'n cael eu hadnabod fel y naw o
nodweddion gwarchodedig:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

## Anghydraddoldebau Iechyd

Yn ogystal â'r grwpiau nodweddion gwarchodedig a restrwyd uchod, mae grwpiau ychwanegol sy'n profi anghydraddoldebau iechyd ac yn wynebu anfantais mewn cymdeithas sydd angen eu

hystyried wrth wneud penderfyniadau - mae’r rhain yn cael eu hadnabod fel grwpiau cynhwysiant iechyd.

Grwpiau cynhwysiant iechyd yw’r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan anghydraddoldebau iechyd a phrofi anghydraddoldebau o ran mynediad at wasanaethau.
a phrofi anghydraddoldebau o ran mynediad at wasanaethau. Maent yn cynnwys (ond nid ydynt wedi’u cyfyngu i’r canlynol):

- Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- Gweithwyr rhyw.
- Pobl sy’n profi digartrefedd.
- Lluoedd Arfog / Cyn-filwyr.
- Ffoaduriaid / Ceiswyr Lloches.
- Pobl sy’n profi amddifadedd.
- Gofalwyr.
- Pobl sy’n byw mewn cymunedau gwledig.

Mae mwyafrif yr anghydraddoldebau iechyd i’w canfod yn y croestoriadau rhwng y nodweddion gwarchodedig a’r
grwpiau cynhwysiant iechyd ac yn aml yn deillio o statws economaidd-gymdeithasol isel (gweler
yr adran isod).

Mae anghydraddoldebau iechyd fel disgwyliad oes is, nifer y cyflyrau hirdymor
a / neu rwystrau wrth geisio gwasanaethau gofal iechyd yn gysylltiedig â phenderfynyddion iechyd ehangach
fel ansawdd tai, addysg a diweithdra.

**CDLlN**

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb- yn adolygu a nodi effaith debygol y Cynllun ar gymunedau presennol ac yn y dyfodol, gan ystyried y dystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol y polisïau ac arferion ar grwpiau gwarchodedig. (Datganiad ysgrifenedig)

Mae’r ddyletswydd gydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010, adran 149) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu effaith polisïau ar wahanol grwpiau poblogaeth i sicrhau nad oes gwahaniaethu, a lle bo’n bosib, i hyrwyddo cyfle cyfartal. Dylai’r awdurdod sgrinio’r naw grŵp nodweddion gwarchodedig yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i nodi a chyfiawnhau pa nodweddion y gall y cynllun ddylanwadu arnynt. Dylid integreiddio’r nodweddion y gellir dylanwadu arnynt i’r fframwaith asesu; dylid diystyru’r rhai na ellir dylanwadu arnynt a chyfiawnhau hynny. – (Llawlyfr CDLl)

**Methodoleg**

Roedd fethodoleg a ddefnyddiwyd yn dilyn safon y diwydiant o ran yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd asesiad o berthnasedd ar bob un o bolisïau'r CDLl er mwyn pennu pa bolisïau oedd yn berthnasol i’r ddeddfwriaeth. Aseswyd y polisïau yn ôl perthnasedd uchel, canolig, isel ac amherthnasol.

- Cynhaliwyd asesiadau strategol ar benodau’r CDLl a oedd yn cynnwys sawl polisi perthnasol.  Adolygwyd ac ystyriwyd pob polisi yn erbyn y nodweddion a ddiogelir.  Yna, lluniwyd crynodeb cyffredinol yn erbyn pob un o’r nodweddion gwarchodedig o ran yr effaith y bydd y polisïau cyfunol yn ei gael ar faterion cydraddoldeb yn gysylltiedig â’r nodweddion gwarchodedig.
- Lle’r oedd gan benodau ond un neu ddau o bolisïau perthnasol, roedd yr asesiad yn canolbwyntio’n fwy ar y polisïau penodol.
- Mae unrhyw wendidau a nodwyd wedi cael eu mynegi’n glir yn yr asesiad ac mae camau lliniaru posibl wedi cael eu cynnig.
- Oherwydd cymhlethdod cynllunio a natur strategol polisïau'r CDLl, mae’r fethodoleg a ddefnyddiwyd wedi cynnwys asesu’r polisïau'n strategol o ran yr effaith strategol y byddant yn ei gael ar siapio a rheoli datblygiad. Mae’r fethodoleg asesu a ddefnyddiwyd yn ddull strategol.
- Bydd angen asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb mwy technegol ar gyfer unrhyw gynigion datblygu a gyflwynir yn ogystal ag unrhyw ganllawiau cynllunio atodol a lunnir sy’n fwy technegol o ran eu natur.

# Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

## Templed Cam 2 ar gyfer Gwasanaethau, Polisïau a Swyddogaethau

Teitl y Gwasanaeth / Polisi / Swyddogaeth:

**Datblygu Economaidd**

Dyddiad Cwblhau: 03/06/2025

# 1. Trosolwg o'r Asesiad

## Crynodeb o wybodaeth am y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy'n cael ei asesu:

Amcan strategol 7 (SO7): cefnogi ffyniant economaidd, arallgyfeirio ac adfywio yn hirdymor drwy fanteisio ar safle strategol Conwy yng nghyd-destun y rhanbarth ehangach a hyrwyddo strategaeth gyfannol ar gyfer twf cyflogaeth a thai, a fydd yn hwyluso twf swyddi newydd o'r mathau iawn mewn mannau hygyrch a chynaliadwy, cefnogi rhwydweithiau a chlystyrau busnes, hybu sgiliau ar gyfer swyddi â chyflogau da a darparu'r isadeiledd newydd angenrheidiol, a bydd hynny at ei gilydd yn galluogi busnesau newydd i sefydlu yng Nghonwy a'r busnesau presennol i dyfu.

**Polisïau sy'n cael eu hasesu**

Nid yw pob polisi a geir yn y bennod hon o'r CDLlN yn cael eu hasesu oherwydd eu bod wedi'u hasesu fel rhai amherthnasol i Ddeddfwriaeth Cydraddoldeb (mae'r gwaith papur ar gyfer hyn ar gael ar gais).
Fodd bynnag, mae'r polisïau canlynol yn cael sylw yn yr asesiad hwn:

**ED/1** Datblygu Economaidd

**ED/2** Dyraniadau Cyflogaeth

**ED/3 Datblygiadau B1, B2 a B8 Newydd ar Safleoedd heb eu Dyrannu**

**ED/4 Diogelu Safleoedd Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8**

**ED/5 Ardaloedd Gwella Cyflogaeth Swyddfeydd a Diwydiannol**

**ED/6 Ehangu Busnesau yn yr Ardal Wledig**

## Beth yw nodau ac amcanion y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy'n cael ei asesu?

Mae strwythur cyflogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy'n wahanol i Brydain Fawr ar y cyfan. Crebachodd y sail cynhyrchu'n sylweddol yn y tair degawd ddiwethaf nes gostwng i 4.3% o'r holl swyddi erbyn 2020, a chyflogir cyfran helaeth o'r boblogaeth

yn y diwydiannau gwasanaethau (yn enwedig yn y sector cyhoeddus) a'r sector twristiaeth. Mae'r nifer o bobl a gyflogir mewn sectorau a nodweddir gan sgiliau a chyflogau uchel fel gwybodaeth a chyfathrebu, cyllid ac yswiriant, gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol a gwasanaethau gweinyddu a chymorth busnes yn gymharol isel ym Mwrdeistref Sirol Conwy, lle mae'r gyfran o'r swyddi hynny yng nghyfanswm yr holl swyddi'n 13% o gymharu â 25% ym Mhrydain yn gyffredinol.

Mae cyfran uchel o'r swyddi mewn sectorau sy'n dibynnu ar dwristiaeth fel manwerthu, llety a bwyd yn ogystal â'r celfyddydau, adloniant a hamdden – 32% o'r holl swyddi o gymharu ag 21% yn genedlaethol. Y sectorau hynny sydd fwyaf tebygol o gynnig gwaith rhan amser neu dymhorol a chyflogau isel.

Amcangyfrifir ar sail ffigyrau STEAM 2022 bod y diwydiant twristiaeth yn darparu 9,520 o swyddi'n uniongyrchol ac yn cynnal 2,350 o swyddi eraill yn anuniongyrchol – cyfanswm o tua 11,870 o swyddi, sef bron i chwarter yr holl swyddi ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Daw twristiaeth â thua £1,097 miliwn y flwyddyn i'r economi leol.

Bydd Bargen Dwf Gogledd Cymru'n effeithio ar ddyheadau economaidd, y ddarpariaeth a'r canlyniadau yn y rhanbarth. Mae'r Fargen yn cynnal pump o raglenni: Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, Cysylltiadau Digidol, Dyfeisgarwch ym maes Gweithgynhyrchu Uchel ei Werth, Tir ac Eiddo ac Ynni Carbon Isel, a'i nod yw denu buddsoddiadau gwerth mwy na £1 biliwn i ogledd Cymru i greu 4,000 o swyddi newydd a rhoi hwb o £2.4 biliwn i'r Gwerth Ychwanegol Gros. Disgwylir y daw hynny â buddion economaidd cadarnhaol i Gonwy a bwriedir gweithredu o leiaf un o brosiectau'r Fargen Dwf yn y Sir.

Mae Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn cyfleu cefnogaeth gref Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r economi sylfaenol yng ngogledd Cymru. Mae'n esbonio bod yr economi sylfaenol "yn cynrychioli'r rhannau hynny o'r economi sy'n annatod i lesiant lleoedd, cymunedau a phobl, ac sy'n diwallu anghenion beunyddiol pobl." Yng Nghonwy, mae'r economi sylfaenol yn cynnwys y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, manwerthu, tai cymdeithasol, adfywio a thwristiaeth. Lluniwyd y polisïau yn y bennod economaidd hon, felly, nid yn unig i ddiogelu tir dosbarth B ond hefyd i ddiwallu anghenion yr economi sylfaenol er mwyn hwyluso creu swyddi

newydd mewn sectorau traddodiadol nad ydynt yn perthyn i ddosbarth B a tharo cydbwysedd rhwng hynny a'r angen i ddiogelu tir dosbarth B.  Dylid nodi bod adrannau eraill o'r CDLlN hwn yn canolbwyntio'n benodol ar dwristiaeth a manwerthu, a dylid cyfeirio at y rheiny hefyd wrth ystyried materion cynllunio defnydd tir.

Wrth gasglu'r sail tystiolaeth ynghyd, bu Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy'n ystyried y newidiadau cyfredol yn yr hinsawdd economaidd a'r hyn y rhagwelir a fydd yn newid yn y dyfodol, ac mae'n nodi y bydd angen rhwng 14 ac 20 o hectarau ledled Conwy hyd 2033.  Mae hynny'n seiliedig ar amryw sefyllfaoedd posib a rhagolygon ynghylch y farchnad lafur, tueddiadau mewn sectorau a chyfraddau cyfranogi yn y gorffennol. Yn unol â'r dewis a ffefrir ar gyfer twf, detholwyd y sefyllfa o fod angen 16 o hectarau, gan fod hynny'n ystyried rhagolygon Experian o'r twf mewn swyddi yn yr ardal a'r prosiectau twf rhanbarthol a weithredir hyd 2033 (gweler Papur Cefndir 18 – Adolygiad Tir Cyflogaeth).

Ym Mhapur Cefndir 19 – Dadansoddiad o Farchnad Fasnachol Conwy, nodir bod gan Gonwy fwy o ofod swyddfa (a llai o ofod diwydiannol) na Chynghorau eraill yn y Gogledd a thrwy Gymru gyfan yn ôl eu maint. Mae'r galw am safleoedd diwydiannol yn y Fwrdeistref Sirol yn fwy na'r hyn y gellir ei gyflenwi oherwydd prinder safleoedd diwydiannol pwrpasol rhwng 2,000 a 5,000 o droedfeddi sgwâr.  Yn ystod cyfnod y Cynllun hwn, mae angen creu unedau diwydiannol newydd ar hyd cyntedd yr A55 a chreu gwell amrywiaeth o swyddfeydd fel y gall busnesau ehangu heb orfod gadael y Fwrdeistref Sirol.

Mae'n hollbwysig cynnal yr economi wledig, gan gydnabod effeithiau posib ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a'r pandemig Covid ar y galw am wahanol fathau o dir yng nghefn gwlad. Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, rhoddir mwy o hyblygrwydd i fusnesau gwledig sy'n bwriadu ehangu eu gweithrediadau presennol.  Cedwir at y dull dilyniannol ym mholisi ED/3 er mwyn dal i annog busnesau i glustnodi safleoedd mewn mannau cynaliadwy.  Mae cydnabod a chefnogi'r Gymraeg ym mhob ardal yn y sir, ac yn arbennig yr ardaloedd sensitif dynodedig, yn bwysig iawn er mwyn creu economïau iach gan ganiatáu i'r Gymraeg ffynnu. Mae Polisi ED/1 yn croesgyfeirio polisi PL/7 (Polisi Iaith Gymraeg) i sicrhau bod datblygiadau yn hyrwyddo ac yn

gwarchod y Gymraeg trwy gynnal asesiadau effaith a darparu mesurau lliniaru yn ôl yr angen.

Cydnabyddir y bydd prosiectau datblygu a sectorau twf ym Mwrdeistref Sirol Conwy a'r cyffiniau'n creu galw sylweddol am sgiliau penodol. Yn yr Asesiad Anghenion Sgiliau (Papur Cefndir 20), sonnir fod yno/y bydd yn debygol o fod prinder gweithwyr adeiladu, peirianwyr (trydanol a mecanyddol), syrfewyr, rheolwyr prosiectau ac arbenigwyr mewn ecoleg ar gyfer y prosiectau sydd ar y gweill yng Ngogledd Cymru yn y pymtheg mlynedd nesaf.  Rhagwelir twf ym maes twristiaeth hefyd yn Strategaeth Economaidd Conwy 2017-2027, a bydd mwy o angen am swyddi a sgiliau i gynnal y sector hwnnw yn ôl pob tebyg. I grynhoi, felly, er nad yw'r dystiolaeth yn awgrymu fod angen creu sefydliad addysg uwch newydd yng Nghonwy, gallai fod mwy o drafod rhwng darparwyr addysg uwch a'r Cyngor ynglŷn â chyfleoedd i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau.

# 2. Asesiad o Effaith

Dylai'r adran hon gofnodi unrhyw effeithiau sydd wedi'u dynodi, neu rai posib', ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, grwpiau sy'n profi anghydraddoldeb, a grwpiau eraill sydd mewn perygl o brofi gwaeth canlyniadau. Dylid cofnodi effeithiau cadarnhaol a negyddol ar bob un o'r grwpiau sydd wedi'u diffinio isod lle bo hynny'n berthnasol.


**Meddyliwch am unrhyw rwystrau i fynediad, meysydd o anghydraddoldeb, a sut y gallai gwahanol grwpiau fod wedi'u heffeithio'n anghyfartal gan y cynnig hwn. I'r gwrthwyneb, meddyliwch sut y gallai grwpiau penodol elwa neu weld gwell canlyniadau o ganlyniad i'r cynnig.**


## Nodweddion Gwarchodedig

| **Oedran**<br><br>Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn neu'r boblogaeth sydd o oed gweithio. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

**Demograffeg oedran Conwy**

Dyma’r ddemograffeg sydd i’w gweld yng Nghonwy (ac mae angen eu hystyried o fewn dyluniad polisi’r CDLlN).



Ers cyfrifiad 2011, mae newid amlwg wedi bod wrth i'r grŵp oedran mwyaf newid o'r categori 45–49 i 55–59.

Mae hyn yn dangos bod 'ymchwydd' o boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghonwy (yn yr un modd â gweddill y DU) sy'n nesáu at y grwpiau oedran hŷn o 65 a hŷn. Mae'n bwysig nodi hyn gan mai'r grwpiau dros 65 oed yw'r rhai lle mae iechyd yn tueddu i ddirywio a materion amddifadedd cymdeithasol a thlodi yn tueddu i gynyddu, gan arwain at gynnydd o ran anghydraddoldeb.  Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau cymorth llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd.


Mae cynnydd yn y boblogaeth hŷn a fydd angen mathau penodol o gludiant o ganlyniad, er enghraifft, mwy o ddibyniaeth ar yr isadeiledd cludiant lleol.

Mae cynnydd hefyd yn y categori oedran 25–34 ac mae'r cynnydd hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae'n amlwg felly fod hon yn boblogaeth o oed ôl-ymddeol sy'n uwch na gweddill Cymru, ac mae Conwy yn enwog am fod yn ardal lle mae pobl yn dod i ymddeol iddi.

Mae cyfran uwch o henoed ym mhoblogaeth Conwy hefyd, felly mae mwy o alw am gludiant cyhoeddus a darpariaeth arall o gludiant i rai nad ydynt yn gallu gyrru, er enghraifft, tacsis neu wasanaethau fel deialu a theithio.

O gymharu â gweddill Cymru, mae lefelau llawer is o boblogaeth ar gyfer pob grŵp oedran hyd at 45 oed.  O ran preswylwyr o oed gweithio felly (16–65 oed), mae'r gyfran yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a'r DU.



Mae'r graff hwn eto yn dangos bod yr ymchwydd yn y boblogaeth yn heneiddio'n gyflym ac fel mae'r grŵp oedran wedi tyfu ers y cyfrifiad diwethaf. Bydd angen i'r CDLlN roi ystyriaeth i hyn yn ei ddyluniad polisi.

Mae demograffeg oedran Conwy yn dangos mai'r grŵp oedran mwyaf yw 50–64 oed, sy'n 22.5% o'r boblogaeth gyfan. Cynyddodd hyn o 20.9% o'r boblogaeth i 22.5% o 2020 i 2021 hefyd, felly mae'r grŵp oedran yn tueddu i dyfu o ran cyfran. Fel y nodwyd, pan fydd yr ymchwydd hwn yn y boblogaeth yn heneiddio, bydd materion cydraddoldeb amlwg i'w hystyried yng Nghonwy ac mae angen i'r CDLlN baratoi ar gyfer hynny yn y drafft cyfredol.

Mae allfudiad o rai 18–24 oed hefyd, sy'n effeithio ar ddemograffeg Conwy, ac mae angen i'r CDLlN ystyried sut y gall tai gyfrannu at liniaru'r allfudo hwn. Er bod ystadegau'n dangos bod poblogaeth y grŵp oedran hwnnw wedi cynyddu, mae'r allfudo'n parhau.

**<u>Polisïau Datblygu Economaidd sy'n Benodol i'r CDLlN</u>**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Datblygu Economaidd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Datblygu Economaidd ac Oedran:

**ED/1 - Datblygu Economaidd**

**ED/2 - Dyraniadau Cyflogaeth**

**ED/3 - Datblygiadau B1, B2 a B8 Newydd ar Safleoedd heb eu Dyrannu**

**ED/4 - Diogelu Safleoedd Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8**

**ED/5 - Ardaloedd Gwella Cyflogaeth Swyddfeydd a Diwydiannol**

**ED/6 - Ehangu Busnesau yn yr Ardal Wledig**

Mae'r polisïau Datblygu Economaidd uchod oll yn ymwneud â gwella datblygiad economaidd yng nghymuned Conwy trwy, er enghraifft, creu cyfleoedd i dir gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a gwella isadeiledd a defnydd tir presennol sy'n cefnogi datblygiad economaidd i ffynnu.


Mae hyn yn elwa holl grwpiau oedran yn sylweddol gan ei fod yn gwella lles economaidd Conwy. Fodd bynnag, mae'n hynod o fanteisiol i'r rhai sydd mewn

oedran gwaith, ac ymhellach i'r grwpiau oedran hynny sy'n tueddu i gael mwy o anhawster o ran cael gwaith - er enghraifft, pobl iau sydd â sgiliau is, a phobl hŷn sy'n agos at oedran ymddeol sy'n cael eu gweld yn gyffredinol yn llai deniadol i'w cyflogi (gan eu bod mor agos at ymddeol).

**Crynodeb ar Oedran:**

Felly bydd polisïau defnydd tir strategol wedi'u targedu tuag at ddatblygiad economaidd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar holl grwpiau oedran, ond yn benodol y grwpiau oedran iau gyda sgiliau is a'r rhai sy'n agos at oedran ymddeol (sydd o dan anfantais (o ran cyfleoedd cyflogaeth)).

| **Anabledd**<br><br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys pobl sydd ag anableddau corfforol / dysgu, cyflyrau hirdymor, neu iechyd meddwl gwael | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |





Mae 22% o'r boblogaeth sy'n anabl, sy'n cyd-fynd â'r lefelau ar hyd a lled Cymru. Felly gall 22% o'r boblogaeth fod angen gwahanol fathau o dai.

| **Problemau iechyd hirdymor neu anableddau ym Mwrdeistref Sirol Co** | **Unigolion (Nifer)** | **Unigolion (%)** |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Cyfyngu'n helaeth ar weithgareddau ddydd | 11,920 | 10.4 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Cyfyngu ychydig ar weithgareddau ddydd | 14,024 | 12.2 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Cyflwr iechyd corfforol neu fec hirdymor ond heb gyfyngu ar weithgareddau dydd i ddydd | 7,673 | 6.7 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Dim cyflyrau iechyd corfforol n meddyliol hirdymor | 81,124 | 70.7 |

Roedd 22.6% o bobl yng Nghonwy wedi nodi eu bod yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghyfrifiad 2021. Mae hyn yn gyfystyr â 33,617 o bobl a mwy nag 1 o bob 5 o bobl yn anabl.  Mae angen ystyried hyn yn ofalus wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus ac mae angen i'r CDLlN ystyried yr ystadegyn yma'n ofalus.

O'r rhai sy'n eu cyfrif eu hunain yn anabl, nododd 11,920 fod eu gweithgareddau dydd i ddydd wedi'u cyfyngu'n helaeth – mae hyn yn 10% o bobl yn ystyried eu hunain yn anabl lle bo'u gweithgareddau wedi'u cyfyngu'n helaeth.




Yn 2021, roedd 9.2% o breswylwyr Conwy wedi nodi eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu'n helaeth. Roedd y ffigwr wedi gostwng o 10.4% yn 2011. Roedd y gostyngiad yng nghyfran y preswylwyr a nododd eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu'n helaeth yn fwy yng Ngwynedd (1.7 pwynt canran) nag yng Nghonwy (1.2 pwynt canran). Yng Ngwynedd, gostyngodd y gyfran o 9.4% yn 2011 i 7.7% yn 2021.

Yn 2021, roedd ychydig mwy nag un o bob naw o bobl (11.3%) yn anabl ac wedi'u cyfyngu ychydig, o gymharu â 10.8% yn 2011.

**Polisïau Datblygu Economaidd sy'n Benodol i'r CDLlN**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Datblygu Economaidd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Datblygu Economaidd ac Anabledd:

**ED/1 - Datblygu Economaidd**

**ED/2 - Dyraniadau Cyflogaeth**

**ED/3 - Datblygiadau B1, B2 a B8 Newydd ar Safleoedd heb eu Dyrannu**

**ED/4 - Diogelu Safleoedd Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8**

**ED/5 - Ardaloedd Gwella Cyflogaeth Swyddfeydd a Diwydiannol**

**ED/6 - Ehangu Busnesau yn yr Ardal Wledig**

Mae'r polisïau Datblygu Economaidd uchod oll yn ymwneud â gwella datblygiad economaidd yng nghymuned Conwy trwy, er enghraifft, creu cyfleoedd i dir gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a gwella isadeiledd a defnydd tir presennol sy'n cefnogi datblygiad economaidd i ffynnu.

Mae hyn yn elwa pawb, ond yn benodol pobl anabl, sydd â chyfraddau llawer uwch o ddiweithdra o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl, yn sgil gwahaniaethu a chamdybiaeth o ran cyflogi pobl anabl, neu'r cyfleoedd cyfyngedig at waith sy'n darparu addasiadau rhesymol i gefnogi pobl anabl o fewn eu cyflogaeth.

Bydd polisïau sydd â'r nod o gynorthwyo ffyniant economaidd a'r genhedlaeth o lefelau cynyddol o gyfleoedd cyflogaeth, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl anabl sydd ag angen cynyddol am ystod amrywiol o gyfleoedd cyflogaeth.

**Crynodeb ar Anabledd:**

Felly bydd polisïau defnydd tir strategol sydd wedi'u hanelu at ddatblygiad economaidd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bawb, ond yn benodol ar bobl anabl sydd â lefelau llawer is o gyflogaeth yn sgil y rhwystrau sy'n parhau i fodoli ar gyfer pobl anabl. Felly bydd y polisïau hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl anabl.

| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys dynion hoyw / deurywiol, merched lesbiaidd / deurywiol, neu bobl heterorywiol | ☑ | ☐ | ☐ |

| Cyfeiriadedd rhywiol ym Mwrdeistref Sirol Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn | 96,362 | 100.0 |
| Strêt neu heterorywiol | 85,973 | 89.2 |
| Hoyw neu lesbiaidd | 1,330 | 1.4 |
| Deurywiol | 872 | 0.9 |
| Panrywiol | 140 | 0.1 |
| Anrhywiol | 45 | 0.0 |
| Cwiar | 7 | 0.0 |
| Pob cyfeiriadedd rhywiol arall | 9 | 0.0 |
| Heb ateb | 7986 | 8.3 |

Cofnododd y cyfrifiad fod 89.2% o'r boblogaeth yn strêt neu'n heterorywiol yng Nghonwy, 1.4% yn hoyw neu'n lesbiaidd, 0.9% yn ddeurywiol ac roedd 8.3% heb ateb y cwestiwn. Mae cwestiynau sy'n ymwneud â hyn yn fater sensitif ac mae rhai'n teimlo'n anghyfforddus yn ateb y mathau hyn o gwestiynau, sy'n ei gwneud yn anodd mesur neu ddibynnu ar yr ystadegau a gasglwyd. Mae'r Adran Fasnach a Diwydiant yn rhoi rhagamcan swyddogol bod 5-7% o boblogaeth Prydain yn hoyw, lesbiaid, neu'n ddeurywiol sy'n awgrymu bod rhywfaint wedi'u tanadrodd yng Nghonwy pan gasglwyd y cyfrifiad.

**<u>Polisïau Datblygu Economaidd sy'n Benodol i'r CDLlN</u>**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Datblygu Economaidd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Datblygu Economaidd a Rhywioldeb:

**ED/1 - Datblygu Economaidd**

**ED/2 - Dyraniadau Cyflogaeth**

**ED/3 - Datblygiadau B1, B2 a B8 Newydd ar Safleoedd heb eu Dyrannu**

**ED/4 - Diogelu Safleoedd Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8**

**ED/5 - Ardaloedd Gwella Cyflogaeth Swyddfeydd a Diwydiannol**

**ED/6 - Ehangu Busnesau yn yr Ardal Wledig**

Mae'r polisïau Datblygu Economaidd uchod oll yn ymwneud â gwella datblygiad economaidd yng nghymuned Conwy trwy, er enghraifft, creu cyfleoedd i dir gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a gwella isadeiledd a defnydd tir presennol sy'n cefnogi datblygiad economaidd i ffynnu.

Mae hyn yn elwa pob math o bobl yn sylweddol gan ei fod yn gwella lles economaidd Conwy ac yn cynhyrchu lefelau uwch o gyfleoedd cyflogaeth.  Mae hefyd yn elwa pobl LHDTC+, lle mae ymchwil yn dangos y gallent fod â lefelau is o ffyniant cyflogaeth yn sgil materion cymhleth o wahaniaethu o fewn cyflogaeth.

**<u>Crynodeb ar Rywioldeb</u>**

Felly bydd polisïau defnydd tir strategol sydd wedi'u hanelu at ddatblygiad economaidd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bob math o bobl ac felly bydd yn fanteisiol o bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon, yn arbennig y rhai sydd wedi profi llai o lwyddiant o ran sicrhau cyflogaeth o'u dewis.

| **Ailbennu Rhywedd**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n bwriadu mynd drwy broses ailbennu rhywedd, wrthi'n mynd neu wedi mynd drwyddi. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

| **Hunaniaeth rhywedd ym Mwrdeistref Sirol Conwy** | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn | 96,362 | 100.0 |
| Hunaniaeth rhywedd 16 oed a hŷn | 89,545 | 92.9 |
| Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd ar yr enedigaeth ond heb nodi unrhyw hunaniaeth benodol | 94 | 0.1 |
| Merch draws | 40 | 0.0 |
| Dyn traws | 58 | 0.1 |
| Anneuaidd | 34 | 0.0 |
| Pob hunaniaeth rhywedd arall | 27 | 0.0 |
| Heb ateb | 6,564 | 6,8 |

Mae'r wybodaeth o ran hunaniaeth rhywedd yn parhau i fod yn gymharol gyfyngedig ac mae'n parhau i fod yn nodwedd warchodedig sy'n cael ei than-adrodd.

Dengys y cyfrifiad bod 0.1% – 94 o bobl yng Nghonwy sydd â hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni. Roedd 40 yn nodi eu bod yn ferch draws, 58 (0.1%) yn ddyn traws, 34 yn anneuaidd a 27 o blith pob hunaniaeth rhywedd arall.

**Polisïau Datblygu Economaidd sy'n Benodol i'r CDLlN**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Datblygu Economaidd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Datblygu Economaidd ac Ailbennu Rhywedd:

**ED/1 - Datblygu Economaidd**

**ED/2 - Dyraniadau Cyflogaeth**

**ED/3 - Datblygiadau B1, B2 a B8 Newydd ar Safleoedd heb eu Dyrannu**

**ED/4 - Diogelu Safleoedd Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8**

**ED/5 - Ardaloedd Gwella Cyflogaeth Swyddfeydd a Diwydiannol**

**ED/6 - Ehangu Busnesau yn yr Ardal Wledig**


Mae'r polisïau Datblygu Economaidd uchod oll yn ymwneud â gwella datblygiad economaidd yng nghymuned Conwy trwy, er enghraifft, creu cyfleoedd i dir gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a gwella isadeiledd a defnydd tir presennol sy'n cefnogi datblygiad economaidd i ffynnu.

Mae hyn yn elwa pob math o bobl yn sylweddol gan ei fod yn gwella lles economaidd Conwy ac yn cynhyrchu lefelau uwch o gyfleoedd cyflogaeth. Mae hefyd yn elwa pobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon, gan fod ymchwil yn dangos fod y stigma sydd ynghlwm ailbennu rhywedd yn cael effaith andwyol ar lwyddiant cyflogaeth. Felly bydd polisïau economaidd y CDLlN yn cael effaith gadarnhaol ar y mater hwn, gan y bydd yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon.

**Crynodeb ar Ailbennu Rhywedd:**

Felly bydd polisïau defnydd tir strategol sydd wedi'u hanelu at ddatblygiad economaidd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bob math o bobl ac felly bydd yn fanteisiol o bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon, yn arbennig y rhai sydd wedi profi llai o lwyddiant o ran sicrhau cyflogaeth o'u dewis.

| **Rhyw (Rhywedd)**<br>Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys rhai gwryw neu fenyw – neu grwpiau rhyweddol penodol fel bechgyn neu ferched. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |




| Rhyw ym Mwrdeistref Sirol Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Benyw | 59,156 | 51.6 |
| Gwryw | 55,585 | 48.4 |

Mae'r dadansoddiad o ran rhyw ar draws Conwy yn y cyfrifiad yn dangos bod ychydig yn fwy o ferched na dynion gyda 51.6% o'r boblogaeth yn ferched a 48.4% yn ddynion. Mae hyn yn gyfystyr â 59,156 o ferched a 55,585 o ddynion.

**Disgwyliad Oes a Rhywedd**

Conwy

| Blwyddyn | Dynion | Benywod |
|---|---|---|
| 1991-93 | 74.4 | 80.2 |
| 1992-94 | 74.6 | 80.3 |
| 1993-95 | 74.4 | 80.1 |
| 1994-96 | 75 | 80.1 |
| 1995-97 | 74.7 | 80 |
| 1996-98 | 74.7 | 80.1 |
| 1997-99 | 74.4 | 79.7 |
| 1998-00 | 74.7 | 80 |
| 1999-01 | 75 | 80.1 |
| 2000-02 | 75.5 | 80.3 |
| 2001-03 | 75.7 | 80.5 |
| 2002-04 | 75.8 | 80.8 |
| 2003-05 | 76.3 | 81.2 |
| 2004-06 | 76.6 | 81.4 |
| 2005-07 | 77 | 81.5 |
| 2006-08 | 77.1 | 81.6 |
| 2007-09 | 77.3 | 81.9 |
| 2008-10 | 78 | 82 |
| 2009-11 | 78.2 | 82.4 |
| 2010-12 | 79 | 82.6 |

| Blwyddyn | Dynion | Benywod |
|---|---|---|
| 1991-93 | 74.4 | 80.2 |
| 1992-94 | 74.6 | 80.3 |
| 1993-95 | 74.4 | 80.1 |
| 1994-96 | 75.0 | 80.1 |
| 1995-97 | 74.7 | 80.0 |
| 1996-98 | 74.7 | 80.1 |
| 1997-99 | 74.4 | 79.7 |
| 1998-00 | 74.7 | 80.0 |
| 1999-01 | 75.0 | 80.1 |
| 2000-02 | 75.5 | 80.3 |
| 2001-03 | 75.7 | 80.5 |
| 2002-04 | 75.8 | 80.8 |
| 2003-05 | 76.3 | 81.2 |
| 2004-06 | 76.6 | 81.4 |
| 2005-07 | 77.0 | 81.5 |
| 2006-08 | 77.1 | 81.6 |
| 2007-09 | 77.3 | 81.9 |
| 2008-10 | 78.0 | 82.0 |
| 2009-11 | 78.2 | 82.4 |
| 2010-12 | 79.0 | 82.6 |

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Life-Expectancy/LifeExpectancy-by-Gender-Year

Cyfrifwyd mai'r disgwyliad oes yng Nghonwy yn 2010–2012 oedd 79 i ddynion ac 82.6 i ferched. Mae hyn hefyd yn cynyddu'n raddol dros amser, wedi codi o 74.4 yn 1991 ar gyfer dynion ac 80.2 ar gyfer merched, sy'n dangos cynnydd mwy o ran disgwyliad oes dynion.

Wrth gymharu'r ystadegau hyn â rhai Cymru, mae'r disgwyliad oes yn uwch ar gyfer dynion a merched o gymharu â Chymru. Mae'r cynnydd i ddisgwyliad oes yn debyg i gyfradd Cymru.

Mae disgwyliad oes, felly, ychydig yn uwch ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghonwy o gymharu â Chymru. Mae'r ffaith bod pobl yn byw'n hirach, yn enwedig yng Nghonwy, yn golygu y bydd mwy o alw ar y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r angen i ymdrin ag anghydraddoldeb ar gyfer pobl hŷn, fel arwahanrwydd ac arwahanrwydd gwledig yn benodol, hyd yn oed yn fwy perthnasol wrth i'r boblogaeth fyw'n hŷn.

**<u>Polisïau Datblygu Economaidd sy'n Benodol i'r CDLlN</u>**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Datblygu Economaidd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anfantais mewn perthynas â Datblygu Economaidd a Rhyw (Rhywedd):

**ED/1 - Datblygu Economaidd**

**ED/2 - Dyraniadau Cyflogaeth**

**ED/3 - Datblygiadau B1, B2 a B8 Newydd ar Safleoedd heb eu Dyrannu**

**ED/4 - Diogelu Safleoedd Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8**

**ED/5 - Ardaloedd Gwella Cyflogaeth Swyddfeydd a Diwydiannol**

**ED/6 - Ehangu Busnesau yn yr Ardal Wledig**

Mae'r polisïau Datblygu Economaidd uchod oll yn ymwneud â gwella datblygiad economaidd yng nghymuned Conwy trwy, er enghraifft, creu cyfleoedd i dir gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a gwella isadeiledd a defnydd tir presennol sy'n cefnogi datblygiad economaidd i ffynnu.

Mae hyn yn elwa pob math o bobl yn sylweddol gan ei fod yn gwella lles economaidd Conwy ac yn cynhyrchu lefelau uwch o gyfleoedd cyflogaeth. Yn hanesyddol mae gwahaniaethu wedi bodoli yn erbyn merched trwy gael eu talu'n llai am yr un gwaith â dynion, a hefyd trwy gael llai o gyfleodd i sicrhau swyddi uwch o fewn sefydliadau, er enghraifft. Yn ogystal â hynny, mae gwahaniaethu wedi bodoli yn erbyn merched gyda stigma ynghlwm cyflawni swydd sydd wedi'i ddominyddu'n draddodiadol gan ddynion, er enghraifft, peirianneg, gweithio o fewn y diwydiant adeiladu. Mae gwahaniaethu wedi bodoli yn erbyn dynion, gyda stigma ynghlwm cael cyfleoedd gwaith sydd wedi'u dominyddu'n bennaf gan ferched, megis gofal plant, nyrsio ac ati.

Felly bydd polisïau economaidd y CDLlN yn cael effaith gadarnhaol ar anghydraddoldeb rhyw o fewn cyflogaeth gan y byddai'n cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl a fydd yn cael sgil effaith o elwa dynion a merched, sydd wedi cael eu tangynrychioli o fewn cyfleoedd cyflogaeth penodol.

**<u>Crynodeb ar Ryw (Rhywedd):</u>**


Felly bydd polisïau defnydd tir strategol sydd wedi'u hanelu at ddatblygiad economaidd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bob math o bobl ac felly bydd

yn fanteisiol o bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon, yn arbennig y rhai sydd wedi profi llai o lwyddiant o ran sicrhau cyflogaeth o'u dewis.

| **Hil**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys rhai o wahanol ethnigrwydd, cenedligrwydd, hunaniaethau cenedlaethol a lliw croen. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

Er bod y boblogaeth lleiafrifoedd ethnig yn fach, mae'r gan y polisïau o fewn y CDLlN y posibilrwydd i gael effaith sylweddol ar grwpiau lleiafrifol ethnig sy'n byw yng Nghonwy.

Dyma'r wybodaeth ddemograffig am Hil sydd i'w gweld ar gyfer Conwy:




### Ethnigrwydd yng Nghonwy

Y grŵp ethnig mwyaf yw Gwyn sy'n cyfrif am 96.9% o'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd.

Roedd 1.4% o drigolion Conwy wedi nodi mai eu grŵp ethnig oedd "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig". Mae hyn wedi cynyddu o 1.1% yn 2011 a fyddai'n

awgrymu bod cymuned Asiaidd yn tyfu yng Nghonwy.  Y cynnydd hwn oedd y cynnydd mwyaf ymysg grwpiau ethnig lefel uchel yn ardal Conwy. Wrth gymharu hyn ar draws Cymru, mae canran y bobl o grŵp ethnig “Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig” wedi cynyddu o 2.3% i 2.9% – cynnydd o 0.6%.  Mae’r grŵp Du Caribïaidd neu Affricanaidd yn cynrychioli dim ond 0.2% o’r boblogaeth.


Mae sawl ffactor sy’n gallu cyfrannu at y newid yng nghyfansoddiad ethnig Cymru a Lloegr.  Mae rhai o’r ffactorau hyn yn cynnwys heneiddio, ffrwythlondeb, marwolaeth a mudo.  Wrth i’r categorïau addasu ac wrth i ddiwylliant addasu, gall pobl sy’n llenwi categorïau’r cyfrifiad newid sut maent yn cofnodi eu hethnigrwydd *sydd hefyd yn gallu effeithio ar y canlyniadau*.

| **Ethnigrwydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy** | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,743 | 100.0 |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 1,651 | 1.4 |
| Du / Du Cymreig / Du Prydeinig / Caribïaidd / Affricanaidd | 271 | 0.2 |
| Grwpiau ethnig cymysg neu luosog | 1,254 | 1.1 |
| Gwyn | 111,176 | 96.9 |
| Grwpiau ethnig eraill | 391 | 0.3 |

Fodd bynnag, mae poblogaeth lleiafrif ethnig Conwy’n isel iawn ar y cyfan.


O gyfanswm poblogaeth o 114,743, mae 1,651 o bobl Asiaidd, a 1,254 o bobl o grwpiau ethnig cymysg neu luosog.

## Hunaniaeth Genedlaethol yng Nghonwy




Roedd canran y rhai oedd yn cyfrif eu hunain yn “Gymreig yn unig” wedi cynyddu yng Nghonwy o 0.4 pwynt canran, o 41.6% yn 2011 i 42.0% yn 2021. Mae hyn yn groes i ostyngiad ar draws gweddill Cymru. Roedd canran y rhai oedd wedi nodi “Cymreig a Phrydeinig yn unig” yng Nghonwy wedi cynyddu o 4.3% i 5.8%, a chanran y rhai oedd wedi nodi “Prydeinig yn unig” wedi cynyddu o 21.7% i 24.3%.

## Gwlad Enedigol




Mae cynnydd o 0.9% yn y rhai a nododd mai Cymru yw eu gwlad enedigol, o 54.45% yn 2011 i 55.5% yn 2021. Bu gostyngiad yn y gyfran a nododd mai Lloegr yw eu gwlad enedigol hefyd, o 39.7% yn 2011 i 37.9% yn 2021. Bu cynnydd bychan o 1% yn y rhai a nododd mai eu gwlad enedigol yw Gwlad Pwyl. Bu gostyngiad bychan yn y rhai a nododd Iwerddon a'r Alban hefyd.

**Polisïau Datblygu Economaidd sy'n Benodol i'r CDLlN**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Datblygu Economaidd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Datblygu Economaidd a Hil:

**ED/1 - Datblygu Economaidd**

**ED/2 - Dyraniadau Cyflogaeth**

**ED/3 - Datblygiadau B1, B2 a B8 Newydd ar Safleoedd heb eu Dyrannu**

**ED/4 - Diogelu Safleoedd Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8**

**ED/5 - Ardaloedd Gwella Cyflogaeth Swyddfeydd a Diwydiannol**

**ED/6 - Ehangu Busnesau yn yr Ardal Wledig**


Mae'r polisïau Datblygu Economaidd uchod oll yn ymwneud â gwella datblygiad economaidd yng nghymuned Conwy trwy, er enghraifft, creu cyfleoedd i dir gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a gwella isadeiledd a defnydd tir presennol sy'n cefnogi datblygiad economaidd i ffynnu.

Mae hyn yn elwa pob math o bobl yn sylweddol gan ei fod yn gwella lles economaidd Conwy ac yn cynhyrchu lefelau uwch o gyfleoedd cyflogaeth. Mae ymchwil yn dangos fod pobl o grwpiau ethnig penodol mewn cyflogaeth â chyflog is o'i gymharu â'r boblogaeth ehangach, er enghraifft, y gymuned Bangladeshaidd. Felly bydd polisïau sy'n ymwneud â gwella neu ehangu cyfleoedd cyflogaeth yn cael effaith gadarnhaol ar draws holl grwpiau ethnig ac o bosibl gall gael effaith gadarnhaol sylweddol ar y grwpiau hynny sydd wedi'u tan-gynrychioli o fewn cyflogaeth.

<u>**Crynodeb ar Hil:**</u>

Felly bydd polisïau defnydd tir strategol sydd wedi'u hanelu at ddatblygiad economaidd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bob math o bobl ac felly bydd yn fanteisiol o bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon, yn arbennig y rhai sydd wedi profi llai o lwyddiant o ran sicrhau cyflogaeth o'u dewis.


| **Crefydd a Chred**<br>Gall y grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys yr holl grwpiau ffydd cydnabyddedig a rhai nad ydynt yn dilyn unrhyw grefydd na system gred | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |




| Crefydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Dim crefydd | 46,946 | 40.9 |
| Cristion | 58,283 | 50.8 |
| Bwdhydd | 375 | 0.3 |
| Hindŵ | 254 | 0.2 |
| Iddew | 63 | 0.1 |
| Mwslim | 842 | 0,7 |
| Sikh | 33 | 0.0 |
| Crefydd arall | 621 | 0.5 |
| Heb ateb | 7,324 | 6.4 |

Yn 2021, roedd 50.8% wedi nodi eu bod yn Gristnogion – dyma'r categori crefydd a chred mwyaf a gofnodwyd yng Nghonwy. Roedd y ffigwr hefyd yn uwch o gymharu â Chymru gyfan gyda 45.6% yn nodi eu bod yn Gristnogion. Roedd 40.9% o breswylwyr Conwy wedi nodi "Dim crefydd", sef yr ail gategori mwyaf. Roedd hyn yn is na'r gyfran a nododd "Dim crefydd" trwy Gymru gyfan, sef 46.5%. Roedd gweddill y categorïau crefydd a chred yn is nag 1%, a chrefydd Islam oedd y mwyaf o blith y rheiny ar 0.7%. Ffigwr Cymru gyfan o ran unigolion oedd yn cyfrif eu hunain yn Fwslimiaid yw 2.2%.

**Crefydd**




O ran sut mae'r gyfran wedi newid dros amser, yn 2011, roedd 26.1% wedi nodi "Dim crefydd" ac erbyn 2021 roedd wedi cynyddu'n sylweddol i 40.9%.  Mae hyn yn gynnydd o 14.9% o 2011 i 2021. Y cynnydd o 14.9 pwynt canran oedd y cynnydd mwyaf ar draws y categorïau crefydd a chred yng Nghonwy.

Ar draws Cymru, roedd canran y preswylwyr a oedd wedi nodi "Dim crefydd" wedi codi o 32.1% i 46.5%. Mae hyn yn gynnydd o 14.4%, sy'n llai na'r cynnydd yng Nghonwy. Dylid nodi, fodd bynnag, fod hwn yn gwestiwn gwirfoddol yn y cyfrifiad felly mae angen trin y wybodaeth yn ofalus, yn enwedig wrth gymharu â gwahanol ardaloedd.

Roedd newid sylweddol yn nifer yr unigolion a oedd wedi nodi eu bod yn Gristnogion hefyd.  Yn 2011, roedd 64.7% o boblogaeth Conwy wedi nodi eu bod yn Gristnogion ac roedd hyn wedi gostwng i 50.8% yn 2021 – gostyngiad o 13.9%. Roedd 6.4% heb nodi eu crefydd, sydd wedi gostwng o 7.8% yn 2011.

**<u>Polisïau Datblygu Economaidd sy'n Benodol i'r CDLlN</u>**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Datblygu Economaidd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Datblygu Economaidd a Chrefydd a Chred:

**ED/1 - Datblygu Economaidd**

**ED/2 - Dyraniadau Cyflogaeth**

**ED/3 - Datblygiadau B1, B2 a B8 Newydd ar Safleoedd heb eu Dyrannu**

**ED/4 - Diogelu Safleoedd Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8**

**ED/5 - Ardaloedd Gwella Cyflogaeth Swyddfeydd a Diwydiannol**

**ED/6 - Ehangu Busnesau yn yr Ardal Wledig**

Mae'r polisïau Datblygu Economaidd uchod oll yn ymwneud â gwella datblygiad economaidd yng nghymuned Conwy trwy, er enghraifft, creu cyfleoedd i dir gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a gwella isadeiledd a defnydd tir presennol sy'n cefnogi datblygiad economaidd i ffynnu.

Mae hyn yn elwa pob math o bobl yn sylweddol gan ei fod yn gwella lles economaidd Conwy ac yn cynhyrchu lefelau uwch o gyfleoedd cyflogaeth. Mae pobl gyda chredoau crefyddol penodol hefyd wedi'u cysylltu â grwpiau ethnig penodol, sydd yn ôl ymchwil, mewn cyflogaeth â chyflog is o'i gymharu â'r boblogaeth ehangach, er enghraifft, y gymuned Bangladeshaidd, sydd â chyfran uwch sy'n Fwslemiaid. Felly bydd polisïau sy'n ymwneud â gwella neu ehangu cyfleoedd cyflogaeth yn cael effaith gadarnhaol ar draws holl grwpiau ethnig ac o bosibl gall gael effaith gadarnhaol sylweddol ar y grwpiau hynny sydd wedi'u tan-gynrychioli o fewn cyflogaeth.

**<u>Crynodeb Crefydd a Chred:</u>**

Felly bydd polisïau defnydd tir strategol sydd wedi'u hanelu at ddatblygiad economaidd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bob math o bobl ac felly bydd

yn fanteisiol o bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon, yn arbennig y rhai sydd wedi profi llai o lwyddiant o ran sicrhau cyflogaeth o'u dewis.

| **Beichiogrwydd a Mamolaeth**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gyn merched beichiog, pobl ar absenoldeb ma a rhai sy'n gofalu am fabi newydd / plentyr | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

**Beichiogrwydd fesul ardal a grŵp oedran 2016**

| **Ardal** | **Nifer dan 16** | **Cyfradd dan 16** | **Nifer dan 18** | **Cyfradd dan 18** | **Nifer dan 20** | **Cyfradd dan 20** | **Nifer pob oed** | **Cyfradd pob oed** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 174 | 3.65 | 1,061 | 20.93 | 3,288 | 37.24 | 40,327 | 72.06 |
| BILIP Betsi Cadwaladr | Dim data | Dim data | 221 | 19.82 | 749 | 40.21 | 8,854 | 77.07 |
| Ynys Môn | Dim data | Dim data | 18 | 16.89 | 72 | 41.81 | 848 | 80.34 |
| Gwynedd | 6 | 3.39 | 36 | 19.35 | 139 | 36.11 | 1,442 | 66.07 |
| Conwy | Dim data | Dim data | 37 | 19.38 | 116 | 39.28 | 1,304 | 75.56 |
| Sir Ddinbych | 3 | 2.09 | 40 | 25.48 | 117 | 46.84 | 1,194 | 79.44 |
| Sir y Fflint | 9 | 3.57 | 44 | 17.08 | 146 | 35.86 | 2,065 | 77.99 |
| Wrecsam | 4 | 1.90 | 46 | 21.23 | 159 | 45.02 | 2,001 | 84.32 |

*Disgrifiad cyffredinol*

*Mae'r tabl hwn yn darparu data ar y cyfraddau beichiogi sydd wedi arwain at naill ai enedigaeth fyw neu blentyn farw-anedig neu derfynu beichiogrwydd drwy erthyliad cyfreithlon. Amcangyfrifon yw'r ffigurau beichiogi, a gafwyd drwy gyfuno gwybodaeth gofrestru genedigaethau a hysbysu am erthyliadau cyfreithlon. Nid ydynt yn cynnwys colli babi nac erthyliad anghyfreithlon. Amcangyfrifir y dyddiad cenhedlu drwy ddefnyddio cofnod cyfnod beichiogi ar gyfer erthyliadau a babanod marw-anedig a drwy dybio 38 wythnos ar gyfer genedigaethau byw. Mae'r ffigyrau beichiogi yn ymwneud â phreswylwyr mewn ardal. Ffynhonnell:* https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Births-Deaths-and-Conceptions/Conceptions/conceptions-by-area-agegroup

Cyfyngedig yw'r data sydd ar gael mewn perthynas â beichiogrwydd a mamolaeth yng Nghonwy, ond mae data ar gael gan Stats Cymru fel y nodir yn y dyfyniad uchod o 2016. Dengys y data bod cofnod o 1,304 o ferched yn feichiog yn 2016. Mae hyn yn gyfystyr â 75.6 fesul 1,000 o ferched yn feichiog. O gymharu ar lefel Cymru, mae'r cyfraddau beichiogi yn uwch nag yng Ngwynedd sy'n 66.1 yn feichiog fesul 1,000 o ferched, ond yn is nag yn Sir Ddinbych (79.4 fesul 1,000 o ferched), Sir y Fflint (78 fesul 1,000 o ferched) a Wrecsam (84.3 fesul 1000 o ferched).

Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yn Lloegr oedd 1.62 plentyn fesul merch yn 2021, oedd yn gynnydd o 1.9% o 1.59 yn 2020. Roedd cyfradd ffrwythlondeb is yng Nghymru, gydag 1.49 plentyn fesul merch yn 2021, y cynnydd blynyddol cyntaf yn y gyfradd ers tair blynedd.

**Polisïau Datblygu Economaidd sy'n Benodol i'r CDLlN**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Datblygu Economaidd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Datblygu Economaidd a Beichiogrwydd a Mamolaeth:

**ED/1 - Datblygu Economaidd**

**ED/2 - Dyraniadau Cyflogaeth**

**ED/3 - Datblygiadau B1, B2 a B8 Newydd ar Safleoedd heb eu Dyrannu**

**ED/4 - Diogelu Safleoedd Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8**

**ED/5 - Ardaloedd Gwella Cyflogaeth Swyddfeydd a Diwydiannol**

**ED/6 - Ehangu Busnesau yn yr Ardal Wledig**


Mae'r polisïau Datblygu Economaidd uchod oll yn ymwneud â gwella datblygiad economaidd yng nghymuned Conwy trwy, er enghraifft, creu cyfleoedd i dir gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a gwella isadeiledd a defnydd tir presennol sy'n cefnogi datblygiad economaidd i ffynnu.

Mae hyn yn elwa pob math o bobl yn sylweddol gan ei fod yn gwella lles economaidd Conwy ac yn cynhyrchu lefelau uwch o gyfleoedd cyflogaeth. Bydd hyn hefyd yn elwa merched sy'n feichiog neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar.

**Crynodeb Beichiogrwydd a Mamolaeth:**


Felly bydd polisïau defnydd tir strategol sydd wedi'u hanelu at ddatblygiad economaidd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bob math o bobl ac felly bydd yn fanteisiol o bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon, yn arbennig y rhai sydd wedi profi llai o lwyddiant o ran sicrhau cyflogaeth o'u dewis.

| **Priodas a Phartneriaeth Sifil**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sydd mewn partneriaeth gyfreithiol ffurfiol – o'r un rhyw a'r rhyw arall | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |




| **Statws Partneriaeth Gyfreithiol ym Mwrdeistref Sirol Conwy** | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn | 96,366 | 100.0 |
| Erioed wedi priodi na chofrestru mewn partneriaeth sifil | 31,279 | 32.5 |
| Priod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 43,990 | 45.6 |
| Priod | 43,791 | 45.4 |
| Mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 199 | 0.2 |
| Wedi gwahanu, ond yn dal wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil yn gyfreithi | 2,061 | 2.1 |
| Wedi ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil | 10,732 | 11.1 |
| Gweddw neu bartner sifil sy'n fyw | 8,304 | 8.6 |

Mae cyfrifiad 2021 yn dangos bod 45.7% yn nodi eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil. 0.2% (199) o'r boblogaeth wedi nodi eu bod wedi'u cofrestru mewn partneriaeth sifil gyda 45.6% (43,791) wedi priodi.




Mae newidiadau wedi bod ers cyfrifiad 2011. Roedd 28.9% o breswylwyr Conwy sy'n 16 oed a hŷn, wedi nodi nad oeddent erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn 2011 ac roedd hyn wedi cynyddu 3.6% i 32.5% yn 2021.

Roedd nifer yr unigolion a nododd eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil wedi gostwng 2.9% o 48.5% yn 2011 i 45.6% yn 2021.

Roedd canran yr oedolion yng Nghonwy a oedd wedi ysgaru neu wedi diddymu partneriaeth sifil hefyd wedi cynyddu o 10.6% yn 2011 i 11.1% yn 2021.

Roedd y cynnydd o ran canran y rhai 16 oed a hŷn a oedd erioed wedi priodi neu wedi bod mewn partneriaeth sifil yng Nghonwy (3.6 pwynt canran) yn debyg i'r cynnydd yng Ngwynedd (3.6 pwynt canran).  Yng Ngwynedd, roedd y ganran wedi cynyddu o 36.4% yn 2011 i 40.1% yn 2021, ac yng Nghymru gyfan roedd y ganran wedi cynyddu o 33.5% i 37.2%.

Felly, mae canran yr unigolion sydd erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn is na ffigwr Cymru gyfan ac yn is na Gwynedd.

Efallai bod cynnwys priodasau o'r un rhyw a phartneriaethau sifil lle nad yw'r ddau o'r un rhyw yn 2021 wedi effeithio ar y ffigyrau hyn, gan nad oedd yr un o'r rhain yn cael eu cydnabod yn gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn 2011.

## Polisïau Datblygu Economaidd sy'n Benodol i'r CDLlN

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Datblygu Economaidd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Datblygu Economaidd a Beichiogrwydd a Mamolaeth:

**ED/1 - Datblygu Economaidd**

**ED/2 - Dyraniadau Cyflogaeth**

**ED/3 - Datblygiadau B1, B2 a B8 Newydd ar Safleoedd heb eu Dyrannu**

**ED/4 - Diogelu Safleoedd Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8**

**ED/5 - Ardaloedd Gwella Cyflogaeth Swyddfeydd a Diwydiannol**

**ED/6 - Ehangu Busnesau yn yr Ardal Wledig**

Mae'r polisïau Datblygu Economaidd uchod oll yn ymwneud â gwella datblygiad economaidd yng nghymuned Conwy trwy, er enghraifft, creu cyfleoedd i dir gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a gwella isadeiledd a defnydd tir presennol sy'n cefnogi datblygiad economaidd i ffynnu.

Mae hyn yn elwa pob math o bobl yn sylweddol gan ei fod yn gwella lles economaidd Conwy ac yn cynhyrchu lefelau uwch o gyfleoedd cyflogaeth.

## Crynodeb Priodas a Phartneriaethau Sifil:

Felly bydd polisïau defnydd tir strategol sydd wedi'u hanelu at ddatblygiad economaidd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bob math o bobl ac felly bydd yn fanteisiol o bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon, yn arbennig y rhai sydd wedi

profi llai o lwyddiant o ran sicrhau cyflogaeth o’u dewis, a all wreiddio o faterion gwahaniaethu.

## 3. Grwpiau Cynhwysiant

Dylai’r gwasanaethau rydym ni’n eu comisiynu fod ar gael i bawb a bod mor gynhwysol â phosibl. Dylai eich cynnig hefyd roi ystyriaeth i unrhyw grwpiau eraill yn y boblogaeth sydd wedi’u heithrio’n gymdeithasol (neu mewn perygl o fod). Gall hyn gynnwys gofalwyr, pobl sy’n ddigartref, rhai sy’n ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gweithwyr rhyw a llawer o grwpiau eraill sydd wedi’u gwthio at gyrion cymdeithas.

Meddyliwch pa grwpiau cynhwysiant eraill allai gael eu heffeithio can eich cynnig. Dewiswch o’r ddewislen ym mhob adran isod neu nodi pa grwpiau eraill sydd wedi’u heithrio’n gymdeithasol yr ydych chi’n eu hystyried. Dewiswch y tabl a chlicio’r symbol ‘+’ glas ar waelod ochr dde’r tabl i ychwanegu mwy o adrannau os oes angen.

# 4. Cydymffurfio â Dyletswyddau Cyfreithiol

**A yw'r sefydliad wedi rhoi sylw dyledus ac ystyriaeth i'r meysydd canlynol?**

### Cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon **YDY ☑ / NAC YDY ☐**

Gwahaniaethu anghyfreithlon yw trin pobl yn 'llai ffafriol' gan fod ganddynt nodwedd warchodedig.

### Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt. **YDI☑ / NAC YDI☐**

Mae hyn yn golygu sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gallu manteisio ar gyfleoedd ac adnoddau'n gyfartal.

### Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt. **YDI☑ / NAC YDI☐**

Mae hyn yn golygu creu amgylchedd cydlynol a chynhwysol i bawb drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth o wahaniaethau.

### A oes unrhyw bryderon o ran Hawliau Dynol? **OES ☐ / NAC OES ☑**

Os ateboch chi '**Oes**', gofynnwch am gyngor gan y Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant i drafod cynnal Asesiad Hawliau Dynol penodol

### Darparwch adroddiad ategol i gefnogi eich atebion i'r cwestiynau uchod: **Rhaid llenwi'r rhan hon**

**Mae hwn yn asesiad o bolisïau Datblygu Economaidd y CDLlN sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth cydraddoldeb.**

**Mae'r asesiad wedi ystyried perthnasoedd y polisïau cynllunio strategol**

**arfaethedig ar y gwahanol nodweddion gwarchodedig drwy ystyried yn ofalus sut y bydd yn cael effaith ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae'r polisïau hyn yn ymwneud â chynorthwyo datblygiad economaidd Conwy. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar nodweddion gwarchodedig gan y bydd yn cynorthwyo i greu mwy o gyfleoedd cyflogaeth a all gyfrannu tuag at leihau anfantais cyflogaeth ar gyfer grwpiau penodol o bobl sydd wedi'u tan-gynrychioli o fewn cyflogaeth.**

# Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

## Templed Cam 2 ar gyfer Gwasanaethau, Polisïau a Swyddogaethau

Teitl y Gwasanaeth / Polisi / Swyddogaeth:

**Strategaeth Tai'r CDLlN**

Dyddiad Cwblhau: 21/05/2025

# 1. Trosolwg o’r Asesiad

## Crynodeb o wybodaeth am y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy’n cael ei asesu:

Mae’r asesiad hwn yn ymwneud â’r adran Strategaeth Tai yn y CDLlN.

Mae Tai yn hanfodol ar gyfer lles unigolion. Mae’n darparu rhywle i rywun orffwys, preswylio yn ogystal â theimlo’n ddiogel. Os nad oes gan bobl fynediad at dai addas a chyfleoedd digonol i gael tai, bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar eu lles a’u cyfleoedd a phrofiadau bywyd. Mae’n hawl dynol sylfaenol ac mae’r hawl i fywyd preifat a theuluol wedi’i nodi yn y Ddeddf Hawliau Dynol a thai yw’r isadeiledd corfforol sy’n galluogi hyn i ddigwydd.

Mae cysylltiad agos hefyd rhwng tai a ffyniant economaidd pobl. Os oes gan bobl gartref addas, mae eu statws economaidd yn tueddu i fod yn well. Dengys ymchwil helaeth fod lefel incwm unigolyn, y math o waith a wnânt, yn ogystal â’u statws cymdeithasol cyffredinol, i gyd yn cael effaith sylweddol ar gydraddoldeb.

Mae’r CDLlN felly’n cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth tai ar draws rhanbarth Conwy. Mae’n siapio ac yn diffinio penderfyniadau cynllunio, ac yn bwynt atgyweirio ar gyfer nifer o faterion cynllunio a datblygu gwahanol mewn perthynas â mathau a nifer y tai sy’n dderbyniol ac a ganiateir, sy’n gallu cael cryn dipyn o effaith ar sawl mater yn ymwneud ag anghydraddoldeb.

**<u>Polisïau Penodol sydd wedi’u cynnwys yn yr Asesiad</u>**

Mae nifer o Bolisïau yn y Strategaeth Tai ac felly mae’r asesiad cwmpasog hwn yn cynnwys pob un o’r Polisïau hynny a aseswyd fel rhai sy’n berthnasol i ddeddfwriaeth Cydraddoldeb fel rhan o un asesiad cwmpasog. Mae’r Polisïau canlynol felly wedi’u cynnwys yn yr asesiad:

**HS/1 Fframwaith tai cynaliadwy**

**HS/2 Cyflawni’r angen o ran tai**

**HS/3 Darpariaeth tai fforddiadwy**

**HS/4 Safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy**

**HS/5 Safleoedd eithriedig tai fforddiadwy**

**HS/6 Dwysedd tai**

**HS/7 Cymysgedd tai**

**HS/8 Safleoedd angen tai lleol**

**HS/12 Llety a rennir**

**HS/13 Cartrefi Gofal a Nyrsio**

**HS/15 Darpariaeth llety ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol**

**HS/16 Llety i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol**

## Beth yw nodau ac amcanion y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy'n cael ei asesu?

Mae darparu'r lefel briodol o dai sy'n diwallu anghenion poblogaeth ardal y cynllun yn fater allweddol ar gyfer nifer o'n cymunedau. Mae diffyg tai fforddiadwy i'w rhentu neu eu prynu yn un o'r heriau mwyaf y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.

Mae hygyrchedd a fforddiadwyedd tai yn ffactor allweddol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ein cymunedau ac er mwyn cyflawni'r strategaeth dwf yn y CDLlN. Mae maint cyfartalog aelwydydd yn ardal y cynllun yn gostwng. Gall newidiadau o ran oedran a strwythur cymdeithasol poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy fygwth lles cymunedau a'r Gymraeg a hyfywedd ysgolion, busnesau, gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Felly, er mwyn sicrhau dyfodol yr ardal, mae'n allweddol bod anghenion y boblogaeth a ragwelir a'r newidiadau o ran aelwydydd yn cael eu diogelu a bod strwythur sy'n fwy cytbwys o ran oedran yn cael ei hyrwyddo drwy ddatblygu tai hygyrch ac sydd wedi'u dylunio'n dda gyda'r meintiau, mathau a deiliadaeth gywir.

# 2. Asesiad o Effaith

Dylai'r adran hon gofnodi unrhyw effeithiau sydd wedi'u dynodi, neu rai posib', ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, grwpiau sy'n profi anghydraddoldeb, a grwpiau eraill sydd mewn perygl o brofi gwaeth canlyniadau. Dylid cofnodi effeithiau cadarnhaol a negyddol ar bob un o'r grwpiau sydd wedi'u diffinio isod lle bo hynny'n berthnasol.

**Meddyliwch am unrhyw rwystrau i fynediad, meysydd o anghydraddoldeb, a sut y gallai gwahanol grwpiau fod wedi'u heffeithio'n anghyfartal gan y cynnig hwn. I'r gwrthwyneb, meddyliwch sut y gallai grwpiau penodol elwa neu weld gwell canlyniadau gwasanaeth o ganlyniad i'r cynnig.**

## Nodweddion Gwarchodedig

| **Oedran**<br>Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn neu'r boblogaeth sydd o oed gweithio. | Effaith gadarnhaol | Effaith negyddol | Effaith niwtral |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

Mae gan adran dai'r CDLlN y potensial i gael effaith sylweddol ar nifer o faterion anghydraddoldeb yn ymwneud ag oedran a thai.

**Materion pwysig yn ymwneud ag anghydraddoldeb - darpariaeth oedran a thai**
Mae tai yn hollbwysig ar draws pob grŵp oedran. Mae'n cael effaith sylweddol ar les ac yn hanfodol ar gyfer bywyd. Mae gwaith ymchwil yn dangos fod materion perthnasol yn ymwneud ag anghydraddoldeb o ran oedran a thai fel a ganlyn:


- Pobl ifanc yn methu â chael mynediad at dai yn sgil y costau uchel sydd ynghlwm â chamu ar yr ysgol dai. Mae'r grŵp dan anfantais sylweddol o ganlyniad.
- Sicrhau tai addas a digonol i bobl hŷn a llai abl, sydd o bosibl angen tai wedi'u haddasu, llety gwarchod a/neu gartrefi gofal.


Mae angen i'r adran dai yn y CDLlN ystyried y materion hyn y ofalus a sicrhau, o fewn yr effaith bosibl sydd ynghlwm â'r CDLlN, y cymerir pob cyfle i alluogi effaith

gadarnhaol ar faterion yn ymwneud â darpariaeth tai ac oedran.

**Demograffeg oedran Conwy**

Dyma'r ddemograffeg sydd i'w gweld yng Nghonwy (ac mae angen eu hystyried o fewn dyluniad polisi'r CDLlN.




Ers cyfrifiad 2011, mae newid amlwg wedi bod wrth i'r grŵp oedran mwyaf newid o'r categori 45–49 i 55–59.

Mae hyn yn dangos bod ‘ymchwydd’ o boblogaeth sy’n heneiddio yng Nghonwy (yn yr un modd â gweddill y DU) sy’n nesáu at y grwpiau oedran hŷn o 65 a throsodd. Mae’n bwysig nodi hyn gan mai’r grwpiau dros 65 oed yw’r rhai lle mae iechyd yn tueddu i ddirywio a materion amddifadedd cymdeithasol a thlodi yn tueddu i gynyddu, gan arwain at gynnydd o ran anghydraddoldeb.  Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar ofal iechyd, gwasanaethau cefnogi llywodraeth leol a’r gwasanaeth iechyd.

O ran tai, bydd hyn yn golygu bod angen ystyried y tai sydd eu hangen ar bobl hŷn a phobl iau yn ofalus ym mholisïau’r CDLlN.


Mae cynnydd yn y boblogaeth hŷn a fydd angen mathau penodol o dai a chludiant o ganlyniad, er enghraifft, mwy o ddibyniaeth ar yr isadeiledd cludiant lleol.

Mae cynnydd hefyd yn y categori oedran 25–34 ac mae’r cynnydd hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae’n amlwg felly fod hon yn boblogaeth o oed ôl-ymddeol sy’n uwch na gweddill Cymru, ac mae Conwy hefyd yn lle mae pobl yn ymddeol iddo.

Mae cyfran uwch o henoed ym mhoblogaeth Conwy hefyd, felly mae mwy o alw am ddarpariaeth cartref gofal a llety gwarchod yn ogystal â chysylltiad â chludiant cyhoeddus a darpariaeth arall o gludiant i rai nad ydynt yn gallu gyrru, er enghraifft, tacsis neu wasanaethau fel deialu a theithio.

O gymharu â gweddill Cymru, mae lefelau llawer is o boblogaeth ar gyfer pob grŵp oedran hyd at 45 oed.  O ran preswylwyr o oed gweithio felly (16–65 oed), mae’r gyfran yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a’r DU.




Mae'r graff hwn eto yn dangos bod yr ymchwydd yn y boblogaeth yn heneiddio'n gyflym a sut mae'r grŵp oedran hwn wedi tyfu ers y cyfrifiad diwethaf. Bydd yn rhaid i'r CDLlN ymateb i hyn o ran y ddarpariaeth tai a fydd yn bodloni'r angen hwn.

Mae demograffeg oedran Conwy'n dangos mai'r grŵp oedran mwyaf yw 50–64 oed, sy'n 22.5% o'r boblogaeth gyfan. Fe gynyddodd hyn o 20.9% o'r boblogaeth i 22.5% o 2020 i 2021 hefyd, felly mae'r grŵp oedran yn tueddu i dyfu o ran cyfran. Fel y nodwyd, pan fydd yr ymchwydd hwn yn y boblogaeth yn heneiddio, bydd materion cydraddoldeb perthnasol i'w hystyried yng Nghonwy ac mae angen i'r CDLlN baratoi ar gyfer hynny yn y drafft cyfredol.

Mae allfudiad o rai 18–24 oed hefyd, sy'n effeithio ar ddemograffeg Conwy, ac mae angen i'r CDLlN ystyried sut y gall tai gyfrannu at liniaru'r allfudo hwn. Er bod ystadegau'n dangos bod poblogaeth y grŵp oedran hwnnw wedi cynyddu, mae'r allfudo'n parhau.

**Papurau cefndir**

Mae'r papurau cefndir a ddefnyddiwyd i siapio'r polisïau penodol o fewn y bennod tai yn y CDLlN yn ystyried y data a'r ystadegau sy'n cynorthwyo â deall y materion cydraddoldeb cymhleth sydd ynghlwm â thai ar gyfer grwpiau oedran arbennig yn ofalus. Gwerthuswyd y materion allweddol canlynol yn ofalus gyda data a thystiolaeth:

- prisiau tai.
- cyflenwad tai fforddiadwy.
- fforddiadwyedd i breswylwyr.
- yr angen am dai fforddiadwy.
- Anghenion tai penodol, gan gynnwys tai hygyrch ac wedi'u haddasu, anghenion aml-genhedlaeth / teuluoedd mawr, anghenion gofal a chymorth, anghenion o ran lleoliad am resymau corfforol neu ddiwylliannol.
- yr effaith ar gymunedau gwledig a lefelau is o fforddiadwyedd tai mewn cymunedau gwledig (effeithiau ar bobl ifanc).
- Cartref gofal, tai gwarchod ac anghenion a darpariaeth gofal ychwanegol (sy'n berthnasol i bobl hŷn).
- Darpariaeth cartrefi gofal mewn cymunedau gwledig - sy'n arbennig o heriol.

**Crynodeb o Faterion Cydraddoldeb perthnasol:**

Mae'n amlwg felly bod angen mynd i'r afael â'r materion cydraddoldeb canlynol yn yr Adran Dai yn y CDLlN:

- Dewisiadau tai, gan gynnwys darpariaeth tai fforddiadwy i'r boblogaeth iau.
- Darpariaeth cartrefi gofal a llety gwarchod ar gyfer pobl hŷn wrth i ymchwydd y boblogaeth heneiddio.
- Tai wedi'u haddasu ar gyfer yr ymchwydd o'r boblogaeth a gafodd eu geni ar ôl yr ail ryfel byd.

**Polisïau Tai CDLlN Penodol**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran dai yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Thai ac Oedran:

**HS/1 Fframwaith tai cynaliadwy**

**HS/2 cyflawni'r angen o ran tai**

Mae polisïau HS/1 a HS/2 yn ymdrin yn benodol â'r ddarpariaeth tai sy'n ofynnol. Maent yn ymdrin yn benodol â darparu tai a fydd yn bodloni'r angen, gan gynnwys cynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy a darparu tai mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at faterion anghydraddoldeb mewn perthynas ag oedran.

**HS/3 darpariaeth tai fforddiadwy/ HS/4 safleoedd fforddiadwy a arweinir gan dai/ HS/5 safleoedd eithriedig tai fforddiadwy**

Mae'r polisïau hyn yn gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer tai fforddiadwy. Mae hyn yn fater anghydraddoldeb ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn gallu naill ai prynu neu rentu tŷ o ganlyniad i'r costau uchel sydd ynghlwm â hynny. Mae hyn wedi arwain at anfantais sylweddol i bobl iau. Mae HS/3 yn ymwneud yn uniongyrchol â thai fforddiadwy, sy'n cael effaith uniongyrchol ar bobl ifanc sy'n wynebu anfantais. Bydd y polisi hwn felly'n cyfrannu tuag at gael effaith gadarnhaol ar faterion yn ymwneud ag anghydraddoldeb oedran mewn perthynas â phobl iau a darpariaeth tai o fewn ardal y Cynllun.

**HS/7 cymysgedd tai**

Mae'r polisi hwn yn ystyried yr angen i sicrhau'r cymysgedd tai cywir i ddemograffeg y boblogaeth yn ofalus. Mae hefyd yn ystyried yr anghenion tai penodol gan gynnwys tai hygyrch y gellir eu haddasu, anghenion gofal a chymorth ac anghenion yn ymwneud â lleoliad. Mae'r polisi hwn yn helpu'r henoed, pobl anabl a phobl iau sydd angen tai i fodloni eu hanghenion.

**HS/8 safleoedd angen tai lleol**

Mae'r polisi hwn yn cyfrannu tuag at bobl ifanc sy'n ceisio tai o fewn y cymunedau y maent wedi cael eu magu ynddynt. Mae hefyd yn cyfrannu tuag at leihau nifer y bobl ifanc sy'n symud allan o Gonwy yn sgil y diffyg tai fforddiadwy.

**HS/12 llety a rennir**

Mae'r polisi hwn yn darparu opsiynau tai rhad er mwyn galluogi pobl ifanc i fyw'n lleol drwy lety a rennir cost isel. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl ifanc yn ogystal â nifer y bobl ifanc sy'n symud allan o'r sir gan nad ydynt yn gallu fforddio byw yno o ganlyniad i brisiau tai a rhent uchel. Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar anghydraddoldeb ar gyfer pobl ifanc.

**HS/13 cartrefi gofal, cartrefi nyrsio, gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod**

Mae'r polisi hwn yn cefnogi datblygiad cartrefi gofal, cartrefi nyrsio, gofal ychwanegol, tai byw â chymorth a thai gwarchod, sy'n cael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn sy'n heneiddio ac angen cymorth a gofal er mwyn gallu byw gweddill eu


bywydau yn y math o lety sy’n bodloni eu hanghenion.  Mae cartrefi gofal hefyd yn berthnasol i bobl ifanc a gaiff eu lleoli y tu allan i’r sir ar hyn o bryd mewn rhai achosion, gan fod diffyg llefydd ar gael yn lleol.   Mae’r bennod Tai’n mynegi’r heriau mewn perthynas â hyn ac yn ymdrin â’r materion pwysig a sensitif hyn yn dda iawn.

**Crynodeb ar Oedran**

Mae’r adran dai yn y CLDlN yn ymdrin â phob un o’r nodweddion gwarchodedig perthnasol yn dda iawn ac felly mae’r effaith gyffredinol yn gadarnhaol o ganlyniad i gyflwyno’r polisïau hyn yn CDLlN diwygiedig.   Mae cyflwyno’r polisi tai amlfeddiannaeth yn arbennig o sylweddol ar gyfer mynd i’r afael â’r anghydraddoldeb o ran y ddarpariaeth tai i bobl ifanc.

| **Anabledd**<br>Gallai’r grwpiau sy’n cael eu heffeithio gynnwys pobl sydd ag anableddau corfforol / dysgu, cyflyrau hirdymor, neu iechyd meddwl gwael | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

Mae gan yr adran dai yn y CDLlN y potensial i gael effaith sylweddol ar bobl anabl.





Mae 22% o’r boblogaeth sy’n anabl, sy’n cyd-fynd â’r lefelau ar hyd a lled Cymru. Gan hynny, gallai 22% o’r boblogaeth fod angen gwahanol fathau o dai.

| **Problemau iechyd hirdymor neu anableddau yn Sir Conwy** | **Unigolion (Nifer)** | **Unigolion (%)** |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Cyfyngu’n helaeth ar weithgareddau dydd i ddydd | 11,920 | 10.4 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Cyfyngu ychydig ar weithgareddau dydd i ddydd | 14,024 | 12.2 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor ond heb gyfyngu ar weithgareddau dydd i ddydd | 7,673 | 6.7 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Dim cyflyrau iechyd corfforol na meddyliol hirdymor | 81,124 | 70.7 |

Roedd 22.6% o bobl yng Nghonwy wedi nodi eu bod yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghyfrifiad 2021. Mae hyn yn gyfystyr â 33,617 o bobl a mwy nag 1 o bob 5 o bobl yn anabl.  Mae angen ystyried hyn yn ofalus wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus ac mae angen i’r CDLlN ystyried yr ystadegyn yma’n ofalus.

O’r rhai sy’n eu cyfrif eu hunain yn anabl, nododd 11,920 fod eu gweithgareddau dydd i ddydd wedi’u cyfyngu’n helaeth – mae hyn yn 10% o bobl yn ystyried eu hunain yn anabl lle bo’u gweithgareddau wedi’u cyfyngu’n helaeth.




Yn 2021, roedd 9.2% o breswylwyr Conwy wedi nodi eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu'n helaeth. Roedd y ffigwr wedi gostwng o 10.4% yn 2011. Roedd y gostyngiad yng nghyfran y preswylwyr a nododd eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu'n helaeth yn fwy yng Ngwynedd (1.7 pwynt canran) nag yng Nghonwy (1.2 pwynt canran). Yng Ngwynedd, gostyngodd y gyfran o 9.4% yn 2011 i 7.7% yn 2021.

Yn 2021, roedd ychydig mwy nag un o bob naw o bobl (11.3%) yn anabl ac wedi'u cyfyngu ychydig, o gymharu â 10.8% yn 2011.

**Papurau cefndir**

Mae'r papurau cefndir a ddefnyddiwyd i siapio'r polisïau penodol o fewn pennod tai'r CDLlN yn cynnwys rhywfaint o ddata a thystiolaeth sy'n berthnasol i anghydraddoldeb tai pobl anabl. Mae'r data a'r dystiolaeth ganlynol wedi'i chynnwys o fewn yr ymchwil gefndirol:

- prisiau tai.
- cyflenwad tai fforddiadwy
- fforddiadwyedd i breswylwyr
- Anghenion tai penodol, gan gynnwys tai hygyrch ac wedi'u haddasu, anghenion gofal a chymorth, anghenion o ran lleoliad am resymau corfforol neu ddiwylliannol

- effaith cymunedau gwledig a lefelau is o fforddiadwyedd tai mewn cymunedau gwledig (effaith ar bobl anabl)
- Darpariaeth byw â chymorth a chartrefi gofal (sy'n berthnasol i bobl anabl)
- Darpariaeth cartrefi gofal mewn cymunedau gwledig - sy'n arbennig o heriol.

**Materion pwysig yn ymwneud ag anghydraddoldeb - darpariaeth anabl**

Mae tai yn hollbwysig ar draws pob grŵp oedran. Mae gwaith ymchwil yn dangos fod materion anghydraddoldeb perthnasol sy'n ymwneud â:

- Pobl anabl a'r ddarpariaeth tai wedi'u haddasu a llety byw â chymorth
- Gallu pobl ifanc anabl i fforddio tai ynghyd â'r angen i hynny fod yn fforddiadwy

Mae pobl anabl yn wynebu anfantais sylweddol yn sgil diffyg tai fforddiadwy. Os na chaiff tai eu haddasu ar gyfer pobl anabl, yna ni allant fyw ynddynt. Mae gofynion Rhan M ar gyfer rheoliadau adeiladu'n gwneud darpariaeth sylweddol ar gyfer datblygiadau newydd y gellir eu haddasu, gan amlinellu gofynion megis lled drysau a rampiau ym mynedfeydd yr adeiladau. Mae angen rhagor o waith fodd bynnag i bontio'r bwlch rhwng anghenion pobl anabl a lefel y tai wedi'u haddasu. Mae'r adran dai yn y CDLlN yn cynnwys polisi ar gymysgedd tai, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu eiddo wedi'u haddasu a hygyrch fel rhan o ddatblygiadau preswyl, sy'n bodloni'r anghenion a nodir yn lleol yn yr ardal honno.

Mae'r ystadegau uchod yn nodi'n glir fod poblogaeth Conwy'n cynnwys nifer uchel o breswylwyr ag anableddau a/neu salwch hirdymor cyfyngol. Mae gan y CDLlN y potensial i ddarparu cyflenwad parhaus o eiddo priodol wedi'u haddasu i fodloni'r anghenion hynny a nodwyd yn ei bolisïau, gan gynnwys y cymysgedd o dai a pholisïau byw â chymorth.

**Crynodeb ar Anabledd**

Mae'r adran dai yn y CDLlN yn ymdrin ag anghenion tai'r bobl leol sydd ag anghenion tai penodol o ganlyniad i'w hanabledd, gan gynnwys eiddo hygyrch, wedi'u haddasu, a chynlluniau byw â chymorth.

| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys dynion hoyw / deurywiol, merched lesbiaidd / deurywiol, neu bobl heterorywiol | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan yr adran dai yn y CDLlN unrhyw berthnasedd penodol i gyfeiriadedd rhywiol ac felly mae'r effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir yn niwtral.

| **Ailbennu Rhywedd**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n bwriadu mynd, wrthi'n mynd neu wedi mynd drwy broses ailbennu rhywedd. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan y bennod tai yn y CDLlN unrhyw berthnasedd penodol i gyfeiriadedd rhywiol ac felly mae'r effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir yn niwtral.

| **Rhyw (Rhywedd)**<br>Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys rhai gwryw neu fenyw – neu grwpiau rhyweddol penodol fel bechgyn neu ferched. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |


Nid oes gan y bennod tai yn y CDLlN unrhyw berthnasedd penodol i gyfeiriadedd rhywiol ac felly mae'r effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir yn niwtral.

| **Hil**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys rhai o wahanol ethnigrwydd, cenedligrwydd, hunaniaethau cenedlaethol a lliw croen. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

Er bod y boblogaeth o leiafrifoedd ethnig yn fechan, mae'r adran Tai o fewn y CDLlN yn dal i allu cael effeithiau arwyddocaol ar grwpiau sy'n lleiafrifoedd ethnig ac felly

mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r hyn sydd o fewn yr adran a'r hyn sydd heb ei gynnwys ynddi.

Dyma'r wybodaeth ddemograffig am Hil sydd i'w gweld ar gyfer ardal Conwy.




### Ethnigrwydd yng Nghonwy

| Ethnigrwydd yn Sir Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,743 | 100.0 |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 1,651 | 1.4 |
| Du / Du Cymreig / Du Prydeinig / Caribïaidd / Affricanaidd | 271 | 0.2 |
| Grwpiau ethnig cymysg neu luosog | 1,254 | 1.1 |
| Gwyn | 111,176 | 96.9 |
| Grwpiau ethnig eraill | 391 | 0.3 |

Y grŵp ethnig mwyaf yw Gwyn sy'n cyfrif am 96.9% o'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd.


Roedd 1.4% o drigolion Conwy wedi nodi mai eu grŵp ethnig oedd "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig". Mae hyn wedi cynyddu o 1.1% ers 2011 a fyddai'n awgrymu bod cymuned Asiaidd yn tyfu yng Nghonwy. Y cynnydd hwn oedd y cynnydd mwyaf ymysg grwpiau ethnig lefel uchel yn ardal Conwy. Wrth gymharu hyn ar draws Cymru, mae canran y bobl o grŵp ethnig "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig" wedi cynyddu o 2.3% i 2.9% – cynnydd o 0.6%. Mae'r grŵp Du Caribïaidd neu Affricanaidd yn cynrychioli dim ond 0.2% o'r boblogaeth.

Mae sawl ffactor sy’n gallu cyfrannu at y newid yng nghyfansoddiad ethnig Cymru a Lloegr.  Mae rhai o’r ffactorau hyn yn cynnwys heneiddio, ffrwythlondeb, marwolaeth a mudo.  Wrth i’r categorïau addasu ac wrth i ddiwylliant addasu, gall pobl sy’n llenwi categorïau’r cyfrifiad newid sut maent yn cofnodi eu hethnigrwydd *sydd hefyd yn gallu effeithio ar y canlyniadau*.

Fodd bynnag, mae poblogaeth lleiafrif ethnig Conwy’n isel iawn ar y cyfan. Mae’r CDLlN yn berthnasol i’r nodwedd warchodedig hon gan fod mynediad at dai diogel ac addas yn angen sylfaenol i bob aelwyd felly mae hyn angen bod yn ystyriaeth yn y CDLlN.

Caiff Sipsiwn a Theithwyr yn benodol eu heffeithio gan y Ddarpariaeth Tai gan fod ganddynt fath penodol o ofyniad darpariaeth tai sy’n ymwneud â byw mewn cymuned o natur arbennig sy’n bodloni anghenion eu hethnigrwydd.   Sonnir am hyn mewn adran ar wahân o’r Asesiad o Effaith (gweler isod).

O gyfanswm poblogaeth o 114,743, mae 1,651 o bobl Asiaidd, a 1,254 o bobl o grwpiau ethnig cymysg neu luosog.




**<u>Materion pwysig yn ymwneud ag Anghydraddoldeb - darpariaeth Hil a Thai</u>**

- Mae proffiliau demograffig yn dangos fod grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn tueddu i gael tai o ansawdd is ac mae hyn yn fater anghydraddoldeb perthnasol y mae

angen mynd i'r afael â hi.  Mae angen ystyried hyn yn ofalus wrth siapio'r ddarpariaeth tai ar draws Conwy drwy'r CDLlN yn ofalus.

- Mae proffilio demograffig hefyd yn dangos fod nifer is o bobl mewn grwpiau lleiafrif ethnig yn berchen ar gar a hefyd mae nifer uwch o ferched mewn grwpiau ethnig arbennig nad ydynt yn gyrru.   Golyga hyn fod ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig angen tai sydd â mynediad rhwydd at gludiant cyhoeddus gan eu bod yn fwy dibynnol arno.

**<u>Papurau cefndir</u>**

Mae'r papurau cefndir a ddefnyddiwyd i siapio'r polisïau penodol wedi ystyried ystadegau sy'n cynorthwyo â deall y materion cydraddoldeb cymhleth sydd ynghlwm â thai ar gyfer grwpiau oedran arbennig yn ofalus.   Gwerthuswyd y materion allweddol canlynol yn ofalus gyda data a thystiolaeth:

- prisiau tai,
- cyflenwad tai fforddiadwy,
- fforddiadwyedd i breswylwyr
- anghenion tai arbennig, gan gynnwys aelwydydd aml-genhedlaeth a theuluoedd mwy ac anghenion yn ymwneud â lleoliad am resymau diwylliannol.
- effaith cymunedau gwledig a lefelau is o fforddiadwyedd tai mewn cymunedau gwledig.
- darpariaeth cartrefi gofal mewn cymunedau gwledig - sy'n heriol.

Mae pob un o'r ffactorau hyn yn ymwneud yn benodol â phoblogaethau lleiafrifol ac felly mae'r data a'r dystiolaeth a ddefnyddir i lywio'r datblygiad polisi wedi'u halinio'n dda â bodloni anghenion grwpiau o leiafrifoedd ethnig.

**<u>Polisïau Tai CDLlN Penodol</u>**

Roedd y polisïau canlynol o fewn adran dai'r CDLlN yn mynd i'r afael â hyn yn benodol:

**HS/1 Fframwaith tai cynaliadwy**

**HS/2 cyflawni'r angen o ran tai**

Mae polisïau HS/1 a HS/2 yn ymdrin yn benodol â'r ddarpariaeth tai gofynnol. Maent yn ymdrin â darparu tai a fydd yn bodloni'r angen, gan gynnwys cynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy a darparu tai mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at faterion anghydraddoldeb yn ymwneud â Hil. Mae tai fforddiadwy yn benodol yn berthnasol i grwpiau ethnig penodol sy'n tueddu i fod ar lefel economaidd-gymdeithasol is, ac felly mae'r polisïau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyn.

**HS/3 darpariaeth tai fforddiadwy/ HS/4 safleoedd fforddiadwy a arweinir gan dai/ HS/5 safleoedd eithriedig tai fforddiadwy**

Mae'r polisïau hyn yn gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer tai fforddiadwy. Mae hyn yn fater anghydraddoldeb perthnasol ar gyfer grwpiau penodol ethnig sy'n tueddu i fod mewn grwpiau cymdeithasol-economaidd is, sy'n ei gwneud yn anodd iddynt gamu ar yr ysgol dai neu sicrhau llety addas sy'n bodloni anghenion sylfaenol. Mae polisïau tai fforddiadwy'n helpu i gynhyrchu cyflenwad uwch o dai fforddiadwy sydd felly'n gwneud tai'n fwy hygyrch i bobl ar incwm is.

**HS/7 cymysgedd tai**

Mae'r polisi hwn yn ystyried yr angen i sicrhau'r cymysgedd tai cywir i ddemograffeg y boblogaeth. Mae'r polisi hwn yn helpu'r henoed, pobl anabl a phobl iau sydd angen tai fforddiadwy, yn ogystal â grwpiau lleiafrif ethnig sydd o bosibl angen cyflenwad tai fforddiadwy gan eu bod mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Mae anghenion tai penodol hefyd wedi'u cwmpasu, gan gynnwys anghenion yn ymwneud â lleoliad am resymau diwylliannol.

**HS/12 llety a rennir**

Mae'r polisi hwn yn darparu opsiynau tai cost is i grwpiau ethnig penodol er mwyn gallu byw'n lleol drwy lety a rannir cost isel, oherwydd yn ystadegol, mae nifer o grwpiau ethnig sydd â chyfran uwch o bobl ar incwm is, er enghraifft, y gymuned Fangladeshaidd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar grwpiau hil

penodol nad ydynt yn gallu fforddio byw yng Nghonwy yn sgil prisiau tai a rhent uchel. Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar anghydraddoldeb ar gyfer pobl ifanc.

**Crynodeb ar Hil**

Bydd yr adran dai yn y CDLlN yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at nodwedd warchodedig hil, ac felly mae'r effaith yn gadarnhaol o ganlyniad i gyflwyno'r polisïau hyn yn y CDLlN diwygiedig.

| **Crefydd a Chred**<br>Gall y grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys yr holl grwpiau ffydd cydnabyddedig a rhai nad ydynt yn dilyn unrhyw grefydd na system gred | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan y bennod tai yn y CDLlN unrhyw berthnasedd penodol i Grefydd a chredoau ac felly mae'r effaith ar y nodwedd warchodedig hon yn niwtral.

| **Beichiogrwydd a Mamolaeth**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys merched beichiog, pobl ar absenoldeb mamolaeth a rhai sy'n gofalu am fabi newydd / plentyn ifanc. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan y bennod tai yn y CDLlN unrhyw berthnasedd penodol i feichiogrwydd a mamolaeth ac felly mae'r effaith ar y nodwedd warchodedig hon yn niwtral.

| **Priodas a Phartneriaeth Sifil**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sydd mewn partneriaeth gyfreithiol ffurfiol – o'r un rhyw a'r rhyw arall | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan y bennod tai yn y CDLlN unrhyw berthnasedd penodol i Briodas a phartneriaeth sifil ac felly mae'r effaith ar y nodwedd warchodedig hon yn niwtral.

# 3. Grwpiau Cynhwysiant

Dylai'r gwasanaethau rydym ni'n eu comisiynu fod ar gael i bawb a bod mor gynhwysol â phosib'. Dylai eich cynnig hefyd roi ystyriaeth i unrhyw grwpiau eraill yn y boblogaeth sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol (neu mewn perygl o fod). Gall hyn gynnwys gofalwyr, pobl sy'n ddigartref, rhai sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gweithwyr rhyw a llawer o grwpiau eraill sydd wedi'u gwthio at gyrion cymdeithas.

Meddyliwch pa grwpiau cynhwysiant eraill allai gael eu heffeithio can eich cynnig. Dewiswch o'r ddewislen ym mhob adran isod neu nodi pa grwpiau eraill sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol yr ydych chi'n eu hystyried. Dewiswch y tabl a chlicio'r symbol '+' glas ar waelod ochr dde'r tabl i ychwanegu mwy o adrannau os oes angen.

| **Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr** | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

Mae papurau cefndir penodol sy'n darparu'r mewnbwn, ac mae'r CDLlN yn gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr o fewn y polisïau felly mae'r effaith ar y grŵp hwn yn gadarnhaol, gyda 2 bolisi penodol o fewn y CDLlN fel a ganlyn:

**Polisi HS/14 Llety i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol**
**Polisi HS/15 - Darpariaeth llety ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol**

Mae Polisi HS/15 yn amlinellu safle penodol ar gyfer teithwyr Sipsi yn seiliedig ar asesiad o anghenion yn ymwneud â nifer y Teithwyr Sipsi sydd angen llety. Roedd hyn yn seiliedig ar asesiad a gynhaliwyd er mwyn sefydlu'r ddarpariaeth angenrheidiol.

Mae'r polisi hwn yn bodloni'r ddarpariaeth ofynnol ar gyfer Teithwyr Sipsi yn rhanbarth Conwy ac felly mae'r effaith yn gadarnhaol.

Mae darparu safle(oedd) ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr yn ofyniad i Awdurdodau Cynllunio Lleol, pan fo'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn dangos fod yna angen.

Mae Sipsiwn a Theithwyr yn dioddef sawl math o anghydraddoldeb, wedi'i wreiddio mewn diffyg llety priodol ynghyd â hiliaeth agored tuag at y gymuned. Mae'r polisi'n amlinellu'r ddarpariaeth gyfredol yn ogystal â'r galw cyfredol. Mae'r polisi felly'n nodi'r angen cyfredol a'r angen a ragwelir yn benodol, ac fe'i lluniwyd i ymateb yn gyson i'r angen hwnnw. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned hon.

# 4. Cydymffurfio â Dyletswyddau Cyfreithiol

**A yw'r sefydliad wedi rhoi sylw dyledus ac ystyriaeth i'r meysydd canlynol?**

### Cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon **YDI ☑ / NAC YDI ☐**

Gwahaniaethu anghyfreithlon yw trin pobl yn 'llai ffafriol' gan fod ganddynt nodwedd warchodedig.

### Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt. **YDI ☑ / NAC YDI ☐**

Mae hyn yn golygu sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gallu manteisio ar gyfleoedd ac adnoddau'n gyfartal.

Fodd bynnag, mae nodyn cynghori y dylai'r Bennod Tai yn y CDLlN ystyried cyfeirio'n benodol at anghenion tai pobl anabl ac yna amlinellu sut fydd y CDLlN yn cyfrannu tuag at fodloni anghenion pobl anabl yn well - yn arbennig drwy ddarparu tai wedi'u haddasu.

### Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt. **YDI ☑ / NAC YDI ☐**

Mae hyn yn golygu creu amgylchedd cydlynol a chynhwysol i bawb drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth o wahaniaethau.

### A oes unrhyw bryderon o ran Hawliau Dynol? **OES ☑ / NAC OES ☐**

Os ateboch chi '**Oes**', gofynnwch am gyngor gan y Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant i drafod cynnal Asesiad Hawliau Dynol penodol

### Darparwch adroddiad ategol i gefnogi eich atebion i'r cwestiynau uchod: **Rhaid llenwi'r rhan hon**

Mae'r asesiad hwn yn ymwneud â'r Bennod Tai yn y CDLlN sy'n cynnwys nifer o bolisïau sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth yn ymwneud â Chydraddoldeb. Mae'r asesiad yn ystyried tai, rôl y CDLlN yn hyn, a'r polisïau penodol sydd yn y Bennod Tai ac mae'r effaith gyffredinol ar y nodweddion gwarchodedig gwahanol hefyd wedi cael eu hystyried.

Mae'r asesiad wedi ystyried perthnasedd y polisi cynllunio strategol arfaethedig o ran y gwahanol nodweddion gwarchodedig drwy ystyried pob un o'r polisïau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y bennod hon yn ofalus. I grynhoi felly, wrth ystyried pob un o'r agweddau hyn, ni fydd y bennod na'r polisïau oddi mewn iddo'n cael effaith niweidiol ar y tair agwedd o'r ddyletswydd gyffredinol, ac nid oes unrhyw faterion hawliau dynol yn berthnasol.

# Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

## Templed Cam 2 ar gyfer Gwasanaethau, Polisïau a Swyddogaethau

Teitl y Gwasanaeth / Polisi / Swyddogaeth:

**Creu Lleoedd**

Dyddiad Cwblhau: 13/05/2025

# 1. Trosolwg o'r Asesiad

### Crynodeb o wybodaeth am y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy'n cael ei asesu:

Mae'r asesiad hwn yn ymwneud â'r adran Creu Lleoedd yn y CDLlN.

Mae'r adran Creu Lleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn canolbwyntio ar greu lleoedd cynaliadwy, bywiog, o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion a dyheadau'r gymuned leol.

Mae'n pwysleisio ar ymgysylltu a chydweithio â'r gymuned yn y broses gynllunio i sicrhau bod datblygiadau newydd a mannau cyhoeddus yn gwella ansawdd bywyd trigolion.

Mae creu lleoedd yn fwy na dim ond defnydd tir a pharthau - mae'n canolbwyntio ar sut mae lleoedd yn teimlo ac yn gweithio i'r bobl sy'n byw, yn gweithio a threulio amser yno. Felly, mae'n fwy na dim ond datblygiad ffisegol; mae'n ymwneud â meithrin cymunedau sy'n gynaliadwy, yn gynhwysol ac yn adlewyrchu cymeriad ac angen lleol.

Drwy bolisïau strategol ac ymgysylltu â'r gymuned, nod Conwy yw creu lleoedd sy'n gwella ansawdd bywyd ei holl drigolion.

Mae'r adran Creu Lleoedd yn y CDLlN yn:

- **Canolbwyntio ar bobl:** Mae Creu Lleoedd yn blaenoriaethu anghenion a dymuniadau'r gymuned wrth gynllunio a dylunio lleoedd.
- **Cydweithio:** Mae'n cynnwys ystod eang o fudd-ddeiliaid, yn cynnwys preswylwyr, grwpiau cymunedol, busnesau ac awdurdodau lleol.
- **Cyfannol:** Mae'n ystyried cyd-destun cyfan lle, yn cynnwys ei amgylchedd ffisegol, deinameg gymdeithasol a chyfleoedd economaidd.
- **Cynaliadwy:** Ei nod yw creu lleoedd sy'n gyfrifol yn amgylcheddol, yn deg yn gymdeithasol ac yn hyfyw yn economaidd.
- **Deinamig:** Mae'n broses barhaus o wella ac addasu wrth i gymunedau esblygu.

**Buddion Creu Lleoedd mewn CDLlN:**

- **Gwell Ansawdd Bywyd:** Gall Creu Lleoedd arwain at leoedd cyhoeddus mwy pleserus a difyr, mynediad gwell at amwynderau a mwy o synnwyr o berthyn.
- **Buddion Economaidd:** Gall lleoedd bywiog a deniadol ddenu buddsoddiad, twristiaeth a busnesau newydd.
- **Buddion Cymdeithasol:** Gall Creu Lleoedd hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol, cryfhau cysylltiadau cymunedol a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol.
- **Buddion Amgylcheddol:** Gall Creu Lleoedd cynaliadwy arwain at lai o allyriadau carbon, ansawdd aer gwell a mwy o fioamrywiaeth.

Yn ei hanfod, mae'r adran creu lleoedd yn y CDLlN yn fframwaith ar gyfer creu lleoedd sy'n fwy nag ardaloedd adeiledig yn unig, maent yn gymunedau bywiog, cynhwysol a ffyniannus.

**Polisïau Penodol sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad**
**Mae nifer o Bolisïau ym mhennod Creu Lleoedd y CDLlN ac felly mae'r asesiad cwmpasog hwn yn cynnwys pob un o'r Polisïau hynny a aseswyd fel rhai sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth Cydraddoldeb fel rhan o un asesiad cwmpasog.**

Mae'r Polisïau canlynol felly wedi'u cynnwys yn yr asesiad:

**PL/1 Creu Lleoedd Cynaliadwy**

**PL/2 Strategaeth tai cynaliadwy**

**PL/3 Strategaeth economaidd gynaliadwy**

**PL/4 Dosbarthiad Twf a Hierarchaeth Aneddiadau**

**PL/5 Creu Lleoedd a Dylunio Da**

**PL/6 Hybu Lleoedd Iachach**

**PL/9 Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig**

**PL/11 Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro**

**PL/12 Datblygiad, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio newydd**

**PL/13 Datblygiad newydd a hyfywedd**

**PL/16 Creu Lleoedd a Safleoedd**

**PL/17 safle 157, safle tai ac addysg defnydd cymysg Llanfairfechan**

**PL/18 safle 91, safle tai Deganwy/Llanrhos**

**PL/19 safle 68, safle tai Fferm Peulwys, Hen Golwyn**

**PL/20 safle 56, safle tai ar dir ger yr A470, Llanrwst**

**PL/21 safle 203, safle tai Queens Road, Llandudno**

**PL/22 safle 115, safle cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy Chwarel Llanddulas**

**PL/23 safle 103, safle cyflogaeth Bryniau, Llandudno**

**PL/24 safle 206, safle tai Nant y Coed, Cyffordd Llandudno**

**PL/25 safle 132, safle tai cyn swyddfeydd y Llywodraeth, Dinerth Road, Llandrillo yn Rhos**

## Beth yw nodau ac amcanion y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy'n cael ei asesu?

**Agweddau Allweddol Creu Lleoedd mewn Cynllun Datblygu Lleol:**

- **Dyluniad ac Ansawdd Lle:**
  - Pwysleisio dyluniad trefol da.
  - Annog datblygiadau sy'n ymateb i gymeriad, treftadaeth a thirlun lleol.
  - Ei nod yw creu amgylcheddau deniadol, diogel a hygyrch.
- **Cymunedau Hyfyw, Defnydd Cymysg:**
  - Cefnogi creu cymdogaethau amrywiol, defnydd cymysg.
  - Hyrwyddo agosrwydd at swyddi, siopau, gwasanaethau a mannau gwyrdd.
- **Lleoedd Cynaliadwy, wedi'u Cysylltu:**
  - Annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus.
  - Hyrwyddo gwytnwch yr hinsawdd ac isadeiledd carbon isel.
- **Mannau Cyhoeddus ac Isadeiledd Gwyrdd:**
  - Cynlluniau ar gyfer parciau, sgwariau cyhoeddus a choridorau gwyrdd.
  - Mae'n ystyried bod bioamrywiaeth ac asedau naturiol yn allweddol i les.
- **Cyfranogiad Cymunedol:**
  - Mae'n adlewyrchu mewnbwn a dyheadau pobl leol.
  - Yn gysylltiedig yn aml a dyluniad wedi'i arwain gan y gymuned neu ymgysylltu'n seiliedig ar le.
- **Hunaniaeth a Gwahanolrwydd:**
  - Ceisio amddiffyn a gwella rhinweddau unigryw ardaloedd gwahanol.
  - Hyrwyddo datblygiad sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at hunaniaeth lle.

# 2. Asesiad o Effaith

Dylai'r adran hon gofnodi unrhyw effeithiau sydd wedi'u dynodi, neu rai posibl, ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, grwpiau sy'n profi anghydraddoldeb, a grwpiau eraill sydd mewn perygl o brofi gwaeth canlyniadau. Dylid cofnodi effeithiau cadarnhaol a negyddol ar bob un o'r grwpiau sydd wedi'u diffinio isod lle bo hynny'n berthnasol.

**Meddyliwch am unrhyw rwystrau i fynediad, meysydd o anghydraddoldeb, a sut y gallai gwahanol grwpiau fod wedi'u heffeithio'n anghyfartal gan y cynnig hwn. I'r gwrthwyneb, meddyliwch sut y gallai grwpiau penodol elwa neu weld gwell canlyniadau gwasanaeth o ganlyniad i'r cynnig.**

## Nodweddion Gwarchodedig

| **Oedran**<br>Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn neu'r boblogaeth sydd o oed gweithio. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

Mae'r adran Creu Lleoedd yn canolbwyntio ar greu lleoedd cynaliadwy, bywiog, o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion a dyheadau'r gymuned leol.


Mae'n darparu fframwaith ar gyfer creu lleoedd sy'n fwy nag ardaloedd adeiledig yn unig, maent yn gymunedau bywiog, cynhwysol a ffyniannus. Mae hyn yn golygu bod y potensial iddo effeithio ar faterion sy'n ymwneud â'r nodwedd warchodedig Oedran yn sylweddol.


**Materion pwysig anghydraddoldeb - Oedran a Chreu Lleoedd**

Mae creu lleoedd yn mynd yn bell iawn i greu lleoedd cynaliadwy, o ansawdd uchel, ac mae llawer o faterion cynllunio ynghlwm â hynny, sy'n effeithio ar sut mae'r isadeiledd adeiledig yn datblygu. Mae angen i'r adran creu lleoedd yn y CDLlN ystyried y materion hyn y ofalus a sicrhau, o fewn yr effaith bosibl sydd ynghlwm â'r CDLlN, y cymerir pob cyfle i alluogi effaith gadarnhaol ar faterion yn ymwneud â darpariaeth tai ac oedran.

**Demograffeg oedran Conwy**

Dyma’r ddemograffeg sydd i’w gweld yng Nghonwy (ac sydd angen eu hystyried o fewn dyluniad polisi’r CDLlN).




Ers cyfrifiad 2011, mae newid amlwg wedi bod wrth i’r grŵp oedran mwyaf newid o’r categori 45–49 i 55–59.

Mae hyn yn dangos bod ‘ymchwydd’ o boblogaeth sy’n heneiddio yng Nghonwy (yn yr un modd â gweddill y DU) sy’n nesáu at y grwpiau oedran hŷn o 65 a hŷn. Mae’n bwysig nodi hyn gan mai’r grwpiau dros 65 oed yw’r rhai lle mae iechyd yn tueddu i ddirywio a materion amddifadedd cymdeithasol a thlodi yn tueddu i gynyddu, gan arwain at gynnydd o ran anghydraddoldeb. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar ofal iechyd, gwasanaethau cefnogi llywodraeth leol a’r gwasanaeth iechyd.

O ran creu lleoedd, mae hyn yn golygu y bydd angen i bolisïau'r CDLlN ystyried hyn yn ofalus mewn perthynas â materion sy’n ymwneud â phobl hŷn a phobl iau.


Mae cynnydd yn y boblogaeth hŷn fydd angen mathau penodol o ystyriaethau creu lleoedd, er enghraifft, ystyried yr isadeiledd cludiant yn ofalus a sut mae hyn y datblygu ac yn gwella.

Mae cynnydd hefyd yn y categori oedran 25–34 ac mae’r cynnydd hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae’n amlwg felly fod hon yn boblogaeth o oed ôl-ymddeol sy’n uwch na gweddill Cymru, ac mae Conwy yn lle mae pobl yn ymddeol iddo.

Mae cyfran uwch o henoed ym mhoblogaeth Conwy hefyd, felly mae mwy o alw am gludiant cyhoeddus a darpariaeth arall o gludiant i rai nad ydynt yn gallu gyrru, er enghraifft, tacsis neu wasanaethau fel deialu a theithio.

O gymharu â gweddill Cymru, mae lefelau llawer is o boblogaeth ar gyfer pob grŵp oedran hyd at 45 oed.  O ran preswylwyr o oed gweithio felly (16–65 oed), mae’r gyfran yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a’r DU.




Mae'r graff hwn eto yn dangos bod yr ymchwydd yn y boblogaeth yn heneiddio'n gyflym ac fel mae'r grŵp oedran hwn wedi tyfu ers y cyfrifiad diwethaf.  Bydd yn rhaid i'r CDLlN ymateb i hyn o ran y ddarpariaeth cludiant a fydd yn bodloni'r angen hwn.

Mae demograffeg oedran Conwy yn dangos mai'r grŵp oedran mwyaf yw 50–64 oed, sy'n 22.5% o'r boblogaeth gyfan.  Fe gynyddodd hyn o 20.9% o'r boblogaeth i 22.5% o 2020 i 2021 hefyd, felly mae'r grŵp oedran yn tueddu i dyfu o ran cyfran. Fel y nodwyd, pan fydd yr ymchwydd hwn yn y boblogaeth yn heneiddio, bydd materion cydraddoldeb amlwg i'w hystyried yng Nghonwy ac mae angen i'r CDLlN baratoi ar gyfer hynny yn y drafft cyfredol.

Mae allfudiad o rai 18–24 oed hefyd, sy'n effeithio ar ddemograffeg Conwy, ac mae angen i'r CDLlN ystyried sut y gall tai gyfrannu at liniaru'r allfudo hwn.  Er bod ystadegau'n dangos bod poblogaeth y grŵp oedran hwnnw wedi cynyddu, mae'r allfudo'n parhau.

**<u>Crynodeb o Faterion Cydraddoldeb perthnasol:</u>**

Mae'n amlwg felly bod angen mynd i'r afael â'r materion cydraddoldeb canlynol yn yr Adran Creu Lleoedd yn y CDLlN:

- Pobl yn heneiddio a'r anghenion cynyddol sydd ganddynt o'r herwydd.
- Angen cefnogi pobl iau i aros yn y sir, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, a gwella'r cyfleoedd sydd ganddynt o ran cyflogaeth a thai.

**Polisïau Creu Lleoedd Penodol**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Creu Lleoedd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chreu Lleoedd ac Oedran:

## PL/1 Creu Lleoedd Cynaliadwy

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chreu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiad cymdeithasol, a lles cyffredinol gwell yng Nghonwy drwy gyflwyno dulliau creu lleoedd ac adfywio cynhwysol sy'n sicrhau bod lefelau twf a datblygu'n digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch yn y dyfodol. Hefyd, mae'n ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd iachach, gwarchod y Gymraeg ac fe'i cefnogir gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd gwych.

Bydd y polisi hwn yn cael effaith ar bob grŵp oedran, ond yn benodol ar bobl hŷn a phobl iau (ble mae problemau anghydraddoldeb yn tueddu i ddigwydd). Er enghraifft, mae'r polisi hwn yn nodi'r gofyniad strategol bod yn rhaid i bob datblygiad ystyried gwell lles yn ofalus, ac mae ymchwil yn dangos bod materion lles yn tueddu i gael effaith sylweddol ar bobl iau (sy'n fwy diamddiffyn yn emosiynol) a phobl hŷn, sy'n tueddu i brofi arwahanrwydd cymdeithasol ac amddifadedd. Felly, mae potensial i'r polisi hwn gael effaith gadarnhaol sylweddol ar y grwpiau oedran hyn a'u lles.

## PL/2 Strategaeth tai cynaliadwy

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â darogan faint a'r mathau o dai sydd eu hangen ac yna llywio hynny yn ei flaen fel ei fod yn cael ei gyflawni. Mae'n ymwneud â materion megis datblygu digon o dai fforddiadwy, sy'n effeithio ar bobl ifanc sy'n cael trafferth cael tai, gan nad ydynt mor gefnog ar y cyfan ac mae prisiau tai yn ddrud iawn ac yn amhosibl eu prynu i lawer o bobl ifanc ar hyn o bryd. Mae hefyd yn ymdrin â'r angen

am lety i bobl hŷn a phobl anabl ag anghenion gofal.  Felly, bydd y polisi penodol hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl hŷn a phobl iau.

**PL/3 Strategaeth economaidd cynaliadwy**

Mae’r polisi hwn yn ymwneud â datblygu digon o dir ar gyfer datblygu fydd yn creu gwaith i wasanaethu’r boblogaeth sy’n tyfu o’r twf economaidd a ragwelir yn y rhanbarth.

Bydd hyn yn cael effaith ar bob grŵp oedran, ond yn enwedig y boblogaeth iau sy’n gyffredinol yn dioddef mwy oherwydd llai o gyfleoedd gwaith, oherwydd bod ganddynt lai o sgiliau a phrofiad na’r grwpiau oedran hŷn. Mae’r Rhai Nad ydynt mewn Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant yn enghraifft o grŵp sy’n elwa’n sylweddol o’r math hwn o bolisi.

**PL/4 Dosbarthiad Twf a Hierarchaeth Aneddiadau**

Mae’r polisi hwn yn ymwneud yn bennaf â dyrannu hierarchaeth i’r aneddiadau yng Nghonwy o ran maint a chyfluniad.

Mae hyn yn sicrhau bod datblygiad yn briodol yn dibynnu ar gynnwys anheddiad penodol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod datblygiadau’n cael eu rheoli a’u cynllunio ac yn eu hatal rhag datblygu’n amhriodol, er enghraifft, datblygiad tai na ellir ei gynnal gan y gwasanaethau lleol a’r isadeiledd lleol i gefnogi anghenion y rhai sy’n byw yn y datblygiad.

Mae’r polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bob grŵp oedran a bydd yn sicrhau bod aneddiadau'n ystyried anghenion y rhai sy’n byw ynddynt yn ofalus, yn ogystal â chreu datblygiad i gefnogi anghenion y boblogaeth bresennol a’r boblogaeth sy’n tyfu/y twf economaidd posibl a ragwelir ar gyfer y rhanbarth.

**PL/5 Creu Lleoedd a Dylunio Da**

Mae’r polisi hwn yn ymwneud â’r gofyniad am ddyluniad da ac mae’n ystyried materion megis yr angen i bob datblygiad gael ei ddylunio i safon uchel, cynaliadwy

a pharchu cymeriad lleol a natur unigryw amgylchedd adeiledig, hanesyddol a naturiol Conwy. Er enghraifft, mae'r polisi'n trafod materion megis hyrwyddo teithio llesol a datblygiad sy'n annog gweithgareddau awyr agored.

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc yn bod yn fwy actif, sy'n hyrwyddo lles meddyliol gwell, a phobl hŷn yn parhau'n actif sydd hefyd yn lleihau anableddau iechyd meddwl sy'n gallu datblygu wrth i bobl fynd yn hŷn a symud llai. Mae hefyd yn helpu i ddarparu cludiant i bobl iau allu cael mynediad at gyfleoedd gwaith ac addysg bellach.

**PL/6 Hybu Lleoedd Iachach**

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r angen am leoedd iachach ac mae'n nodi nifer o ofynion y mae'n rhaid i ddatblygiadau gadw atynt er mwyn hyrwyddo lleoedd iachach yng Nghonwy, lleihau anghydraddoldebau iechyd a chyfrannu at Gynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl iau yn dod yn fwy actif, sy'n hyrwyddo lles meddyliol gwell, a phobl hŷn yn parhau'n actif sydd hefyd yn lleihau anableddau iechyd meddwl sy'n gallu datblygu wrth i bobl fynd yn hŷn a symud llai.

**PL/9 Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig**

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bob grŵp oedran gan ei fod yn hybu lles ac iechyd meddwl gwell, sy'n cyfrannu at fywydau gwell i rai sydd dan anfantais, yn enwedig problemau iechyd meddwl. Bydd y polisi hwn yn cael effaith benodol ar grwpiau oedran hŷn ac iau sy'n tueddu i fod yn llai actif yn gorfforol, sy'n cynyddu'r tueddiad i gael iechyd meddwl gwael ac effeithio ar les.

**PL/11 Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro**

Nod y polisi hwn yw hyrwyddo camau cydweithredol, gwella lles a chreu lleoedd yng Nghonwy. Caiff Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro eu cefnogi pan fyddant wedi'u paratoi ar y cyd â'r gymuned leol a phan fyddant wedi'u mabwysiadu fel

Canllawiau Cynllunio Atodol yn unol â Chanllawiau Cydymffurfio Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro Conwy.

Mae Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro yn rhoi cyfle i gymunedau ymgysylltu â'r broses o greu'r cynlluniau ar lefel leol. Maen nhw'n ymwneud â darparu canlyniadau lleol, helpu i feithrin consensws a phrynu i mewn o fewn proses ehangach cynlluniau datblygu. Gallant ychwanegu manylion bach at CDLlN sydd wedi'i fabwysiadu. Gellir eu cynhyrchu gan Gynghorau Tref a Chymuned neu'r ACLl ar y cyd â chymunedau lleol. Mae'n hanfodol bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwerthfawrogi'r adnoddau sydd eu hangen i baratoi'r Cynlluniau a bydd yn hanfodol ymgysylltu'n gynnar â phawb. Mae canllawiau Conwy yn cynorthwyo cymunedau i ddeall y materion hyn.

Bydd y polisi hwn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar bob grŵp oedran drwy annog datblygiad creu lleoedd ac annog cymunedau o bob oedran i ddod at ei gilydd er mwyn gwella lles pawb sy'n byw yn yr ardal.

**PL/12 Datblygiad, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio newydd**

Yn ôl y polisi hwn, mae'n rhaid i bob datblygiad wneud darpariaeth ddigonol i liniaru'r effaith gymdeithasol, economaidd, ffisegol a/neu amgylcheddol sy'n deillio o'r datblygiad. Yn unol â'r fframwaith polisi creu lleoedd ac ystyriaethau materol eraill, mae'n rhaid i ddatblygiadau wneud darpariaeth addas ar gyfer nifer o faterion a nodir yn y polisi.  O ran problemau anghydraddoldeb, mae hyn yn cynnwys:

- Tai fforddiadwy,
- mannau hamdden,
- cyfleusterau cymunedol,
- teithio llesol.

Mae'r rhain i gyd yn effeithio ar les, felly mae'n effeithio'n gadarnhaol ar bob grŵp oedran.

**PL/13 Datblygiad newydd a hyfywedd**

Mae’r polisi hwn yn tanategu polisi PL/12. Mae’n nodi “*na chaiff cynigion datblygu eu cefnogi pan nad yw’r ymgeisydd yn bodloni’r gofynion a nodir ym mholisi PL/12, oni bai bod amgylchiadau eithriadol wedi’u cyfiawnhau er bodlonrwydd yr ACLl. Pan nad yw’r ACLl yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi gwneud ymdrechion rhesymol i fodloni gofynion polisi cynllunio, neu pan fyddai’r rhwymedigaethau cynllunio llai yn golygu y byddai’r datblygiad yn cael effaith annerbyniol.”*

Bydd y polisi hwn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar bob grŵp oedran.

**PL/16 Creu Lleoedd a Safleoedd**

Mae’r polisi hwn yn nodi *“Bod yn rhaid i Bob safle sy’n cynnwys 10 neu fwy o unedau preswyl yn y CDSA a Llanrwst, neu 5 neu fwy yn y RDSA, neu 0.1 hectar o dir ar gyfer pob cynnig datblygu arall, gan gynnwys dyraniadau safle a datblygiadau defnydd cymysg, flaenoriaethu lles hirdymor pobl a chreu amgylcheddau ffyniannus, cynhwysol a* ***chynaliadwy trwy’r broses ddylunio creu lleoedd.”***

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bob grŵp oedran gan ei fod yn nodi gofyniad i sicrhau bod lles pobl yn cael ei flaenoriaethu a bod amgylcheddau sy’n cael eu creu yn ffyniannus a chynhwysol.

PL/17 safle 157, safle tai ac addysg defnydd cymysg Llanfairfechan
PL/18 safle 91, safle tai Deganwy/Llanrhos
PL/19 safle 68, safle tai Fferm Peulwys, Hen Golwyn
PL/20 safle 56, safle tai ar dir ger yr A470, Llanrwst
PL/21 safle 203, safle tai Queens Road, Llandudno
PL/22 safle 115, safle cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy Chwarel Llanddulas
PL/23 safle 103, safle cyflogaeth Bryniau, Llandudno
PL/24 safle 206, safle tai Nant y Coed, Cyffordd Llandudno
PL/25 safle 132, safle tai cyn swyddfeydd y Llywodraeth, Dinerth Road, Llandrillo yn Rhos

Mae’r rhain yn safleoedd datblygu penodol sy’n berthnasol iawn i grwpiau oedran gwahanol, yn enwedig o ran sut mae’r safleoedd hyn yn gwneud dyraniadau ar gyfer:

- Tai fforddiadwy (ac eithrio safle 115 Llanddulas a safle 103 Bryniau gan fod y rhain ar gyfer cyflogaeth/ynni adnewyddadwy yn hytrach na thai)
- Teithio llesol
- Cysylltiadau i gludiant cyhoeddus


Mae'r polisïau hyn, fel maent wedi'u nodi, yn darparu'n benodol ar gyfer materion fydd yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb, a thai a chludiant yw'r materion mwyaf sy'n cael effaith i lawer o grwpiau diamddiffyn sydd dan anfantais.

**Crynodeb ar Oedran**

Mae'r adran Creu Lleoedd yn y CLDlN yn ymdrin â'r nodwedd warchodedig berthnasol sef oedran yn dda iawn ac felly mae'r effaith gyffredinol yn gadarnhaol o ganlyniad i gyflwyno'r polisïau hyn yn y CDLlN diwygiedig.

| **Anabledd**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys pobl sydd ag anableddau corfforol / dysgu, cyflyrau hirdymor, neu iechyd meddwl gwael | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

Mae gan adran Creu Lleoedd y CDLlN y potensial i gael effaith sylweddol ar bobl anabl, felly rhaid ystyried yn ofalus yr hyn sydd ynddo a'r hyn sydd heb ei gynnwys.




Mae 22% o’r boblogaeth sy’n anabl, sy’n cyd-fynd â’r lefelau ar hyd a lled Cymru. Felly mae 22% o’r boblogaeth yn cael eu heffeithio gan y ffordd mae creu lleoedd yn cael ei weinyddu.

| **Problemau iechyd hirdymor neu anableddau ym Mwrdeistref Sirol Co** | **Unigolion (Nifer)** | **Unigolion (%)** |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: cyfyngu’n helaeth ar weithgareddau ddydd | 11,920 | 10.4 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: cyfyngu ychydig ar weithgareddau d ddydd | 14,024 | 12.2 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: cyflwr iechyd corfforol neu fed hirdymor ond heb gyfyngu ar weithgareddau dydd i ddydd | 7,673 | 6.7 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: dim cyflyrau iechyd corfforol n meddyliol hirdymor | 81,124 | 70.7 |

Roedd 22.6% o bobl yng Nghonwy wedi nodi eu bod yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghyfrifiad 2021. Mae hyn yn gyfystyr â 33,617 o bobl a mwy nag 1 o bob 5 o bobl yn anabl.  Mae angen ystyried hyn yn ofalus wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus ac mae angen i’r CDLlN ystyried yr ystadegyn yma’n ofalus.

O’r rhai sy’n eu cyfrif eu hunain yn anabl, nododd 11,920 fod eu gweithgareddau dydd i ddydd wedi’u cyfyngu’n helaeth – mae hyn yn 10% o bobl yn ystyried eu hunain yn anabl lle bo’u gweithgareddau wedi’u cyfyngu’n helaeth.




Yn 2021, roedd 9.2% o breswylwyr Conwy wedi nodi eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu'n helaeth. Roedd y ffigwr wedi gostwng o 10.4% yn 2011.  Roedd y gostyngiad yng nghyfran y preswylwyr a nododd eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu'n helaeth yn fwy yng Ngwynedd (1.7 pwynt canran) nag yng Nghonwy (1.2 pwynt canran). Yng Ngwynedd, gostyngodd y gyfran o 9.4% yn 2011 i 7.7% yn 2021.

Yn 2021, roedd ychydig mwy nag un o bob naw o bobl (11.3%) yn anabl ac wedi'u cyfyngu ychydig, o gymharu â 10.8% yn 2011.

**Materion pwysig anghydraddoldeb - Anabledd a Chreu Lleoedd**

**Mae creu lleoedd i bobl anabl yn bwysig iawn.   Mae gwaith ymchwil yn dangos fod materion anghydraddoldeb perthnasol sy'n ymwneud â:**

- Pobl anabl a'r ddarpariaeth tai wedi'u haddasu.
- Gallu pobl ifanc anabl i fforddio tai ynghyd â'r angen i hynny fod yn fforddiadwy
- Pobl anabl ddim yn cael eu hystyried mewn isadeiledd ffisegol.
- Pobl ag anableddau iechyd meddwl a sut y gallant gael eu heffeithio'n gadarnhaol gan yr amgylchedd cymdeithasol a ffisegol y mae'r polisïau creu lleoedd wedi cael eu ffurfio o'u cwmpas.

- Mae pobl anabl yn wynebu anfantais sylweddol yn sgil diffyg sylweddol tai fforddiadwy. Os na chaiff tai eu haddasu ar gyfer pobl anabl, yna ni allant fyw ynddynt. Mae gofynion Rhan M ar gyfer rheoliadau adeiladu'n gwneud darpariaeth sylweddol ar gyfer datblygiadau newydd y gellir eu haddasu, gan amlinellu gofynion megis lled drysau a rampiau ym mynedfeydd yr adeiladau. Mae angen rhagor o waith fodd bynnag i bontio'r bwlch rhwng anghenion pobl anabl a lefel y tai y mae modd eu haddasu. Gellid cryfhau adran dai y CDLlN drwy ystyried y boblogaeth o bobl anabl sy'n byw yng Nghonwy a maint yr angen am dai sy'n bodoli ar eu cyfer.

**<u>Polisïau Creu Lleoedd Penodol</u>**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Creu Lleoedd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chreu Lleoedd ac Oedran:

**PL/1 Creu Lleoedd Cynaliadwy**

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chreu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a lles gwell yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses creu lleoedd ac adfywio cynhwysol sy'n sicrhau bod lefelau twf yn y dyfodol a datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd mwy iach, yn diogelu'r Gymraeg ac yn cael ei gefnogi gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd gwych.

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl anabl. Mae'n gosod safon ar gyfer ceisiadau cynllunio, gan sicrhau y dylai'r system gynllunio greu lleoedd cynaliadwy, sy'n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, actif, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar. Dylai cynigion datblygu greu'r amodau i ddod â phobl at ei gilydd, gan greu awydd i fyw, gweithio a chwarae mewn ardaloedd sydd ag ymdeimlad o le a lles, gan greu ffyniant i bawb. Mae'r polisi hefyd yn nodi y dylai'r datblygiad fod yn hygyrch.

**PL/2 Strategaeth tai cynaliadwy**

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â darogan faint a'r mathau o dai sydd eu hangen ac yna llywio hynny yn ei flaen fel ei fod yn cael ei gyflawni. Mae'n ymwneud â materion

megis datblygu digon o dai fforddiadwy, sy’n effeithio ar bobl anabl sy’n cael trafferth cael tai, gan nad ydynt mor gefnog ar y cyfan - ac mae hyn yn cael ei wneud yn waeth gan fod prisiau tai yn ddrud iawn ar hyn o bryd. Mae hefyd yn ymdrin ag anghenion llety pobl hŷn a phobl anabl ag anghenion gofalu. Felly, bydd y polisi penodol hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl hŷn, pobl iau a phobl anabl.

**PL/3 Strategaeth economaidd cynaliadwy**

Mae’r polisi hwn yn ymwneud â datblygu digon o dir i’w ddatblygu, fydd yn creu cyflogaeth i wasanaethu’r twf yn y boblogaeth oherwydd y twf economaidd a ragwelir yn y rhanbarth. Bydd hyn yn effeithio ar bawb, ond yn enwedig ar bobl anabl, sydd fel rheol yn dioddef mwy oherwydd llai o gyfleoedd cyflogaeth a gwahaniaethu wrth gael swyddi.

**PL/4 Dosbarthiad Twf a Hierarchaeth Aneddiadau**

Mae’r polisi hwn yn ymwneud yn bennaf â dyrannu hierarchaeth i’r aneddiadau yng Nghonwy o ran maint a chyfluniad. Mae hyn yn sicrhau bod datblygiad yn briodol yn dibynnu ar gynnwys anheddiad penodol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod datblygiadau’n cael eu rheoli a’u cynllunio ac yn eu hatal rhag datblygu’n amhriodol, er enghraifft, datblygiad tai na ellir ei gynnal gan y gwasanaethau lleol a’r isadeiledd lleol i gefnogi anghenion y rhai sy’n byw yn y datblygiad. Mae’r polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr holl bobl anabl a bydd yn sicrhau bod aneddiadau'n ystyried anghenion y rhai sy’n byw ynddynt yn ofalus, yn ogystal â chreu datblygiad i gefnogi anghenion y boblogaeth bresennol a’r boblogaeth sy’n tyfu/y twf economaidd posibl a ragwelir ar gyfer y rhanbarth.

**PL/5 Creu Lleoedd a Dylunio Da**

Mae’r polisi hwn yn ymwneud â’r gofyniad am ddyluniad da ac mae’n ystyried materion megis yr angen i bob datblygiad gael ei ddylunio i safon uchel, cynaliadwy a pharchu cymeriad lleol a natur unigryw amgylchedd adeiledig, hanesyddol a naturiol Conwy. Er enghraifft, mae’r polisi’n trafod materion megis hyrwyddo teithio

llesol a datblygiad sy’n annog gweithgareddau awyr agored. Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar nifer o anableddau ac anableddau iechyd meddwl yn benodol.

**PL/6 Hybu Lleoedd Iachach**

Mae’r polisi hwn yn ymwneud â’r angen am leoedd iachach ac mae’n nodi nifer o ofynion y mae’n rhaid i ddatblygiadau gadw atynt er mwyn hyrwyddo lleoedd iachach yng Nghonwy, lleihau anghydraddoldebau iechyd a chyfrannu at Gynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bawb sydd ag anabledd ac anableddau iechyd meddwl yn benodol. Felly, bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar nifer o anableddau ac anableddau iechyd meddwl yn benodol.

**PL/9 Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig**

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bawb sydd ag anabledd gan ei fod yn hybu lles ac iechyd meddwl gwell, sy’n cyfrannu at fywydau gwell i rai sydd dan anfantais, yn enwedig rhai â phroblemau iechyd meddwl. Bydd y polisi hwn yn cael effaith benodol ar bobl ag anableddau iechyd meddwl a’r rhai sy’n cael eu hamddifadu'n economaidd, sy’n tueddu i fod yn llai actif yn gorfforol, sy’n cynyddu’r tueddiad i gael iechyd meddwl gwael ac effeithio ar les.

**PL/11 Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro**

Nod y polisi hwn yw hybu gweithredu ar y cyd, gwella lles a chreu lleoedd yng Nghonwy, caiff Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro eu cefnogi pan fyddant wedi’u paratoi ar y cyd â’r gymuned leol a phan fyddant wedi’u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn unol â Chanllawiau Cydymffurfio Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro Conwy.

Mae Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro yn rhoi cyfle i gymunedau ymgysylltu â’r broses o greu’r cynlluniau ar lefel leol. Maen nhw’n ymwneud â darparu canlyniadau lleol, helpu i feithrin consensws a phrynu i mewn o fewn proses ehangach cynlluniau datblygu. Gallant ychwanegu manylion bach at CDLlN sydd

wedi'i fabwysiadu. Gellir eu cynhyrchu gan Gynghorau Tref a Chymuned neu'r ACLl ar y cyd â chymunedau lleol. Mae'n hanfodol bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwerthfawrogi'r adnoddau sydd eu hangen i baratoi'r Cynlluniau a bydd yn hanfodol ymgysylltu'n gynnar â phawb. Mae canllawiau Conwy yn cynorthwyo cymunedau i ddeall y materion hyn.

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bawb sy'n anabl drwy annog datblygiad creu lleoedd a dod â chymunedau at ei gilydd er mwyn gwella lles pawb sy'n byw yno, gan ddefnyddio amrywiaeth o safbwyntiau yn y broses honno.

**PL/12 Datblygiad, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio newydd**

Yn ôl y polisi hwn, mae'n rhaid i bob datblygiad wneud darpariaeth ddigonol i liniaru'r effaith gymdeithasol, economaidd, ffisegol a/neu amgylcheddol sy'n deillio o'r datblygiad. Yn unol â'r fframwaith polisi creu lleoedd ac ystyriaethau materol eraill, mae'n rhaid i ddatblygiadau wneud darpariaeth addas ar gyfer nifer o faterion a nodir yn y polisi.  O ran problemau anghydraddoldeb, mae hyn yn cynnwys:

- Tai fforddiadwy,
- mannau hamdden,
- cyfleusterau cymunedol,
- teithio llesol.

Mae'r rhain i gyd yn cael effaith ar les ac felly mae'n effeithio'n gadarnhaol ar bawb sy'n anabl, sy'n tueddu i fod â lefelau is o les cadarnhaol oherwydd yr her ychwanegol o fyw gydag anabledd.

**PL/13 Datblygiad newydd a hyfywedd**

Mae'r polisi hwn yn cefnogi polisi PL/12.  Mae'n nodi *"Na chaiff cynigion datblygu eu cefnogi pan nad yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion a nodir ym mholisi PL/13, oni bai bod amgylchiadau eithriadol wedi'u cyfiawnhau er bodlonrwydd yr ACLl. Pan nad yw'r ACLl yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi gwneud ymdrechion rhesymol i fodloni gofynion polisi cynllunio, neu pan fyddai'r rhwymedigaethau cynllunio llai yn golygu y byddai'r datblygiad yn cael effaith annerbyniol."*

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl anabl.

**PL/16 Creu Lleoedd a Safleoedd**

Mae'r polisi hwn yn nodi *"Bod yn rhaid i bob safle sy'n cynnwys 10 neu fwy o unedau preswyl yn y CDSA a Llanrwst, neu 5 neu fwy yn y RDSA, neu 0.1 hectar o dir ar gyfer pob cynnig datblygu arall, gan gynnwys dyraniadau safle a datblygiadau defnydd cymysg, flaenoriaethu lles hirdymor pobl a chreu amgylcheddau ffyniannus, cynhwysol a* ***chynaliadwy trwy'r broses ddylunio creu lleoedd."***

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bawb sy'n anabl gan ei fod yn nodi gofyniad i sicrhau bod lles pobl yn cael ei flaenoriaethu a bod amgylcheddau sy'n cael eu creu yn ffyniannus a chynhwysol.

**PL/17 safle 157, safle tai ac addysg defnydd cymysg Llanfairfechan**

**PL/18 safle 91, safle tai Deganwy/Llanrhos**

**PL/19 safle 68, safle tai Fferm Peulwys, Hen Golwyn**

**PL/20 safle 56, safle tai ar dir ger yr A470, Llanrwst**

**PL/21 safle 203, safle tai Queens Road, Llandudno**

**PL/22 safle 115, safle cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy Chwarel Llanddulas**

**PL/23 safle 103, safle cyflogaeth Bryniau, Llandudno**

**PL/24 safle 206, safle tai Nant y Coed, Cyffordd Llandudno**

**PL/25 safle 132, safle tai cyn swyddfeydd y Llywodraeth, Dinerth Road, Llandrillo yn Rhos**

Mae'r rhain yn safleoedd datblygu penodol sy'n berthnasol iawn i bawb sy'n anabl, yn enwedig o ran sut mae'r safleoedd hyn yn gwneud dyraniadau ar gyfer:

- Tai fforddiadwy (ac eithrio safle 115 Llanddulas a safle 103 Bryniau gan fod y rhain ar gyfer cyflogaeth/ynni adnewyddadwy yn hytrach na thai)
- Teithio llesol

- Cysylltiadau cludiant cyhoeddus

Mae’r polisïau hyn, fel maent wedi’u nodi, yn darparu’n gadarnhaol ar gyfer datblygu sy’n sicrhau bod materion pwysig yn ymwneud â gwella cydraddoldeb ar gyfer y nodweddion gwarchodedig yn cael sylw yn y broses ddatblygu.

**Crynodeb ar Anabledd**

Bydd y bennod ar greu lleoedd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl anabl gan fod pethau sy’n effeithio arnynt wedi cael eu hystyried yn ofalus, megis datblygu’r isadeiledd ffisegol lleol a blaenoriaethu hygyrchedd a lles cadarnhaol drwy nodi bod yn rhaid i’r ffordd mae’r datblygiad yn digwydd ystyried hynny.

| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>Gallai’r grwpiau sy’n cael eu heffeithio gynnwys dynion hoyw / deurywiol, merched lesbiaidd / deurywiol, neu bobl heterorywiol | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

| **Cyfeiriadedd rhywiol ym Mwrdeistref Sirol Conwy** | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn | 96,362 | 100.0 |
| Strêt neu heterorywiol | 85,973 | 89.2 |
| Hoyw neu lesbiaidd | 1,330 | 1.4 |
| Deurywiol | 872 | 0.9 |
| Panrywiol | 140 | 0.1 |
| Anrhywiol | 45 | 0.0 |
| Cwiar | 7 | 0.0 |
| Pob cyfeiriadedd rhywiol arall | 9 | 0.0 |
| Heb ateb | 7986 | 8.3 |

Cofnododd y cyfrifiad fod 89.2% o’r boblogaeth yn strêt neu’n heterorywiol yng Nghonwy, 1.4% yn hoyw neu’n lesbiaidd, 0.9% yn ddeurywiol ac roedd 8.3% heb ateb y cwestiwn.  Mae cwestiynau sy’n ymwneud â hyn yn fater sensitif ac mae rhai’n teimlo’n anghyfforddus yn ateb y mathau hyn o gwestiynau, sy’n ei gwneud yn anodd mesur neu ddibynnu ar yr ystadegau a gasglwyd.  Mae’r Adran Fasnach a Diwydiant yn rhoi amcangyfrif swyddogol bod 5–7% o boblogaeth Prydain yn hoyw, lesbiaidd, neu’n ddeurywiol sy’n awgrymu bod rhywfaint o dan-adrodd yng Nghonwy pan gynhaliwyd y cyfrifiad.

**Polisïau Creu Lleoedd Penodol**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Creu Lleoedd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chreu Lleoedd a Rhywioldeb:

### PL/1 Creu Lleoedd Cynaliadwy

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chreu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a lles gwell yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses creu lleoedd ac adfywio cynhwysol sy'n sicrhau bod lefelau twf yn y dyfodol a datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd mwy iach, yn diogelu'r Gymraeg ac yn cael ei gefnogi gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd gwych.

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon gan ei fod yn hyrwyddo cymunedau cydlynus sy'n ystyried yr amrywiaeth sydd yn y cymunedau byw yng Nghonwy. Mae'n gosod safon ar gyfer ceisiadau cynllunio, gan sicrhau y dylai'r system gynllunio greu lleoedd cynaliadwy, sy'n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, actif, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar. Dylai cynigion datblygu greu'r amodau i ddod â phobl at ei gilydd, gan greu awydd i fyw, gweithio a chwarae mewn ardaloedd sydd ag ymdeimlad o le a lles, gan greu ffyniant i bawb. Mae'r polisi hefyd yn nodi y dylai'r datblygiad fod yn hygyrch.

### PL/11 Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro

Nod y polisi hwn yw hybu gweithredu ar y cyd, gwella lles a chreu lleoedd yng Nghonwy, caiff Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro eu cefnogi pan fyddant wedi'u paratoi ar y cyd â'r gymuned leol a phan fyddant wedi'u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn unol â Chanllawiau Cydymffurfio Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro Conwy.

Mae Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro yn rhoi cyfle i gymunedau ymgysylltu â'r broses o greu'r cynlluniau ar lefel leol. Maen nhw'n ymwneud â

darparu canlyniadau lleol, helpu i feithrin consensws a phrynu i mewn o fewn proses ehangach cynlluniau datblygu. Gallant ychwanegu manylion bach at CDLlN sydd wedi'i fabwysiadu. Gellir eu cynhyrchu gan Gynghorau Tref a Chymuned neu'r ACLl ar y cyd â chymunedau lleol. Mae'n hanfodol bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwerthfawrogi'r adnoddau sydd eu hangen i baratoi'r Cynlluniau a bydd yn hanfodol ymgysylltu'n gynnar â phawb.  Mae canllawiau Conwy yn cynorthwyo cymunedau i ddeall y materion hyn.

Bydd y polisi'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon hefyd gan ei fod yn annog y gymuned i gymryd rhan yn y ffordd mae'r isadeiledd ffisegol yn datblygu a hynny ar y cyd ag amrywiaeth y gymuned drwy annog datblygiad creu lleoedd a chymunedau'n dod ynghyd er mwyn gwella lles pawb yn yr ardal, drwy amrywiaeth o safbwyntiau a barn.

**PL/12 Datblygiad, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio newydd**

Yn ôl y polisi hwn, mae'n rhaid i bob datblygiad wneud darpariaeth ddigonol i liniaru'r effaith gymdeithasol, economaidd, ffisegol a/neu amgylcheddol sy'n deillio o'r datblygiad. Yn unol â'r fframwaith polisi creu lleoedd ac ystyriaethau materol eraill, mae'n rhaid i ddatblygiadau wneud darpariaeth addas ar gyfer nifer o faterion a nodir yn y polisi.  O ran problemau anghydraddoldeb, mae hyn yn cynnwys:

- Tai fforddiadwy,
- mannau hamdden,
- cyfleusterau cymunedol,
- teithio llesol.

Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon.

**PL/13 Datblygiad newydd a hyfywedd**

Mae'r polisi hwn yn cefnogi polisi PL/12.  Mae'n nodi *"Na chaiff cynigion datblygu eu cefnogi pan nad yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion a nodir ym mholisi PL/12, oni bai bod amgylchiadau eithriadol wedi'u cyfiawnhau er bodlonrwydd yr ACLl. Pan nad*

*yw'r ACLl yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi gwneud ymdrechion rhesymol i fodloni gofynion polisi cynllunio, neu pan fyddai'r rhwymedigaethau cynllunio llai yn golygu y byddai'r datblygiad yn cael effaith annerbyniol."*

Bydd y polisi hwn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig cyfeiriadedd rhywiol drwy gefnogi Polisi PL/12.

**PL/16 Creu Lleoedd a Safleoedd**

Mae'r polisi hwn yn nodi *"Bod yn rhaid i bob safle sy'n cynnwys 10 neu fwy o unedau preswyl yn y CDSA a Llanrwst, neu 5 neu fwy yn y RDSA, neu 0.1 hectar o dir ar gyfer pob cynnig datblygu arall, gan gynnwys dyraniadau safle a datblygiadau defnydd cymysg, flaenoriaethu lles hirdymor pobl a chreu amgylcheddau ffyniannus, cynhwysol a* ***chynaliadwy trwy'r broses ddylunio creu lleoedd."***

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y nodwedd warchodedig hon gan ei fod yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol a bod y gymuned yn cymryd rhan yn y ffordd mae'r datblygiad yn digwydd.

**PL/17 safle 157, safle tai ac addysg defnydd cymysg Llanfairfechan**

**PL/18 safle 91, safle tai Deganwy/Llanrhos**

**PL/19 safle 68, safle tai Fferm Peulwys, Hen Golwyn**

**PL/20 safle 56, safle tai ar dir ger yr A470, Llanrwst**

**PL/21 safle 203, safle tai Queens Road, Llandudno**

**PL/22 safle 115, safle cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy Chwarel Llanddulas**

**PL/23 safle 103, safle cyflogaeth Bryniau, Llandudno**

**PL/24 safle 206, safle tai Nant y Coed, Cyffordd Llandudno**

**PL/25 safle 132, safle tai cyn swyddfeydd y Llywodraeth, Dinerth Road, Llandrillo yn Rhos**

Mae’r polisïau hyn i gyd yn hyrwyddo cyfranogiad ac ymgysylltiad y gymuned yn y ffordd mae datblygiadau’n digwydd yn y lleoliadau hyn. Mae hyn yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol a chyfranogiad gwahanol bobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol, drwy gasglu eu mewnbwn am yr hyn sy’n bwysig i wahanol fathau o bobl, sy’n cael effaith gadarnhaol ar faterion anghydraddoldeb.

**Crynodeb Rhywioldeb**

Bydd y bennod ar greu lleoedd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y nodwedd warchodedig hon gan ei fod yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol a bod y gymuned amrywiol yn cymryd rhan yn y ffordd mae’r datblygiad yn digwydd.

| **Ailbennu Rhywedd**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sy’n bwriadu mynd drwy broses ailbennu rhywedd, wrthi’n mynd neu wedi mynd drwyddi. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

| **Hunaniaeth rhywedd ym Mwrdeistref Sirol Conwy** | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn | 96,362 | 100.0 |
| Hunaniaeth rhywedd 16 oed a hŷn | 89,545 | 92.9 |
| Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i’r rhyw a gofrestrwyd ar yr enedigaeth ond heb nodi unrhyw hunaniaeth benodol | 94 | 0.1 |
| Merch draws | 40 | 0.0 |
| Dyn traws | 58 | 0.1 |
| Anneuaidd | 34 | 0.0 |
| Pob hunaniaeth rhywedd arall | 27 | 0.0 |
| Heb ateb | 6,564 | 6,8 |

Mae’r wybodaeth o ran hunaniaeth rhywedd yn parhau i fod yn gymharol gyfyngedig ac mae’n parhau i fod yn nodwedd warchodedig sy’n cael ei than-adrodd.

Dengys y cyfrifiad bod 0.1% – 94 o bobl yng Nghonwy sydd â hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni. Roedd 40 yn nodi eu bod yn ferch draws, 58 (0.1%) yn ddyn traws, 34 yn anneuaidd a 27 o blith pob hunaniaeth rhywedd arall.

## Polisïau Creu Lleoedd Penodol

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Creu Lleoedd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chreu Lleoedd ac Ailbennu Rhywedd:

### PL/1 Creu Lleoedd Cynaliadwy

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chreu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a lles gwell yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses creu lleoedd ac adfywio cynhwysol sy'n sicrhau bod lefelau twf yn y dyfodol a datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd mwy iach, yn diogelu'r Gymraeg ac yn cael ei gefnogi gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd gwych.

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon gan ei fod yn hyrwyddo cymunedau cydlynus sy'n ystyried yr amrywiaeth sydd yn y cymunedau byw yng Nghonwy. Mae'n gosod safon ar gyfer ceisiadau cynllunio, gan sicrhau y dylai'r system gynllunio greu lleoedd cynaliadwy, sy'n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, actif, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar. Dylai cynigion datblygu greu'r amodau i ddod â phobl at ei gilydd, gan greu awydd i fyw, gweithio a chwarae mewn ardaloedd sydd ag ymdeimlad o le a lles, gan greu ffyniant i bawb. Mae'r polisi hefyd yn nodi y dylai'r datblygiad fod yn hygyrch.

### PL/11 Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro

Nod y polisi hwn yw hybu gweithredu ar y cyd, gwella lles a chreu lleoedd yng Nghonwy, caiff Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro eu cefnogi pan fyddant wedi'u paratoi ar y cyd â'r gymuned leol a phan fyddant wedi'u mabwysiadu fel

Canllawiau Cynllunio Atodol yn unol â Chanllawiau Cydymffurfio Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro Conwy.

Mae Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro yn rhoi cyfle i gymunedau ymgysylltu â'r broses o greu'r cynlluniau ar lefel leol. Maen nhw'n ymwneud â darparu canlyniadau lleol, helpu i feithrin consensws a phrynu i mewn o fewn proses ehangach cynlluniau datblygu. Gallant ychwanegu manylion bach at CDLlN sydd wedi'i fabwysiadu. Gellir eu cynhyrchu gan Gynghorau Tref a Chymuned neu'r ACLl ar y cyd â chymunedau lleol. Mae'n hanfodol bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwerthfawrogi'r adnoddau sydd eu hangen i baratoi'r Cynlluniau a bydd yn hanfodol ymgysylltu'n gynnar â phawb.  Mae canllawiau Conwy yn cynorthwyo cymunedau i ddeall y materion hyn.

Bydd y polisi'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon hefyd gan ei fod yn annog y gymuned i gymryd rhan yn y ffordd mae'r isadeiledd ffisegol yn datblygu a hynny ar y cyd ag amrywiaeth y gymuned drwy annog datblygiad creu lleoedd a chymunedau'n dod ynghyd er mwyn gwella lles pawb yn yr ardal.

**PL/12 Datblygiad, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio newydd**

Yn ôl y polisi hwn, mae'n rhaid i bob datblygiad wneud darpariaeth ddigonol i liniaru'r effaith gymdeithasol, economaidd, ffisegol a/neu amgylcheddol sy'n deillio o'r datblygiad. Yn unol â'r fframwaith polisi creu lleoedd ac ystyriaethau materol eraill, mae'n rhaid i ddatblygiadau wneud darpariaeth addas ar gyfer nifer o faterion a nodir yn y polisi.  O ran problemau anghydraddoldeb, mae hyn yn cynnwys:

- Tai fforddiadwy,
- mannau hamdden,
- cyfleusterau cymunedol,
- teithio llesol.

Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon.

**PL/13 Datblygiad newydd a hyfywedd**

Mae'r polisi hwn yn cefnogi polisi PL/12.  Mae'n nodi *"Na chaiff cynigion datblygu eu cefnogi pan nad yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion a nodir ym mholisi PL/12, oni bai bod amgylchiadau eithriadol wedi'u cyfiawnhau er bodlonrwydd yr ACLl. Pan nad yw'r ACLl yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi gwneud ymdrechion rhesymol i fodloni gofynion polisi cynllunio, neu pan fyddai'r rhwymedigaethau cynllunio llai yn golygu y byddai'r datblygiad yn cael effaith annerbyniol."*

Bydd y polisi hwn hefyd yn cael effaith gadarnhaol.

**PL/16 Creu Lleoedd a Safleoedd**

Mae'r polisi hwn yn nodi *"Bod yn rhaid i bob safle sy'n cynnwys 10 neu fwy o unedau preswyl yn y CDSA a Llanrwst, neu 5 neu fwy yn y RDSA, neu 0.1 hectar o dir ar gyfer pob cynnig datblygu arall, gan gynnwys dyraniadau safle a datblygiadau defnydd cymysg, flaenoriaethu lles hirdymor pobl a chreu amgylcheddau ffyniannus, cynhwysol a* ***chynaliadwy trwy'r broses ddylunio creu lleoedd."***

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y nodwedd warchodedig hon gan ei fod yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol a bod y gymuned yn cymryd rhan yn y ffordd mae'r datblygiad yn digwydd.

**PL/17 safle 157, safle tai ac addysg defnydd cymysg Llanfairfechan**

**PL/18 safle 91, safle tai Deganwy/Llanrhos**

**PL/19 safle 68, safle tai Fferm Peulwys, Hen Golwyn**

**PL/20 safle 56, safle tai ar dir ger yr A470, Llanrwst**

**PL/21 safle 203, safle tai Queens Road, Llandudno**

**PL/22 safle 115, safle cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy Chwarel Llanddulas**

**PL/23 safle 103, safle cyflogaeth Bryniau, Llandudno**

**PL/24 safle 206, safle tai Nant y Coed, Cyffordd Llandudno**


**PL/25 safle 132, safle tai cyn swyddfeydd y Llywodraeth, Dinerth Road, Llandrillo yn Rhos**

Mae'r polisïau hyn yn hyrwyddo cyfranogiad ac ymgysylltiad y gymuned yn y ffordd mae datblygiadau'n digwydd. Mae hyn yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol a chyfranogiad, sy'n cael effaith gadarnhaol ar faterion anghydraddoldeb.

**Crynodeb ar Ailbennu Rhywedd**

Bydd y bennod creu lleoedd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y nodwedd warchodedig hon gan ei fod yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol a bod y gymuned amrywiol yn cymryd rhan yn y ffordd mae'r datblygiad yn digwydd.

| **Rhyw (Rhywedd)** Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys rhai gwryw neu fenyw – neu grwpiau rhyweddol penodol fel bechgyn neu ferched. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |




| Rhyw ym Mwrdeistref Sirol Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Benyw | 59,156 | 51.6 |
| Gwryw | 55,585 | 48.4 |

Mae’r dadansoddiad o ran rhyw ar draws Conwy yn y cyfrifiad yn dangos bod ychydig yn fwy o ferched na dynion gyda 51.6% o’r boblogaeth yn ferched a 48.4% yn ddynion. Mae hyn yn gyfystyr â 59,156 o ferched a 55,585 o ddynion.

**Disgwyliad Oes a Rhywedd**

Conwy

| Blwyddyn | Dynion | Merched |
|---|---:|---:|
| 1991-93 | 74.4 | 80.2 |
| 1992-94 | 74.6 | 80.3 |
| 1993-95 | 74.4 | 80.1 |
| 1994-96 | 75 | 80.1 |
| 1995-97 | 74.7 | 80 |
| 1996-98 | 74.7 | 80.1 |
| 1997-99 | 74.4 | 79.7 |
| 1998-00 | 74.7 | 80 |
| 1999-01 | 75 | 80.1 |
| 2000-02 | 75.5 | 80.3 |
| 2001-03 | 75.7 | 80.5 |
| 2002-04 | 75.8 | 80.8 |
| 2003-05 | 76.3 | 81.2 |
| 2004-06 | 76.6 | 81.4 |
| 2005-07 | 77 | 81.5 |
| 2006-08 | 77.1 | 81.6 |
| 2007-09 | 77.3 | 81.9 |
| 2008-10 | 78 | 82 |
| 2009-11 | 78.2 | 82.4 |
| 2010-12 | 79 | 82.6 |

Cymru

| Blwyddyn | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|
| 1991-93 | 73.3 | 78.9 |
| 1992-94 | 73.4 | 79.0 |
| 1993-95 | 73.4 | 79.0 |
| 1994-96 | 73.7 | 79.2 |
| 1995-97 | 73.8 | 79.1 |
| 1996-98 | 74.2 | 79.3 |
| 1997-99 | 74.3 | 79.4 |
| 1998-00 | 74.6 | 79.6 |
| 1999-01 | 74.8 | 79.8 |
| 2000-02 | 75.3 | 80.0 |
| 2001-03 | 75.5 | 80.1 |
| 2002-04 | 75.8 | 80.3 |
| 2003-05 | 76.1 | 80.5 |
| 2004-06 | 76.6 | 81.0 |
| 2005-07 | 76.8 | 81.2 |
| 2006-08 | 77.0 | 81.3 |
| 2007-09 | 77.2 | 81.5 |
| 2008-10 | 77.6 | 81.8 |
| 2009-11 | 78.0 | 82.2 |
| 2010-12 | 78.2 | 82.2 |

https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Life-Expectancy/LifeExpectancy-by-Gender-Year

Cyfrifwyd mai'r disgwyliad oes yng Nghonwy yn 2010–2012 oedd 79 i ddynion ac 82.6 i ferched. Mae hyn hefyd yn cynyddu'n raddol dros amser, wedi codi o 74.4 yn 1991 ar gyfer dynion ac 80.2 ar gyfer merched, sy'n dangos cynnydd mwy o ran disgwyliad oes dynion.

Wrth gymharu'r ystadegau hyn â rhai Cymru, mae'r disgwyliad oes yn uwch ar gyfer dynion a merched o gymharu â Chymru. Mae'r cynnydd i ddisgwyliad oes yn debyg i gyfradd Cymru.

Mae disgwyliad oes, felly, ychydig yn uwch ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghonwy o gymharu â Chymru. Mae'r ffaith bod pobl yn byw'n hirach, yn enwedig yng Nghonwy, yn golygu y bydd mwy o alw ar y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau

cymdeithasol. Mae’r angen i ymdrin ag anghydraddoldeb ar gyfer pobl hŷn, fel arwahanrwydd ac arwahanrwydd gwledig yn benodol, hyd yn oed yn fwy perthnasol wrth i’r boblogaeth fyw’n hŷn.

**Polisïau Creu Lleoedd Penodol**

Mae’r polisïau canlynol yn yr adran Creu Lleoedd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chreu Lleoedd ac Ailbennu Rhywedd:

**PL/1 Creu Lleoedd Cynaliadwy**

Mae’r polisi hwn yn ymwneud â chreu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a lles gwell yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses creu lleoedd ac adfywio cynhwysol sy’n sicrhau bod lefelau twf yn y dyfodol a datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd mwy iach, yn diogelu’r Gymraeg ac yn cael ei gefnogi gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd gwych.

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon gan ei fod yn hyrwyddo cymunedau cydlynus sy’n ystyried yr amrywiaeth sydd yn y cymunedau byw yng Nghonwy. Mae’n gosod safon ar gyfer ceisiadau cynllunio, gan sicrhau y dylai’r system gynllunio greu lleoedd cynaliadwy, sy’n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, actif, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar. Dylai cynigion datblygu greu’r amodau i ddod â phobl at ei gilydd, gan greu awydd i fyw, gweithio a chwarae mewn ardaloedd sydd ag ymdeimlad o le a lles, gan greu ffyniant i bawb. Mae’r polisi hefyd yn nodi y dylai’r datblygiad fod yn hygyrch.

**PL/11 Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro**

Nod y polisi hwn yw hybu gweithredu ar y cyd, gwella lles a chreu lleoedd yng Nghonwy, caiff Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro eu cefnogi pan fyddant wedi’u paratoi ar y cyd â’r gymuned leol a phan fyddant wedi’u mabwysiadu fel

Canllawiau Cynllunio Atodol yn unol â Chanllawiau Cydymffurfio Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro Conwy.

Mae Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro yn rhoi cyfle i gymunedau ymgysylltu â'r broses o greu'r cynlluniau ar lefel leol. Maen nhw'n ymwneud â darparu canlyniadau lleol, helpu i feithrin consensws a phrynu i mewn o fewn proses ehangach cynlluniau datblygu. Gallant ychwanegu manylion bach at CDLlN sydd wedi'i fabwysiadu. Gellir eu cynhyrchu gan Gynghorau Tref a Chymuned neu'r ACLl ar y cyd â chymunedau lleol. Mae'n hanfodol bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwerthfawrogi'r adnoddau sydd eu hangen i baratoi'r Cynlluniau a bydd yn hanfodol ymgysylltu'n gynnar â phawb. Mae canllawiau Conwy yn cynorthwyo cymunedau i ddeall y materion hyn.

Bydd y polisi'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon hefyd gan ei fod yn annog y gymuned i gymryd rhan yn y ffordd mae'r isadeiledd ffisegol yn datblygu a hynny ar y cyd ag amrywiaeth y gymuned drwy annog datblygiad creu lleoedd a chymunedau'n dod ynghyd er mwyn gwella lles pawb yn yr ardal.

**PL/12 Datblygiad, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio newydd**

Yn ôl y polisi hwn, mae'n rhaid i bob datblygiad wneud darpariaeth ddigonol i liniaru'r effaith gymdeithasol, economaidd, ffisegol a/neu amgylcheddol sy'n deillio o'r datblygiad. Yn unol â'r fframwaith polisi creu lleoedd ac ystyriaethau materol eraill, mae'n rhaid i ddatblygiadau wneud darpariaeth addas ar gyfer nifer o faterion a nodir yn y polisi. O ran problemau anghydraddoldeb, mae hyn yn cynnwys:

- Tai fforddiadwy,
- mannau hamdden,
- cyfleusterau cymunedol,
- teithio llesol.

Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon.

**PL/13 Datblygiad newydd a hyfywedd**

Mae'r polisi hwn yn cefnogi polisi PL/12.  Mae'n nodi *"Na chaiff cynigion datblygu eu cefnogi pan nad yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion a nodir ym mholisi PL/12, oni bai bod amgylchiadau eithriadol wedi'u cyfiawnhau er bodlonrwydd yr ACLl. Pan nad yw'r ACLl yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi gwneud ymdrechion rhesymol i fodloni gofynion polisi cynllunio, neu pan fyddai'r rhwymedigaethau cynllunio llai yn golygu y byddai'r datblygiad yn cael effaith annerbyniol."*

Bydd y polisi hwn hefyd yn cael effaith gadarnhaol.

**PL/16 Creu Lleoedd a Safleoedd**

Mae'r polisi hwn yn nodi *"Bod yn rhaid i bob safle sy'n cynnwys 10 neu fwy o unedau preswyl yn y CDSA a Llanrwst, neu 5 neu fwy yn y RDSA, neu 0.1 hectar o dir ar gyfer pob cynnig datblygu arall, gan gynnwys dyraniadau safle a datblygiadau defnydd cymysg, flaenoriaethu lles hirdymor pobl a chreu amgylcheddau ffyniannus, cynhwysol a* ***chynaliadwy trwy'r broses ddylunio creu lleoedd."***

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y nodwedd warchodedig hon gan ei fod yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol a bod y gymuned yn cymryd rhan yn y ffordd mae'r datblygiad yn digwydd.

**PL/17 safle 157, safle tai ac addysg defnydd cymysg Llanfairfechan**

**PL/18 safle 91, safle tai Deganwy/Llanrhos**

**PL/19 safle 68, safle tai Fferm Peulwys, Hen Golwyn**

**PL/20 safle 56, safle tai ar dir ger yr A470, Llanrwst**

Yn 2021, roedd 9.2% o breswylwyr Conwy wedi nodi eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu'n helaeth. Roedd y ffigwr wedi gostwng o 10.4% yn 2011. Roedd y gostyngiad yng nghyfran y preswylwyr a nododd eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu'n helaeth yn fwy yng Ngwynedd (1.7 pwynt canran) nag yng Nghonwy (1.2 pwynt canran). Yng Ngwynedd, gostyngodd y gyfran o 9.4% yn 2011 i 7.7% yn 2021.

Yn 2021, roedd ychydig mwy nag un o bob naw o bobl (11.3%) yn anabl ac wedi'u cyfyngu ychydig, o gymharu â 10.8% yn 2011.

**Polisïau Mannau Hamdden Penodol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

Mae'r polisïau canlynol o fewn pennod Mannau Hamdden y CDLlN yn berthnasol i faterion cydraddoldeb i bobl anabl:

**RS/1** Mannau Hamdden

**RS/2** Datblygu a Mannau Hamdden

**RS/3** Diogelu Mannau Hamdden Presennol

**RS/4** Mannau Hamdden Newydd

Mae'r polisïau mannau hamdden yn ymwneud â gwella gofod hamdden Conwy, er enghraifft, drwy amddiffyn y gofod hamdden presennol sydd yno ar hyn o bryd a hefyd drwy gynhyrchu mwy o ddefnydd tir ar gyfer mannau hamdden.

Mae mannau hamdden yn fuddiol iawn ar gyfer annog ffordd iach o fyw ac mae'n hyrwyddo ymarfer corff, cerdded a gweithgareddau chwaraeon anffurfiol. Mae hefyd yn annog pobl i gyfarfod mewn mannau agored, sy'n therapiwtig ac yn ysgogi'r meddwl, sydd yn ei dro yn helpu i gadw'n heini ac yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol.

Mae'r polisïau hyn o fudd i bawb ond maent yn arbennig o fuddiol i bobl anabl sy'n elwa'n sylweddol o unrhyw welliant i'w lles cymdeithasol, corfforol a meddyliol. Mae gan bobl anabl lefelau llawer uwch o iechyd meddwl gwael, a dangoswyd bod gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored o fudd sylweddol i bobl sydd ag iechyd meddwl gwael. Felly mae amddiffyn a gwella mannau fel hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl anabl gan ei fod yn darparu cyfleoedd i wella iechyd corfforol a meddyliol.

**Crynodeb ar Anabledd:**

Felly, bydd polisïau defnydd tir strategol sydd wedi'u hanelu at warchod a gwella mannau hamdden yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bob unigolyn anabl, yn enwedig y rhai sydd hefyd ag anableddau iechyd meddwl neu y mae eu hiechyd meddwl yn wael.

Sylwer: nid oes sôn am hygyrchedd yn y polisi a byddai'r polisïau'n cael eu cryfhau drwy ychwanegu hyn neu ychwanegu polisi ychwanegol sy'n ymwneud â hygyrchedd mannau hamdden, a sicrhau ei fod yn cael ei ystyried yn ofalus ar gyfer mannau hamdden presennol a newydd.

| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys dynion hoyw / deurywiol, merched lesbiaidd / deurywiol, neu bobl heterorywiol | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

| Cyfeiriadedd rhywiol ym Mwrdeistref Sirol Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn | 96,362 | 100.0 |
| Strêt neu Heterorywiol | 85,973 | 89.2 |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 1,330 | 1.4 |
| Deurywiol | 872 | 0.9 |
| Panrywiol | 140 | 0.1 |
| Anrhywiol | 45 | 0.0 |
| Cwiar | 7 | 0.0 |
| Pob cyfeiriadedd rhywiol arall | 9 | 0.0 |
| Heb ateb | 7986 | 8.3 |

Cofnododd y cyfrifiad fod 89.2% o'r boblogaeth yn strêt neu'n heterorywiol yng Nghonwy, 1.4% yn hoyw neu'n lesbiaidd, 0.9% yn ddeurywiol ac roedd 8.3% heb ateb y cwestiwn. Mae cwestiynau sy'n ymwneud â hyn yn fater sensitif ac mae rhai'n teimlo'n anghyfforddus yn ateb y mathau hyn o gwestiynau, sy'n ei gwneud yn anodd mesur neu ddibynnu ar yr ystadegau a gasglwyd. Mae'r Adran Fasnach a Diwydiant yn rhoi rhagamcan swyddogol bod 5-7% o boblogaeth Prydain yn hoyw, lesbiaid, neu'n

ddeurywiol sy'n awgrymu bod rhywfaint wedi'u tanadrodd yng Nghonwy pan gasglwyd y cyfrifiad.

**Polisïau Mannau Hamdden Penodol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

Mae'r polisïau canlynol o fewn pennod Mannau Hamdden y CDLlN yn berthnasol i faterion cydraddoldeb Rhyw:

**RS/1** Mannau Hamdden

**RS/2** Datblygu a Mannau Hamdden

**RS/3** Diogelu Mannau Hamdden Presennol

**RS/4** Mannau Hamdden Newydd

Mae'r polisïau mannau hamdden yn ymwneud â gwella gofod hamdden Conwy, er enghraifft, drwy amddiffyn y gofod hamdden presennol sydd yno ar hyn o bryd a hefyd drwy gynhyrchu mwy o ddefnydd tir ar gyfer mannau hamdden.

Mae mannau hamdden yn fuddiol iawn ar gyfer annog ffordd iach o fyw ac mae'n hyrwyddo ymarfer corff, cerdded a gweithgareddau chwaraeon anffurfiol. Mae hefyd yn annog pobl i gyfarfod mewn mannau agored, sy'n therapiwtig ac yn ysgogi'r meddwl, sydd yn ei dro yn helpu i gadw'n heini ac yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol.

Mae'r polisïau hyn yn fuddiol i bawb ond maen nhw'n arbennig o fuddiol i bobl LHDTC+ gan fod mannau hamdden yn darparu lle i bobl ddod at ei gilydd, cymysgu a bod mewn man agored niwtral gyda'i gilydd. Hyd yn oed os nad ydynt yn cymdeithasu'n uniongyrchol, mae mannau fel hyn yn bwysig iawn ar gyfer hyrwyddo cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau ac maent felly'n bwysig iawn i grwpiau o bobl sydd dan anfantais gymdeithasol,

**Crynodeb ar Rywioldeb:**

Felly, bydd polisïau defnydd tir strategol sydd wedi'u hanelu at warchod a gwella mannau hamdden yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bawb, yn enwedig pobl LHDTC+.

| **Ailbennu Rhywedd**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sy’n bwriadu mynd drwy broses ailbennu rhywedd, wrthi’n mynd neu wedi mynd drwyddi. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

| **Hunaniaeth rhywedd ym Mwrdeistref Sirol Conwy** | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn | 96,362 | 100.0 |
| Hunaniaeth rhywedd 16 oed a hŷn | 89,545 | 92.9 |
| Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i’r rhyw a gofrestrwyd ar yr enedigaeth ond heb nodi unrhyw hunaniaeth benodol | 94 | 0.1 |
| Merch draws | 40 | 0.0 |
| Dyn traws | 58 | 0.1 |
| Anneuaidd | 34 | 0.0 |
| Pob hunaniaeth rhywedd arall | 27 | 0.0 |
| Heb ateb | 6,564 | 6.8 |

Mae’r wybodaeth o ran hunaniaeth rhywedd yn parhau i fod yn gymharol gyfyngedig ac mae’n parhau i fod yn nodwedd warchodedig sy’n cael ei than-adrodd.

Dengys y cyfrifiad bod 0.1% – 94 o bobl yng Nghonwy sydd â hunaniaeth rhywedd sy’n wahanol i’r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni. Roedd 40 yn nodi eu bod yn ferch draws, 58 (0.1%) yn ddyn traws, 34 yn anneuaidd a 27 o blith pob hunaniaeth rhywedd arall.

**Polisïau Mannau Hamdden Penodol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

Mae'r polisïau canlynol o fewn pennod Mannau Hamdden y CDLlN yn berthnasol i faterion cydraddoldeb Ailbennu Rhywedd:

**RS/1** Mannau Hamdden

**RS/2** Datblygu a Mannau Hamdden

**RS/3** Diogelu Mannau Hamdden Presennol

**RS/4** Mannau Hamdden Newydd

Mae'r polisïau mannau hamdden yn ymwneud â gwella gofod hamdden Conwy, er enghraifft, drwy amddiffyn y gofod hamdden presennol sydd yno ar hyn o bryd a hefyd drwy gynhyrchu mwy o ddefnydd tir ar gyfer mannau hamdden.

Mae mannau hamdden yn fuddiol iawn ar gyfer annog ffordd iach o fyw ac mae'n hyrwyddo ymarfer corff, cerdded a gweithgareddau chwaraeon anffurfiol. Mae hefyd yn annog pobl i gyfarfod mewn mannau agored, sy'n therapiwtig ac yn ysgogi’r meddwl, sydd yn ei dro yn helpu i gadw'n heini ac yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl sydd wedi trawsnewid i ryw arall gan fod ymchwil yn dangos lefelau uwch o iselder, gorbryder a straen cyn y cyfnod trawsnewid, yn ystod y cyfnod ac ar ôl trawsnewid.

Mae’r polisïau hyn yn fuddiol i bawb ond maen nhw’n arbennig o fuddiol i bobl sydd wedi trawsnewid i ryw arall gan fod mannau hamdden yn darparu lle i bobl ddod at ei gilydd, cymysgu a bod mewn man agored niwtral gyda’i gilydd. Hyd yn oed os nad ydynt yn cymdeithasu’n uniongyrchol, mae mannau fel hyn yn bwysig iawn ar gyfer hyrwyddo cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau ac maent felly'n bwysig iawn i grwpiau o bobl sydd dan anfantais gymdeithasol,

**<u>Crynodeb ar Ailbennu Rhywedd:</u>**

Felly, bydd polisïau defnydd tir strategol sydd wedi'u hanelu at warchod a gwella mannau hamdden yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bawb, yn enwedig pobl sydd wedi trawsnewid i ryw arall drwy ailbennu rhywedd.

| **Rhyw (Rhywedd)**<br>Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys rhai gwryw neu fenyw – neu grwpiau rhyweddol penodol fel bechgyn neu ferched. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

| Rhyw ym Mwrdeistref Sirol Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Benywod | 59,156 | 51.6 |
| Gwrywod | 55,585 | 48.4 |

Mae'r dadansoddiad o ran rhyw ar draws Conwy yn y cyfrifiad yn dangos bod ychydig yn fwy o ferched na dynion gyda 51.6% o'r boblogaeth yn ferched a 48.4% yn ddynion. Mae hyn yn gyfystyr â 59,156 o ferched a 55,585 o ddynion.

### Disgwyliad Oes a Rhywedd

Conwy

| Blwyddyn | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|
| 1991-93 | 74.4 | 80.2 |
| 1992-94 | 74.6 | 80.3 |
| 1993-95 | 74.4 | 80.1 |
| 1994-96 | 75 | 80.1 |
| 1995-97 | 74.7 | 80 |
| 1996-98 | 74.7 | 80.1 |
| 1997-99 | 74.4 | 79.7 |
| 1998-00 | 74.7 | 80 |
| 1999-01 | 75 | 80.1 |
| 2000-02 | 75.5 | 80.3 |
| 2001-03 | 75.7 | 80.5 |
| 2002-04 | 75.8 | 80.8 |
| 2003-05 | 76.3 | 81.2 |
| 2004-06 | 76.6 | 81.4 |
| 2005-07 | 77 | 81.5 |
| 2006-08 | 77.1 | 81.6 |
| 2007-09 | 77.3 | 81.9 |
| 2008-10 | 78 | 82 |
| 2009-11 | 78.2 | 82.4 |
| 2010-12 | 79 | 82.6 |

Cymru

| Blwyddyn | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|
| 1991-93 | 74.4 | 80.2 |
| 1992-94 | 74.6 | 80.3 |
| 1993-95 | 74.4 | 80.1 |
| 1994-96 | 75.0 | 80.1 |
| 1995-97 | 74.7 | 80.0 |
| 1996-98 | 74.7 | 80.1 |
| 1997-99 | 74.4 | 79.7 |
| 1998-00 | 74.7 | 80.0 |
| 1999-01 | 75.0 | 80.1 |
| 2000-02 | 75.5 | 80.3 |
| 2001-03 | 75.7 | 80.5 |
| 2002-04 | 75.8 | 80.8 |
| 2003-05 | 76.3 | 81.2 |
| 2004-06 | 76.6 | 81.4 |
| 2005-07 | 77.0 | 81.5 |
| 2006-08 | 77.1 | 81.6 |
| 2007-09 | 77.3 | 81.9 |
| 2008-10 | 78.0 | 82.0 |
| 2009-11 | 78.2 | 82.4 |
| 2010-12 | 79.0 | 82.6 |

Cyfrifwyd mai'r disgwyliad oes yng Nghonwy yn 2010–2012 oedd 79 i ddynion ac 82.6 i ferched. Mae hyn hefyd yn cynyddu'n raddol dros amser, wedi codi o 74.4 yn 1991 ar gyfer dynion ac 80.2 ar gyfer merched, sy'n dangos cynnydd mwy o ran disgwyliad oes dynion.

Wrth gymharu'r ystadegau hyn â rhai Cymru, mae'r disgwyliad oes yn uwch ar gyfer dynion a merched o gymharu â Chymru. Mae'r cynnydd i ddisgwyliad oes yn debyg i gyfradd Cymru.

Mae disgwyliad oes, felly, ychydig yn uwch ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghonwy o gymharu â Chymru. Mae'r ffaith bod pobl yn byw'n hirach, yn enwedig yng Nghonwy, yn golygu y bydd mwy o alw ar y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r angen i ymdrin ag anghydraddoldeb ar gyfer pobl hŷn, fel arwahanrwydd ac arwahanrwydd gwledig yn benodol, hyd yn oed yn fwy perthnasol wrth i'r boblogaeth fyw'n hŷn.

**Polisïau Mannau Hamdden Penodol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

Mae'r polisïau canlynol o fewn pennod Mannau Hamdden y CDLlN yn berthnasol i faterion cydraddoldeb Rhywedd:

**RS/1** Mannau Hamdden

**RS/2** Datblygu a Mannau Hamdden

**RS/3** Diogelu Mannau Hamdden Presennol

**RS/4** Mannau Hamdden Newydd

Mae'r polisïau mannau hamdden yn ymwneud â gwella gofod hamdden Conwy, er enghraifft, drwy amddiffyn y gofod hamdden presennol sydd yno ar hyn o bryd a hefyd drwy gynhyrchu mwy o ddefnydd tir ar gyfer mannau hamdden.

Mae mannau hamdden yn fuddiol iawn ar gyfer annog ffordd iach o fyw ac mae'n hyrwyddo ymarfer corff, cerdded a gweithgareddau chwaraeon anffurfiol. Mae hefyd yn annog pobl i gyfarfod mewn mannau agored, sy'n therapiwtig ac yn ysgogi'r meddwl, sydd yn ei dro yn helpu i gadw'n heini ac yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddynion a merched, ond yn arbennig i'r rhai sydd hefyd yn profi heriau iechyd meddwl, fel straen, gorbryder ac iselder y dangosir eu bod yn cynyddu o fewn diwylliant modern. Mae lefelau uchel o iselder er enghraifft i'w gweld ymysg dynion canol oed ifanc, ac mae gweithgareddau fel cerdded a grwpiau siarad yn profi i fod yn hynod o therapiwtig. Mae mannau hamdden yn darparu lle ffisegol i allu gwneud gweithgareddau fel hyn.

**Crynodeb ar Ryw (Rhywedd):**


Felly, bydd polisïau defnydd tir strategol sydd wedi'u hanelu at warchod a gwella mannau hamdden yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddynion a merched, ond yn enwedig y bobl hynny y mae eu hiechyd meddwl yn wael hefyd.

| **Hil**<br><br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys rhai o wahanol ethnigrwydd, cenedligrwydd, hunaniaethau cenedlaethol a lliw croen. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

Er bod y boblogaeth lleiafrifoedd ethnig yn fach, mae'r gan y polisïau o fewn y CDLlN y posibilrwydd i gael effaith sylweddol ar grwpiau lleiafrifol ethnig sy'n byw yng Nghonwy.

Dyma'r wybodaeth ddemograffig am Hil sydd i'w gweld ar gyfer Conwy:

### Ethnigrwydd yng Nghonwy




Y grŵp ethnig mwyaf yw Gwyn sy'n cyfrif am 96.9% o'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd.


Roedd 1.4% o breswylwyr Conwy wedi nodi mai eu grŵp ethnig oedd "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig". Mae hyn wedi cynyddu o 1.1% yn 2011 a fyddai'n awgrymu bod cymuned Asiaidd yn tyfu yng Nghonwy. Y cynnydd hwn oedd y cynnydd mwyaf ymysg grwpiau ethnig lefel uchel yn ardal Conwy. Wrth gymharu hyn ar draws Cymru, mae canran y bobl o grŵp ethnig "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig" wedi cynyddu o 2.3% i 2.9% – cynnydd o 0.6%. Mae'r grŵp Du Caribïaidd neu Affricanaidd yn cynrychioli dim ond 0.2% o'r boblogaeth.

Mae sawl ffactor sy'n gallu cyfrannu at y newid yng nghyfansoddiad ethnig Cymru a Lloegr.  Mae rhai o'r ffactorau hyn yn cynnwys heneiddio, ffrwythlondeb, marwolaeth a mudo.  Wrth i'r categorïau addasu ac wrth i ddiwylliant addasu, gall pobl sy'n llenwi categorïau'r cyfrifiad newid sut maent yn cofnodi eu hethnigrwydd sydd hefyd yn gallu effeithio ar y canlyniadau.

| Ethnigrwydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,743 | 100.0 |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 1,651 | 1.4 |
| Du / Du Cymreig / Du Prydeinig / Caribïaidd / Affricanaidd | 271 | 0.2 |
| Grwpiau ethnig cymysg neu luosog | 1,254 | 1.1 |
| Gwyn | 111,176 | 96.9 |
| Grwpiau ethnig eraill | 391 | 0.3 |

O gyfanswm poblogaeth o 114,743, mae 1,651 o bobl Asiaidd, a 1,254 o bobl o grwpiau ethnig cymysg neu luosog.


## Hunaniaeth Genedlaethol yng Nghonwy




Roedd canran y rhai oedd yn cyfrif eu hunain yn "Gymreig yn unig" wedi cynyddu yng Nghonwy o 0.4 pwynt canran, o 41.6% yn 2011 i 42.0% yn 2021. Mae hyn yn groes i

ostyngiad ar draws gweddill Cymru.   Roedd canran y rhai oedd wedi nodi “Cymreig a Phrydeinig yn unig” yng Nghonwy wedi cynyddu o 4.3% i 5.8%, a chanran y rhai oedd wedi nodi “Prydeinig yn unig” wedi cynyddu o 21.7% i 24.3%.

## Gwlad Enedigol




Mae cynnydd o 0.9% yn y rhai a nododd mai Cymru yw eu gwlad enedigol, o 54.45% yn 2011 i 55.5% yn 2021. Bu gostyngiad yn y gyfran a nododd mai Lloegr yw eu gwlad enedigol hefyd, o 39.7% yn 2011 i 37.9% yn 2021.  Bu cynnydd bychan o 1% yn y rhai a nododd mai eu gwlad enedigol yw Gwlad Pwyl.  Bu gostyngiad bychan yn y rhai a nododd Iwerddon a’r Alban hefyd.

**<u>Polisïau Mannau Hamdden Penodol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd</u>**

Mae'r polisïau canlynol o fewn pennod Mannau Hamdden y CDLlN yn berthnasol i faterion cydraddoldeb Hil:

**RS/1** Mannau Hamdden

**RS/2** Datblygu a Mannau Hamdden

**RS/3** Diogelu Mannau Hamdden Presennol

Mae'r polisïau mannau hamdden yn ymwneud â gwella gofod hamdden Conwy, er enghraifft, drwy amddiffyn y gofod hamdden presennol sydd yno ar hyn o bryd a hefyd drwy gynhyrchu mwy o ddefnydd tir ar gyfer mannau hamdden.


Mae mannau hamdden yn fuddiol iawn ar gyfer annog ffordd iach o fyw ac mae'n hyrwyddo ymarfer corff, cerdded a gweithgareddau chwaraeon anffurfiol. Mae hefyd yn annog pobl i gyfarfod mewn mannau agored, sy'n therapiwtig ac yn ysgogi'r meddwl, sydd yn ei dro yn helpu i gadw'n heini ac yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol.

Mae'r polisïau hyn yn fuddiol i bawb ond maen nhw'n arbennig o fuddiol i bobl o wahanol hil gan fod mannau hamdden yn darparu lle i bobl ddod at ei gilydd, cymysgu a bod mewn man agored niwtral gyda'i gilydd. Hyd yn oed os nad ydynt yn cymdeithasu'n uniongyrchol, mae mannau fel hyn yn bwysig iawn ar gyfer hyrwyddo cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau ac maent felly'n bwysig iawn i grwpiau o bobl sydd dan anfantais gymdeithasol,

**Crynodeb ar Hil:**

Felly, bydd polisïau defnydd tir strategol sydd â'r nod o ddiogelu a gwella mannau hamdden yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl o wahanol hil, gan fod hyn yn annog cymdeithasu llesol mewn mannau agored sy'n helpu i hwyluso cydlyniant cymdeithasol cadarnhaol rhwng gwahanol grwpiau.


| **Crefydd a Chred**<br>Gall y grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys yr holl grwpiau ffydd cydnabyddedig a rhai nad ydynt yn dilyn unrhyw grefydd na system gred | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |




**Crefydd**

| Crefydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy | Nifer | % |
|---|---:|---:|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Dim crefydd | 46,946 | 40.9 |
| Cristion | 58,283 | 50.8 |
| Bwdhydd | 375 | 0.3 |
| Hindŵ | 254 | 0.2 |
| Iddew | 63 | 0.1 |
| Mwslim | 842 | 0.7 |
| Sikh | 33 | 0.0 |
| Crefydd arall | 621 | 0.5 |
| Heb ateb | 7,324 | 6.4 |

Yn 2021, roedd 50.8% wedi nodi eu bod yn Gristnogion – dyma'r categori crefydd a chred mwyaf a gofnodwyd yng Nghonwy.  Roedd y ffigwr hefyd yn uwch o gymharu â Chymru gyfan gyda 45.6% yn nodi eu bod yn Gristnogion. Roedd 40.9% o breswylwyr Conwy wedi nodi "Dim crefydd", sef yr ail gategori mwyaf. Roedd hyn yn is na'r gyfran a nododd "Dim crefydd" trwy Gymru gyfan, sef 46.5%.  Roedd gweddill y categorïau crefydd a chred yn is nag 1%, a chrefydd Islam oedd y mwyaf o blith y rheiny ar 0.7%. Ffigwr Cymru gyfan o ran unigolion oedd yn cyfrif eu hunain yn Fwslimiaid yw 2.2%.




O ran sut mae'r gyfran wedi newid dros amser, yn 2011, roedd 26.1% wedi nodi "Dim crefydd" ac erbyn 2021 roedd wedi cynyddu'n sylweddol i 40.9%. Mae hyn yn gynnydd o 14.9% o 2011 i 2021. Y cynnydd o 14.9 pwynt canran oedd y cynnydd mwyaf ar draws y categorïau crefydd a chred yng Nghonwy.

Ar draws Cymru, roedd canran y preswylwyr a oedd wedi nodi "Dim crefydd" wedi codi o 32.1% i 46.5%. Mae hyn yn gynnydd o 14.4%, sy'n llai na'r cynnydd yng Nghonwy. Dylid nodi, fodd bynnag, fod hwn yn gwestiwn gwirfoddol yn y cyfrifiad felly mae angen trin y wybodaeth yn ofalus, yn enwedig wrth gymharu â gwahanol ardaloedd.

Roedd newid sylweddol yn nifer yr unigolion a oedd wedi nodi eu bod yn Gristnogion hefyd. Yn 2011, roedd 64.7% o boblogaeth Conwy wedi nodi eu bod yn Gristnogion ac roedd hyn wedi gostwng i 50.8% yn 2021 – gostyngiad o 13.9%. Roedd 6.4% heb nodi eu crefydd, sydd wedi gostwng o 7.8% yn 2011.

**Polisïau Mannau Hamdden Penodol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

Mae'r polisïau canlynol o fewn pennod Mannau Hamdden y CDLlN yn berthnasol i faterion cydraddoldeb Crefydd a Chred:

**RS/1** Mannau Hamdden

**RS/2** Datblygu a Mannau Hamdden

**RS/3** Diogelu Mannau Hamdden Presennol

**RS/4** Mannau Hamdden Newydd

Mae'r polisïau mannau hamdden yn ymwneud â gwella gofod hamdden Conwy, er enghraifft, drwy amddiffyn y gofod hamdden presennol sydd yno ar hyn o bryd a hefyd drwy gynhyrchu mwy o ddefnydd tir ar gyfer mannau hamdden.

Mae mannau hamdden yn fuddiol iawn ar gyfer annog ffordd iach o fyw ac mae'n hyrwyddo ymarfer corff, cerdded a gweithgareddau chwaraeon anffurfiol. Mae hefyd yn annog pobl i gyfarfod mewn mannau agored, sy'n therapiwtig ac yn ysgogi’r meddwl, sydd yn ei dro yn helpu i gadw'n heini ac yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol.

Mae’r polisïau hyn yn fuddiol i bawb ond maen nhw’n arbennig o fuddiol i bobl â chredoau crefyddol gan fod mannau hamdden yn darparu lle i bobl ddod at ei gilydd, cymysgu a bod mewn man agored niwtral gyda’i gilydd. Hyd yn oed os nad ydynt yn cymdeithasu’n uniongyrchol, mae mannau fel hyn yn bwysig iawn ar gyfer hyrwyddo cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau ac maent felly'n bwysig iawn i grwpiau o bobl sydd dan anfantais gymdeithasol,

**Crynodeb Crefydd a Chred:**

Felly, bydd polisïau defnydd tir strategol sydd â'r nod o ddiogelu a gwella mannau hamdden yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl o wahanol Grefyddau a chredoau, gan fod hyn yn annog cymdeithasu llesol mewn mannau agored sy'n helpu i hwyluso cydlyniant cymdeithasol cadarnhaol rhwng gwahanol grwpiau.

| **Beichiogrwydd a Mamolaeth**<br>Gallai’r grwpiau sy’n cael eu heffeithio gyn merched beichiog, pobl ar absenoldeb ma a rhai sy’n gofalu am fabi newydd / plentyr | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

### Beichiogrwydd fesul ardal a grŵp oedran 2016

| Ardal | Nifer dan 16 | Cyfradd dan 16 | Nifer dan 18 | Cyfradd dan 18 | Nifer dan 20 | Cyfradd dan 20 | Nifer pob oed | Cyfradd pob oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 174 | 3.65 | 1,061 | 20.93 | 3,288 | 37.24 | 40,327 | 72.06 |
| BILIP Betsi Cadwaladr | Dim data | Dim data | 221 | 19.82 | 749 | 40.21 | 8,854 | 77.07 |
| Ynys Môn | Dim data | Dim data | 18 | 16.89 | 72 | 41.81 | 848 | 80.34 |
| Gwynedd | 6 | 3.39 | 36 | 19.35 | 139 | 36.11 | 1,442 | 66.07 |
| Conwy | Dim data | Dim data | 37 | 19.38 | 116 | 39.28 | 1,304 | 75.56 |
| Sir Ddinbych | 3 | 2.09 | 40 | 25.48 | 117 | 46.84 | 1,194 | 79.44 |
| Sir y Fflint | 9 | 3.57 | 44 | 17.08 | 146 | 35.86 | 2,065 | 77.99 |
| Wrecsam | 4 | 1.90 | 46 | 21.23 | 159 | 45.02 | 2,001 | 84.32 |

*Disgrifiad cyffredinol*

*Mae'r tabl hwn yn darparu data ar y cyfraddau beichiogi sydd wedi arwain at naill ai enedigaeth fyw neu blentyn farw-anedig neu derfynu beichiogrwydd drwy erthyliad cyfreithlon. Amcangyfrifon yw'r ffigurau beichiogi, a gafwyd drwy gyfuno gwybodaeth gofrestru genedigaethau a hysbysu am erthyliadau cyfreithlon. Nid ydynt yn cynnwys colli babi nac erthyliad anghyfreithlon. Amcangyfrifir y dyddiad cenhedlu drwy ddefnyddio cofnod cyfnod beichiogi ar gyfer erthyliadau a babanod marw-anedig a drwy dybio 38 wythnos ar gyfer genedigaethau byw. Mae'r ffigyrau beichiogi yn ymwneud â phreswylwyr mewn ardal. Ffynhonnell:* https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Births-Deaths-and-Conceptions/Conceptions/conceptions-by-area-agegroup

Cyfyngedig yw'r data sydd ar gael mewn perthynas â beichiogrwydd a mamolaeth yng Nghonwy, ond mae data ar gael gan Stats Cymru fel y nodir yn y dyfyniad uchod o 2016. Dengys y data bod cofnod o 1,304 o ferched yn feichiog yn 2016. Mae hyn yn gyfystyr â 75.6 fesul 1,000 o ferched yn feichiog. O gymharu ar lefel Cymru, mae'r cyfraddau beichiogi yn uwch nag yng Ngwynedd sy'n 66.1 yn feichiog fesul 1,000 o ferched, ond yn is nag yn Sir Ddinbych (79.4 fesul 1,000 o ferched), Sir y Fflint (78 fesul 1,000 o ferched) a Wrecsam (84.3 fesul 1000 o ferched).

Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yn Lloegr oedd 1.62 plentyn fesul merch yn 2021, oedd yn gynnydd o 1.9% o 1.59 yn 2020. Roedd cyfradd ffrwythlondeb is yng Nghymru,

gydag 1.49 plentyn fesul merch yn 2021, y cynnydd blynyddol cyntaf yn y gyfradd ers tair blynedd.

**Polisïau Mannau Hamdden Penodol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

Mae'r polisïau canlynol o fewn pennod Mannau Hamdden y CDLlN yn berthnasol i faterion cydraddoldeb Beichiogrwydd a Mamolaeth:

**RS/1** Mannau Hamdden

**RS/2** Datblygu a Mannau Hamdden

**RS/3** Diogelu Mannau Hamdden Presennol

**RS/4** Mannau Hamdden Newydd

Mae'r polisïau mannau hamdden yn ymwneud â gwella gofod hamdden Conwy, er enghraifft, drwy amddiffyn y gofod hamdden presennol sydd yno ar hyn o bryd a hefyd drwy gynhyrchu mwy o ddefnydd tir ar gyfer mannau hamdden.

Mae mannau hamdden yn fuddiol iawn ar gyfer annog ffordd iach o fyw ac mae'n hyrwyddo ymarfer corff, cerdded a gweithgareddau chwaraeon anffurfiol.  Mae hefyd yn annog pobl i gyfarfod mewn mannau agored, sy'n therapiwtig ac yn ysgogi'r meddwl, sydd yn ei dro yn helpu i gadw'n heini ac yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol.


Mae'r polisïau hyn yn fuddiol i bawb ond maen nhw'n arbennig o fuddiol i bobl â chredoau crefyddol gan fod mannau hamdden yn darparu lle i bobl ddod at ei gilydd, cymysgu a bod mewn man agored niwtral gyda'i gilydd.  Hyd yn oed os nad ydynt yn cymdeithasu'n uniongyrchol, mae mannau fel hyn yn bwysig iawn ar gyfer hyrwyddo cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau ac maent felly'n bwysig iawn i grwpiau o bobl sydd dan anfantais gymdeithasol,

**Crynodeb Beichiogrwydd a Mamolaeth:**

Felly, bydd polisïau defnydd tir strategol sydd â'r nod o ddiogelu a gwella mannau hamdden yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y nodwedd warchodedig hon, gan fod hyn yn annog cymdeithasu llesol mewn mannau agored sy'n helpu i hwyluso


cydlyniant cymdeithasol cadarnhaol rhwng gwahanol grwpiau yn ogystal â chadw mamau beichiog a'r rhai sydd newydd gael babi, yn iach ac yn egnïol.

| **Priodas a Phartneriaeth Sifil**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sydd mewn partneriaeth gyfreithiol ffurfiol – o'r un rhyw a'r rhyw arall | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |




| **Statws Partneriaeth Gyfreithiol ym Mwrdeistref Sirol Conwy** | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn | 96,366 | 100.0 |
| Erioed wedi priodi na chofrestru mewn partneriaeth sifil | 31,279 | 32.5 |
| Priod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 43,990 | 45.6 |
| Priod | 43,791 | 45.4 |
| Mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 199 | 0.2 |
| Wedi gwahanu, ond yn dal wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil yn gyfreithi | 2,061 | 2.1 |
| Wedi ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil | 10,732 | 11.1 |
| Gweddw neu bartner sifil sy'n fyw | 8,304 | 8.6 |

Mae cyfrifiad 2021 yn dangos bod 45.7% yn nodi eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil. 0.2% (199) o'r boblogaeth wedi nodi eu bod wedi'u cofrestru mewn partneriaeth sifil gyda 45.6% (43,791) wedi priodi.




Mae newidiadau wedi bod ers cyfrifiad 2011. Roedd 28.9% o breswylwyr Conwy sy'n 16 oed a hŷn, wedi nodi nad oeddent erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn 2011 ac roedd hyn wedi cynyddu 3.6% i 32.5% yn 2021.

Roedd nifer yr unigolion a nododd eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil wedi gostwng 2.9% o 48.5% yn 2011 i 45.6% yn 2021.

Roedd canran yr oedolion yng Nghonwy a oedd wedi ysgaru neu wedi diddymu partneriaeth sifil hefyd wedi cynyddu o 10.6% yn 2011 i 11.1% yn 2021.

Roedd y cynnydd o ran canran y rhai 16 oed a hŷn a oedd erioed wedi priodi neu wedi bod mewn partneriaeth sifil yng Nghonwy (3.6 pwynt canran) yn debyg i'r cynnydd yng Ngwynedd (3.6 pwynt canran).  Yng Ngwynedd, roedd y ganran wedi cynyddu o 36.4% yn 2011 i 40.1% yn 2021, ac yng Nghymru gyfan roedd y ganran wedi cynyddu o 33.5% i 37.2%.

Felly, mae canran yr unigolion sydd erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn is na ffigwr Cymru gyfan ac yn is na Gwynedd.

Efallai bod cynnwys priodasau o'r un rhyw a phartneriaethau sifil lle nad yw'r ddau o'r un rhyw yn 2021 wedi effeithio ar y ffigyrau hyn, gan nad oedd yr un o'r rhain yn cael eu cydnabod yn gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn 2011.

**Polisïau Mannau Hamdden Penodol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

Mae'r polisïau canlynol o fewn pennod Mannau Hamdden y CDLlN yn berthnasol i faterion cydraddoldeb Priodas a Phartneriaeth Sifil:

**RS/1** Mannau Hamdden

**RS/2** Datblygu a Mannau Hamdden

**RS/3** Diogelu Mannau Hamdden Presennol

**RS/4** Mannau Hamdden Newydd

Mae'r polisïau mannau hamdden yn ymwneud â gwella gofod hamdden Conwy, er enghraifft, drwy amddiffyn y gofod hamdden presennol sydd yno ar hyn o bryd a hefyd drwy gynhyrchu mwy o ddefnydd tir ar gyfer mannau hamdden.

Mae mannau hamdden yn fuddiol iawn ar gyfer annog ffordd iach o fyw ac mae'n hyrwyddo ymarfer corff, cerdded a gweithgareddau chwaraeon anffurfiol.  Mae hefyd yn annog pobl i gyfarfod mewn mannau agored, sy'n therapiwtig ac yn ysgogi'r meddwl, sydd yn ei dro yn helpu i gadw'n heini ac yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol.

Mae'r polisïau hyn yn fuddiol i bawb ond maen nhw'n arbennig o fuddiol o ran darparu lle i bobl ddod at ei gilydd, cymysgu a bod mewn man agored niwtral gyda'i gilydd, sy'n dda ar gyfer creu perthnasau cadarnhaol.  Hyd yn oed os nad ydynt yn cymdeithasu'n uniongyrchol, mae mannau fel hyn yn bwysig iawn ar gyfer hyrwyddo cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau ac maent felly'n bwysig iawn i grwpiau o bobl sydd dan anfantais gymdeithasol,

**Crynodeb Priodas a Phartneriaethau Sifil:**

Felly, bydd polisïau defnydd tir strategol sydd wedi'u hanelu at warchod a gwella mannau hamdden yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y nodwedd warchodedig hon.

# 3. Grwpiau Cynhwysiant

Dylai'r gwasanaethau rydym ni'n eu comisiynu fod ar gael i bawb a bod mor gynhwysol â phosibl. Dylai eich cynnig hefyd roi ystyriaeth i unrhyw grwpiau eraill yn y boblogaeth sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol (neu mewn perygl o fod). Gall hyn gynnwys gofalwyr, pobl sy'n ddigartref, rhai sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gweithwyr rhyw a llawer o grwpiau eraill sydd wedi'u gwthio at gyrion cymdeithas.

Meddyliwch pa grwpiau cynhwysiant eraill allai gael eu heffeithio can eich cynnig. Dewiswch o'r ddewislen ym mhob adran isod neu nodi pa grwpiau eraill sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol yr ydych chi'n eu hystyried. Dewiswch y tabl a chlicio'r symbol '+' glas ar waelod ochr dde'r tabl i ychwanegu mwy o adrannau os oes angen.

# 4. Cydymffurfio â Dyletswyddau Cyfreithiol

**A yw'r sefydliad wedi rhoi sylw dyledus ac ystyriaeth i'r meysydd canlynol?**

### Cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon **YDY ☑ / NAC YDY ☐**

Gwahaniaethu anghyfreithlon yw trin pobl yn 'llai ffafriol' gan fod ganddynt nodwedd warchodedig.

## Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt. **YDY☑ / NAC YDY☐**

Mae hyn yn golygu sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gallu manteisio ar gyfleoedd ac adnoddau'n gyfartal.

## Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt. **YDY☑ / NAC YDY☐**

Mae hyn yn golygu creu amgylchedd cydlynol a chynhwysol i bawb drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth o wahaniaethau.

## A oes unrhyw bryderon o ran Hawliau Dynol? **OES☐ / NAC OES☑**

Os ateboch chi '**OES**', gofynnwch am gyngor gan y Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant i drafod cynnal Asesiad Hawliau Dynol penodol

## Darparwch adroddiad ategol i gefnogi eich atebion i'r cwestiynau uchod: **Rhaid llenwi'r rhan hon**

**Mae hwn yn asesiad o bolisïau Mannau Hamdden y CDLlN sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth cydraddoldeb.**

**Mae'r asesiad wedi ystyried perthnasoedd y polisïau cynllunio strategol arfaethedig ar y gwahanol nodweddion gwarchodedig drwy ystyried yn ofalus sut y bydd yn cael effaith ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae'r polisïau hyn yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol y gymuned leol drwy ddiogelu mannau hamdden sy'n darparu isadeiledd ar gyfer dod â chymunedau at ei gilydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y nodweddion gwarchodedig a 3 agwedd y ddyletswydd gyffredinol, yn enwedig yr un sy'n ymwneud â meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau. Bydd y polisi hwn yn cyfrannu'n sylweddol at wella'r berthynas rhwng gwahanol grwpiau ac felly mae ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i holl agweddau'r ddyletswydd gyffredinol.**

**Sylwer: Byddai'r polisïau'n cael eu gwella gyda chyfeiriadau mwy amlwg at**

**hygyrchedd mannau hamdden.  Nid yw hyn yn amlwg o fewn y polisi presennol a byddai o gymorth yn benodol i ddatblygu mannau hamdden newydd, sy’n hygyrch i bobl anabl, er enghraifft, offer chwarae hygyrch i blant anabl.**

# Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

## Templed Cam 2 ar gyfer Gwasanaethau, Polisïau a Swyddogaethau

Teitl y Gwasanaeth / Polisi / Swyddogaeth:

**Canolfannau manwerthu a masnachol - Cynllun Blaen Siopau a Diogelwch**

Dyddiad Cwblhau: 14/05/2025

# 1. Trosolwg o'r Asesiad

**Crynodeb o wybodaeth am y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy'n cael ei asesu:**

**Amcan Strategol 3 Canolfannau Manwerthu a Masnachol**: Cyflawni canolfannau masnachol a thref ffyniannus, ddeniadol a hyfyw yng Nghonwy drwy ailddiffinio eu rôl a thrwy annog amrywiaeth o weithgareddau a defnydd.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu strategaeth a pholisïau clir ar gyfer datblygiad manwerthu drwy eu cynlluniau datblygu, sy'n ceisio cyflawni canolfannau manwerthu a masnachol bywiog, deniadol a hyfyw. Dylent osod fframwaith ar gyfer dyfodol canolfannau manwerthu a masnachol yn eu hardal sy'n hybu sector manwerthu llwyddiannus gan gefnogi cymunedau presennol. Mae'r canllawiau'n amlinellu'r amcanion canlynol ar gyfer canolfannau manwerthu a masnachol:

Hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol trefol a gwledig hyfyw fel y lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a chynnal busnes;

- Cynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl canolfannau manwerthu a masnachol; a
- Gwella mynediad at, ac o fewn, canolfannau manwerthu a masnachu drwy bob math o drafnidiaeth, yn enwedig cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Dylai defnyddiau Manwerthu A1 (siopau) barhau i fod yn sail i ganolfannau manwerthu a masnachol, ond dylai polisïau lleol annog amrywiaeth yn y canolfannau, gan gynnwys gwasanaethau ariannol a phroffesiynol (A2), bwyd a diod (A3), swyddfeydd (B1), gwestai (C1), sefydliadau addysgol ac amhreswyl eraill (D1), hamdden (D2) a defnyddiau sui generis penodol eraill fel theatrau a thai golchi. Dylid annog datblygiadau defnydd cymysg. Mae defnydd hamdden hefyd yn briodol os caiff amwynder cyfagos ei ddiogelu'n briodol.

**<u>Polisïau Penodol sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad</u>**

Mae nifer o bolisïau wedi'u cynnwys o fewn y **Canolfannau Manwerthu a Masnachol.** Fodd bynnag, dim ond un o'r polisïau hynny sydd wedi'i gynnwys o fewn y bennod hon a asesir yn berthnasol i'r Gyfraith Cydraddoldeb, sef y polisi penodol canlynol:

**RTC/6 Cynllun Blaen Siopau a Diogelwch**

**Beth yw nodau ac amcanion y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy'n cael ei asesu?**

Mae blaenau siopau yn hanfodol wrth ffurfio cymeriad ac ymddangosiad ffryntiadau siopau. Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais sylweddol ar flaenau siopau sydd wedi'u cynllunio'n addas ac yn hygyrch, nid yn unig i gadw cymeriad adeiladau, ond hefyd i gadw atyniad cyffredinol strydoedd ac i gynnal eu hyfywedd masnachol. Gall datblygiadau amhriodol gael effaith andwyol ddifrifol nid yn unig ar yr adeilad ond hefyd ar olygfa'r stryd, a photensial masnachu'r stryd.

Mae cwsmeriaid a pherchnogion siop fel ei gilydd yn elwa os caiff amgylchedd y stryd ei wella gan flaenau siopau sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn hygyrch ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Mewn pentrefi bydd yn bwysig parchu cymeriad presennol y stryd a'r pentref, tra mewn canolfannau siopa mawr o fewn yr aneddiadau trefol, bydd y pwyslais ar greu a chynnal amgylchedd bywiog o ansawdd. Dylid cydnabod y gall llawer o flaenau siopau fod yn adeiladau rhestredig ac wedi'u lleoli o fewn Ardaloedd Cadwraeth dynodedig.

Dylid darparu lle bo modd ar gyfer mynediad hawdd i bobl ag anableddau yn ogystal â phramiau a chadeiriau gwthio. Dylai drysau a mynedfeydd fod yn lefel a/neu gyda ramp ac yn ddigon llydan i gael mynediad. Lle mae adeilad wedi'i restru, bydd cynigion yn cael eu barnu ar eu rhinweddau eu hunain, gan efallai na fydd yn bosibl creu mynediad llawn lefel heb effeithio'n andwyol ar gymeriad yr adeilad neu'r ffabrig hanesyddol sydd wedi goroesi. Mae cyngor mewn perthynas â mynediad cynhwysol wedi'i gynnwys yn Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol hefyd yn cael eu drafftio i gefnogi'r polisi hwn.

# 2. Asesiad o Effaith

Dylai'r adran hon gofnodi unrhyw effeithiau sydd wedi'u dynodi, neu rai posib', ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, grwpiau sy'n profi anghydraddoldeb, a grwpiau eraill sydd mewn perygl o brofi gwaeth canlyniadau. Dylid cofnodi effeithiau

cadarnhaol a negyddol ar bob un o'r grwpiau sydd wedi'u diffinio isod lle bo hynny'n berthnasol.


**Meddyliwch am unrhyw rwystrau i fynediad, meysydd o anghydraddoldeb, a sut y gallai gwahanol grwpiau fod wedi'u heffeithio'n anghyfartal gan y cynnig hwn. I'r gwrthwyneb, meddyliwch sut y gallai grwpiau penodol elwa neu weld gwell canlyniadau o ganlyniad i'r cynnig.**


### Nodweddion Gwarchodedig

| **Oedran**<br>Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn neu'r boblogaeth sydd o oed gweithio. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |


**Demograffeg oedran Conwy**

Dyma'r ddemograffeg sydd i'w gweld yng Nghonwy (ac mae angen eu hystyried o fewn dyluniad polisi'r CDLlN).






Ers cyfrifiad 2011, mae newid amlwg wedi bod wrth i'r grŵp oedran mwyaf newid o'r categori 45–49 i 55–59.




Mae hyn yn dangos bod 'ymchwydd' o boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghonwy (yn yr un modd â gweddill y DU) sy'n nesáu at y grwpiau oedran hŷn o 65 a hŷn. Mae'n bwysig nodi hyn gan mai'r grwpiau dros 65 oed yw'r rhai lle mae iechyd yn tueddu i ddirywio a materion amddifadedd cymdeithasol a thlodi yn tueddu i gynyddu, gan arwain at gynnydd o ran anghydraddoldeb.  Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau cymorth llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd.

Mae cynnydd yn y boblogaeth hŷn a fydd angen mathau penodol o gludiant o ganlyniad, er enghraifft, mwy o ddibyniaeth ar yr isadeiledd cludiant lleol.  Mae hefyd yn debygol y bydd defnydd uwch o gadeiriau olwyn a sgwteri symudedd ac mae gan flaenau siopau effaith ar eu defnydd - gan fod blaenau siop orlawn yn creu rhwystrau ar gyfer eu defnydd.

Mae cynnydd hefyd yn y categori oedran 25–34 ac mae'r cynnydd hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae'n amlwg felly fod hon yn boblogaeth o oed ôl-ymddeol sy'n uwch na gweddill Cymru, ac mae Conwy yn enwog am fod yn ardal lle mae pobl yn dod i ymddeol iddi.

Mae cyfran uwch o henoed ym mhoblogaeth Conwy hefyd, felly mae mwy o alw am gludiant cyhoeddus a darpariaeth arall o gludiant i rai nad ydynt yn gallu gyrru, er enghraifft, tacsis neu wasanaethau fel deialu a theithio.

O gymharu â gweddill Cymru, mae lefelau llawer is o boblogaeth ar gyfer pob grŵp oedran hyd at 45 oed.  O ran preswylwyr o oed gweithio felly (16–65 oed), mae'r gyfran yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a'r DU.

Mae ymchwydd yn y boblogaeth yn heneiddio'n gyflym ac fel mae'r grŵp oedran wedi tyfu ers y cyfrifiad diwethaf.  Bydd angen i'r CDLlN roi ystyriaeth i hyn yn ei ddyluniad polisi.

Mae demograffeg oedran Conwy'n dangos mai'r grŵp oedran mwyaf yw 50–64 oed, sy'n 22.5% o'r boblogaeth gyfan.  Fe gynyddodd hyn o 20.9% o'r boblogaeth i 22.5% o 2020 i 2021 hefyd, felly mae'r grŵp oedran yn tueddu i dyfu o ran cyfran.  Fel y nodwyd, pan fydd yr ymchwydd hwn yn y boblogaeth yn heneiddio, bydd materion cydraddoldeb amlwg i'w hystyried yng Nghonwy ac mae angen i'r CDLlN baratoi ar gyfer hynny yn y drafft cyfredol.

Mae allfudiad o rai 18–24 oed hefyd, sy'n effeithio ar ddemograffeg Conwy, ac mae angen i'r CDLlN ystyried sut y gall tai gyfrannu at liniaru'r allfudo hwn.  Er bod ystadegau'n dangos bod poblogaeth y grŵp oedran hwnnw wedi cynyddu, mae'r allfudo'n parhau

**Crynodeb ar Oedran:**

Mae poblogaeth sy'n heneiddio o fewn Conwy ac mae cyfran fawr o'r boblogaeth yn hŷn.

Felly mae polisïau fel hyn yn bwysig iawn i bobl hŷn sy'n dod yn llai abl yn gorfforol wrth iddynt fynd yn hŷn, ac felly yn fwy dibynnol ar adeiladau sy'n hygyrch a gwasanaethau stryd sy'n glir a hygyrch er mwyn gallu cael mynediad atynt.

Mae sgwteri symudedd a chadeiriau olwyn, er enghraifft, yn dod yn rhywbeth mae pobl hŷn yn fwy dibynnol arnynt (o'i gymharu â grwpiau oed iau) er mwyn cynnal symudedd wrth fynd yn hŷn.  Mae drysau a blaenau siop orlawn ac anhygyrch yn ogystal â strydoedd gorlawn tu allan i siopau yn cael effaith sylweddol ar unrhyw un sy'n defnyddio sgwter symudedd, neu gadair olwyn, a gall achosi rhannau o'r stryd i ddod yn anhygyrch o ganlyniad i hynny.

Bydd y polisi sydd wedi'i anelu at reoli hyn, felly'n cael effaith cadarnhaol sylweddol ar bobl hŷn gan ei fod yn nodi gofynion ar gyfer cadw blaenau siop yn glir a hygyrch.

**Noder:** Ychydig iawn o fanylion sydd o fewn y polisi hwn a byddai'r polisi yn elwa o ehangu ar yr angen am flaenau siop hygyrch, a phalmentydd stryd hygyrch tu allan i flaenau siop.  Mae nodyn y bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu llunio i gefnogi hyn a dyma lle gallai gwybodaeth fwy technegol gael ei roi o ran disgwyliadau o'r paramedrau derbynion i fodloni gofynion y polisi hwn.

| **Anabledd**<br><br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys pobl sydd ag anableddau corfforol / dysgu, cyflyrau hirdymor, neu iechyd meddwl gwael | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |


Mae gan y Polisi Cynllun Blaen Siopau a Diogelwch y CDLlN y potensial i gael effaith sylweddol ar bobl anabl, felly rhaid ystyried yn ofalus yr hyn sydd ynddo a'r hyn sydd heb ei gynnwys.

Mae 22% o'r boblogaeth sy'n anabl, sy'n cyd-fynd â'r lefelau ar hyd a lled Cymru. Felly mae 22% o'r boblogaeth a all gael eu heffeithio gan y Polisi hwn.

| **Problemau iechyd hirdymor neu anableddau yn Sir Conwy** | **Unigolion (Nifer)** | **Unigolion (%)** |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: cyfyngu'n helaeth ar weithgareddau dydd i ddydd | 11,920 | 10.4 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: cyfyngu ychydig ar weithgareddau dydd i ddydd | 14,024 | 12.2 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor ond heb gyfyngu ar weithgareddau dydd i ddydd | 7,673 | 6.7 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: dim cyflyrau iechyd corfforol na meddyliol hirdymor | 81,124 | 70.7 |

Roedd 22.6% o bobl yng Nghonwy wedi nodi eu bod yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghyfrifiad 2021. Mae hyn yn gyfystyr â 33,617 o bobl a mwy nag 1 o bob 5 o bobl yn anabl. Mae angen ystyried hyn yn ofalus wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus ac mae angen i'r CDLlN ystyried yr ystadegyn yma'n ofalus.

O'r rhai sy'n eu cyfrif eu hunain yn anabl, nododd 11,920 fod eu gweithgareddau dydd i ddydd wedi'u cyfyngu'n helaeth – mae hyn yn 10% o bobl yn ystyried eu hunain yn anabl lle bo'u gweithgareddau wedi'u cyfyngu'n helaeth.




Yn 2021, roedd 9.2% o breswylwyr Conwy wedi nodi eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu'n helaeth. Roedd y ffigwr wedi gostwng o 10.4% yn 2011. Roedd y gostyngiad yng nghyfran y preswylwyr a nododd eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu'n helaeth yn fwy yng Ngwynedd (1.7 pwynt canran) nag yng Nghonwy (1.2 pwynt canran). Yng Ngwynedd, gostyngodd y gyfran o 9.4% yn 2011 i 7.7% yn 2021.

Yn 2021, roedd ychydig mwy nag un o bob naw o bobl (11.3%) yn anabl ac wedi'u cyfyngu ychydig, o gymharu â 10.8% yn 2011.

Mae'r ystadegau uchod yn nodi'n glir fod poblogaeth Conwy'n cynnwys nifer uchel o breswylwyr ag anableddau a/neu salwch hirdymor cyfyngol.

**<u>Crynodeb ar Anabledd:</u>**

Mae nifer sylweddol o bobl sy'n anabl o fewn poblogaeth Conwy, a bydd hyn yn cynyddu wrth i'r chwydd yn y boblogaeth o fewn Conwy fynd yn hŷn.

Mae sgwteri symudedd a chadeiriau olwyn yn rhywbeth y mae nifer o bobl anabl yn dibynnu arnynt er mwyn cynnal symudedd. Mae drysau a blaenau siop orlawn ac anhygyrch yn ogystal â strydoedd gorlawn tu allan i siopau yn cael effaith sylweddol ar unrhyw un sy'n defnyddio sgwter symudedd, neu gadair olwyn, a gall achosi

rhannau o’r stryd i ddod yn anhygyrch o ganlyniad i hynny. Gall hyn gael effaith andwyol sylweddol ar fywydau pobl anabl.

Bydd y polisi felly’n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl hŷn anabl gan ei fod yn nodi gofynion.

**Noder:** Ychydig iawn o fanylion sydd o fewn y polisi hwn a byddai’r polisi yn elwa o ehangu ar yr angen am flaenau siop hygyrch, a phalmentydd stryd hygyrch tu allan i flaenau siop. Mae nodyn y bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu llunio i gefnogi hyn a dyma lle gallai gwybodaeth fwy technegol gael ei roi o ran disgwyliadau o’r paramedrau derbynion i fodloni gofynion y polisi hwn.

| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>Gallai’r grwpiau sy’n cael eu heffeithio gynnwys dynion hoyw / deurywiol, merched lesbiaidd / deurywiol, neu bobl heterorywiol | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan flaenau siop unrhyw berthnasedd i gyfeiriadedd rhywiol ac felly mae’r effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir yn niwtral.

| **Ailbennu Rhywedd**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sy’n bwriadu mynd, wrthi’n mynd neu wedi mynd drwy broses ailbennu rhywedd. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan flaenau siop unrhyw berthnasedd i ailbennu rhywedd ac felly mae’r effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir yn niwtral.

| **Rhyw (Rhywedd)**<br>Gallai grwpiau sy’n cael eu heffeithio gynnwys rhai gwryw neu fenyw – neu grwpiau rhyweddol penodol fel bechgyn neu ferched. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan flaenau siop unrhyw berthnasedd i wahaniaethau rhyw ac felly mae’r effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir yn niwtral.

| **Hil** | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| Gallai’r grwpiau sy’n cael eu heffeithio gynnwys rhai o wahanol ethnigrwydd, cenedligrwydd, hunaniaethau cenedlaethol a lliw croen. | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan flaenau siop unrhyw berthnasedd i hil ac felly mae’r effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir yn niwtral.

| **Crefydd a Chred** | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| Gall y grwpiau sy’n cael eu heffeithio gynnwys yr holl grwpiau ffydd cydnabyddedig a rhai nad ydynt yn dilyn unrhyw grefydd na system gred | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan flaenau siop unrhyw berthnasedd i Grefydd a Chred ac felly mae’r effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir yn niwtral.

| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| Gallai’r grwpiau sy’n cael eu heffeithio gyn merched beichiog, pobl ar absenoldeb ma a rhai sy’n gofalu am fabi newydd / plentyr | ☑ | ☐ | ☐ |

Mae’r wybodaeth ganlynol ar gael ar feichiogrwydd a mamolaeth o fewn Conwy.

## Beichiogrwydd fesul ardal a grŵp oedran 2016

| Ardal | Nifer dan 16 | Cyfradd dan 16 | Nifer dan 18 | Cyfradd dan 18 | Nifer dan 20 | Cyfradd dan 20 | Nifer pob oed | Cyfradd pob oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 174 | 3.65 | 1,061 | 20.93 | 3,288 | 37.24 | 40,327 | 72.06 |
| BILlP Betsi Cadwaladr | Dim data | Dim data | 221 | 19.82 | 749 | 40.21 | 8,854 | 77.07 |
| Ynys Môn | Dim data | Dim data | 18 | 16.89 | 72 | 41.81 | 848 | 80.34 |
| Gwynedd | 6 | 3.39 | 36 | 19.35 | 139 | 36.11 | 1,442 | 66.07 |
| Conwy | Dim data | Dim data | 37 | 19.38 | 116 | 39.28 | 1,304 | 75.56 |
| Sir Ddinbych | 3 | 2.09 | 40 | 25.48 | 117 | 46.84 | 1,194 | 79.44 |
| Sir y Fflint | 9 | 3.57 | 44 | 17.08 | 146 | 35.86 | 2,065 | 77.99 |
| Wrecsam | 4 | 1.90 | 46 | 21.23 | 159 | 45.02 | 2,001 | 84.32 |

***Disgrifiad cyffredinol***

*Mae’r tabl hwn yn darparu data ar y cyfraddau beichiogi sydd wedi arwain at naill ai enedigaeth fyw neu blentyn farw-anedig neu derfynu beichiogrwydd drwy erthyliad cyfreithlon. Amcangyfrifon yw’r ffigurau beichiogi, a gafwyd drwy gyfuno gwybodaeth gofrestru genedigaethau a hysbysu am erthyliadau cyfreithlon. Nid ydynt yn cynnwys colli babi nac erthyliad anghyfreithlon. Amcangyfrifir y dyddiad cenhedlu drwy ddefnyddio cofnod cyfnod beichiogi ar gyfer erthyliadau a babanod marw-anedig a drwy dybio 38 wythnos ar gyfer genedigaethau byw. Mae’r ffigyrau beichiogi yn ymwneud â phreswylwyr mewn ardal. Ffynhonnell:* https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Births-Deaths-and-Conceptions/Conceptions/conceptions-by-area-agegroup

Cyfyngedig yw’r data sydd ar gael mewn perthynas â beichiogrwydd a mamolaeth yng Nghonwy, ond mae data ar gael gan Stats Cymru fel y nodir yn y dyfyniad uchod o 2016. Dengys y data bod cofnod o 1,304 o ferched yn feichiog yn 2016. Mae hyn yn gyfystyr â 75.6 fesul 1,000 o ferched yn feichiog. O gymharu ar lefel Cymru, mae’r cyfraddau beichiogi yn uwch nag yng Ngwynedd sy’n 66.1 yn feichiog fesul 1,000 o ferched, ond yn is nag yn Sir Ddinbych (79.4 fesul 1,000 o ferched), Sir y Fflint (78 fesul 1,000 o ferched) a Wrecsam (84.3 fesul 1000 o ferched).

Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yn Lloegr oedd 1.62 plentyn fesul merch yn 2021, oedd yn gynnydd o 1.9% o 1.59 yn 2020. Roedd cyfradd ffrwythlondeb is yng Nghymru, gydag 1.49 plentyn fesul merch yn 2021, y cynnydd blynyddol cyntaf yn y gyfradd ers tair blynedd.

**Crynodeb Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Mae'r nodwedd warchodedig hon yn berthnasol i'r polisi hwn gan fod mynediad i bramiau a bod yn llai symudol yn sgil beichiogrwydd, oll yn cael effaith ar y gallu i gael mynediad at siopa ac amwynderau lleol yn ystod beichiogrwydd a hefyd ar ôl rhoi genedigaeth.

Mae'r polisi hwn yn benodol ar gyfer cadw blaenau siop yn hygyrch ac felly bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y grŵp hwn.

| **Priodas a Phartneriaeth Sifil**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sydd mewn partneriaeth gyfreithiol ffurfiol – o'r un rhyw a'r rhyw arall | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan flaenau siop unrhyw berthnasedd i Briodas a Phartneriaeth Sifil ac felly mae'r effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir yn niwtral.

# 3. Grwpiau Cynhwysiant

Dylai'r gwasanaethau rydym ni'n eu comisiynu fod ar gael i bawb a bod mor gynhwysol â phosib'. Dylai eich cynnig hefyd roi ystyriaeth i unrhyw grwpiau eraill yn y boblogaeth sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol (neu mewn perygl o fod). Gall hyn gynnwys gofalwyr, pobl sy'n ddigartref, rhai sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gweithwyr rhyw a llawer o grwpiau eraill sydd wedi'u gwthio at gyrion cymdeithas.

Meddyliwch pa grwpiau cynhwysiant eraill allai gael eu heffeithio can eich cynnig. Dewiswch o'r ddewislen ym mhob adran isod neu nodi pa grwpiau eraill sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol yr ydych chi'n eu hystyried. Dewiswch y tabl a chlicio'r symbol '+' glas ar waelod ochr dde'r tabl i ychwanegu mwy o adrannau os oes angen.

# 4. Cydymffurfio â Dyletswyddau Cyfreithiol

**A yw'r sefydliad wedi rhoi sylw dyledus ac ystyriaeth i'r meysydd canlynol?**

**Cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon YDY ☑ / NAC YDY ☐**

Gwahaniaethu anghyfreithlon yw trin pobl yn 'llai ffafriol' gan fod ganddynt nodwedd warchodedig.

**Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt. YDY ☑ / NAC YDY ☐**

Mae hyn yn golygu sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gallu manteisio ar gyfleoedd ac adnoddau'n gyfartal.

**Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt. YDY ☑ / NAC YDY ☐**

Mae hyn yn golygu creu amgylchedd cydlynol a chynhwysol i bawb drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth o wahaniaethau.

**A oes unrhyw bryderon o ran Hawliau Dynol? OES ☐ / NAC OES ☑**

Os ateboch chi '**Oes**', gofynnwch am gyngor gan y Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant i drafod cynnal Asesiad Hawliau Dynol penodol

## Darparwch adroddiad ategol i gefnogi eich atebion i’r cwestiynau uchod: **Rhaid llenwi’r rhan hon**

**Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl hŷn, pobl anabl a merched beichiog yn ogystal â merched sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar.**

**Mae’n nodi’r gofynion ar gyfer datblygu blaenau siop a bydd hyn yn dangos sylw dyledus cadarnhaol i’r 3 rhan o ddyletswydd gyffredinol a restrir uchod. Mae pwyntiau lle gall y polisi gael ei gryfhau ac mae hyn wedi’i nodi o fewn yr asesiad, ond ar y cyfan, mae sylw dyledus wedi cael ei ddefnyddio’n effeithiol.**

# Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

## Templed Cam 2 ar gyfer Gwasanaethau, Polisïau a Swyddogaethau

Teitl y Gwasanaeth / Polisi / Swyddogaeth:

**Cludiant**

Dyddiad Cwblhau: 14/05/2025

# 1. Trosolwg o'r Asesiad

## Crynodeb o wybodaeth am y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy'n cael ei asesu:

Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i sut yr eir i'r afael â thargedau Llywodraeth Cymru o allyriadau sero net erbyn 2050 ynghyd â theithio llesol, isadeiledd gwyrdd a chludo nwyddau ar lefel leol yng Nghonwy. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig wedi cynnig llwybr lleihau carbon sy'n golygu bod yn rhaid haneru allyriadau cludiant wyneb yn fras rhwng 2020 a 2030.

Mae angen:

- Annog newid i ddulliau teithio llesol a micro-symudedd;
- Annog newid i ddefnyddio cludiant cyhoeddus / rhannu cludiant;
- Rheoli'r galw i annog newid oddi wrth deithio ar ffyrdd; a
- Chefnogi'r newid mewn ymddygiad sy'n ofynnol i newid dulliau teithio.

Mae allyriadau carbon cludiant yn dibynnu'n uniongyrchol ar nifer y cilometrau a deithir mewn cerbyd a'r allyriadau a gynhyrchir fesul cilometr gan gerbyd. Felly, er mwyn cyflawni datgarboneiddio, mae'n rhaid i'r mesurau a gyflwynir:

- Leihau pellter teithio cerbydau; a/neu
- Lleihau'r allyriadau sy'n cael eu cynhyrchu ar y cilometrau teithio mewn cerbydau sy'n weddill, a fydd yn dibynnu ar newidiadau mewn math o danwydd / ynni, dyluniad y cerbyd a ffactorau megis cyflymder gyrru.

Mae gan waith cynllunio defnydd tir lleol y potensial o leihau allyriadau carbon cludiant drwy gynyddu'r cyfle i bobl gael mynediad at wasanaethau, gweithgareddau, a chyfleoedd heb ddefnyddio car i wella mynediad mewn dwy ffordd:

- Cynyddu mynediad yn lleol, drwy gynllunio lleoliadau gweithgareddau gan ddefnyddio egwyddorion cymdogaethau 20 munud, gan leihau hyd a nifer y teithiau sy'n cael eu cyflawni (wrth i bobl gyfuno dibenion mewn teithiau unigol) a chynyddu'r tebygolrwydd o gerdded a beicio drwy leihau hyd teithiau; a
- Chynyddu mynediad at gludiant cyhoeddus, drwy gynllunio datblygiad sy'n seiliedig ar gludiant, o amgylch y canolfannau cludiant cyhoeddus.

Mae Cyllideb Carbon Sero Net Cymru 2 (CB2) yn canolbwyntio ar ail gyllideb carbon Cymru (2021-2025), a thu hwnt i ddechrau gosod sylfeini ar gyfer Cyllideb Carbon a tharged 2030. Bydd diwallu Cyllideb Carbon 2 a rhoi Cymru ar y trywydd cywir i ddarparu allyriadau sero net erbyn 2050 yn gofyn am gamau gweithredu mewn tri maes ar gyfer cludiant teithwyr a nwyddau:

- Lleihau'r galw a newid dull - sut y gallai ymddygiad a newidiadau cymdeithasol leihau neu newid y galw am deithio.
- Y dewisiadau technolegol sydd ar gael a'r nifer sy'n defnyddio cludiant heb allyriadau neu allyriadau isel.
- Gwelliannau i effeithiolrwydd a mathau o danwydd mewn cerbydau confensiynol.

Mewn cysylltiad â CB2, mae Llwybr Newydd - Strategaeth Cludiant Cymru yn cynllunio ar gyfer cysylltedd ffisegol a digidol gwell, mwy o wasanaethau lleol, mwy o weithio o gartref ac o bell a mwy o deithio llesol, i leihau'r angen i bobl ddefnyddio eu ceir yn ddyddiol. Mae'n nodi'r tair prif flaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf:

Dod â gwasanaethau at bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio: cynllunio ar gyfer y dyfodol i gael gwell cysylltedd ffisegol a digidol, mwy o wasanaethau lleol, mwy o weithio o gartref ac o bell a mwy o deithio llesol, i leihau'r angen i bobl ddefnyddio eu ceir yn ddyddiol.

Galluogi symud pobl a nwyddau'n hawdd o ddrws i ddrws gyda gwasanaethau cludiant ac isadeiledd hygyrch, cynaliadwy ac effeithiol: ceisio cyflawni newid o ddefnyddio ceir preifat i fwy o ddulliau cludiant cynaliadwy ar gyfer y mwyafrif o deithiau. Buddsoddi mewn gwasanaethau ac isadeiledd cludiant cynaliadwy, carbon isel, hygyrch ac effeithlon sy'n galluogi mwy o bobl i gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus a cherbydau allyriadau isel.

Annog pobl i wneud y newid i ddefnyddio cludiant sy'n fwy cynaliadwy: annog pobl i newid eu hymddygiad teithio a defnyddio cludiant cynaliadwy carbon isel, trwy sicrhau bod cludiant cynaliadwy'n fwy deniadol ac yn fwy fforddiadwy, a thrwy fabwysiadu mesurau arloesol sy'n ei gwneud yn haws eu defnyddio.

Mae'r Strategaeth yn nodi'r sut y dylai cludiant gyfrannu at uchelgeisiau hirdymor ehangach Llywodraeth Cymru (dros yr 20 mlynedd nesaf) ac at y pedwar nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- "Er lles pobl a chymunedau: system gludiant y mae gan bawb yr hyder i'w defnyddio, sy'n cyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal ac yn iachach."
- "Er lles yr amgylchedd: system gludiant sy'n cyflawni gostyngiad sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn cynnal bioamrywiaeth a hybu gwytnwch ecosystemau, a lleihau gwastraff."
- "Er lles yr economi a lleoedd yng Nghymru: system gludiant sy'n cyfrannu at gyflawni ein huchelgeisiau economaidd ehangach ac yn cynorthwyo cymunedau lleol, yn cefnogi cadwyn gyflenwi fwy cynaliadwy, yn defnyddio'r dulliau dyfeisgar diweddaraf ac yn sicrhau bod cludiant yn fforddiadwy."
- "Er lles diwylliant a'r Gymraeg: system gludiant sy'n cefnogi'r Gymraeg, yn galluogi mwy o bobl i ddefnyddio cludiant cynaliadwy i gyrraedd gweithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol, ac yn diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol."

Mae hierarchaeth cludiant cynaliadwy (gweler Ffigur 1 isod) yn blaenoriaethu cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus a cherbydau sy'n hynod isel o ran allyriadau dros gerbydau modur preifat ac yn rhan o Lwybr Newydd - Strategaeth Cludiant Cymru a Pholisi Cynllunio Cymru.





Figure 1: Sustainable Transport Hierarchy

Mae mesurau newid yn annog newid dulliau teithio ar hyd yr hierarchaeth cludiant cynaliadwy, i ddefnyddio dulliau sy'n fwy effeithlon, yn defnyddio llai o ynni a llai o allyriadau ar gyfer y mwyafrif o deithiau. Fel arfer mae hyn yn golygu newid o deithio mewn car i gludiant cyhoeddus a dulliau teithio llesol fel cerdded a beicio ac mae

angen buddsoddi mewn gwasanaethau ac isadeiledd cludiant cynaliadwy, isel o ran carbon, hygyrch ac effeithlon sy'n galluogi mwy o bobl i gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus a cherbydau allyriadau isel. Mae technolegau cludiant hefyd wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda cherbydau allyriadau isel iawn (ULEV) a biodanwydd a fydd yn cael effaith drawsnewidiol ar ddatgarboneiddio cludiant. Mae Llwybr Newydd, ochr yn ochr â'r polisïau a'r prosiectau cludiant cysylltiedig, wedi cyfrannu'n uniongyrchol at strategaeth ofodol, canlyniadau a pholisïau Cymru'r Dyfodol 2040.

**Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol**

Mae Cymru'r Dyfodol 2040 yn cyfrannu at haen genedlaethol o'r cynllun datblygu. Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn ymdrin â materion ar lefel ranbarthol ac isranbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol yn ystyried materion ar lefel leol.

Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol, sydd heb eu paratoi mewn unrhyw ranbarth eto, gydymffurfio â Chymru'r Dyfodol. Yn yr un modd, mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio â Chymru'r Dyfodol a Chynllun Datblygu Strategol eu hardal. Mae'n rhaid diweddaru Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol i sicrhau eu bod yn cydweithio'n effeithiol gyda Chymru'r Dyfodol. Mae'n rhaid i benderfyniadau cynllunio ar bob lefel o'r system gynllunio yng Nghymru gael eu cyflawni yn unol â'r cynllun datblygu yn ei gyfanrwydd.

Ni all CDLlN Conwy fynd i'r afael â phob mater cludiant gan ei fod yn cynnwys polisïau a chynigion sy'n ymwneud â datblygu a defnydd tir yn unig. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw goruchwylio'r system gludiant ehangach ar lefel genedlaethol, gyda Taith ar lefel ranbarthol a'r Cyngor ar lefel leol. Er hynny, mae'n rhaid i strategaeth, polisïau a chynigion cyffredinol y CDLlN fod yn unol â chynlluniau, rhaglenni a strategaethau'r cyrff hyn ynghyd â gweithredwyr cludiant fel cwmnïau bysiau a rheilffyrdd.

**<u>Polisïau Penodol sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad</u>**

Nid yw pob polisi a geir yn y bennod hon o'r CDLlN yn cael ei asesu oherwydd eu bod wedi'u hasesu fel rhai amherthnasol i Ddeddfwriaeth Cydraddoldeb (mae'r gwaith papur ar gyfer hyn ar gael ar gais).

Fodd bynnag, mae'r 4 pholisi canlynol yn cael sylw yn yr asesiad hwn:

**STA/1 Cludiant Cynaliadwy, Hygyrchedd a Datgarboneiddio**

**STA/4 Llwybrau a Chynlluniau Cludiant**

**STA/7 Gwelliannau i Gyfnewidfeydd a Chyfleusterau Cludiant Cyhoeddus**

**STA/8 Safonau Parcio**

### Beth yw nodau ac amcanion y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy'n cael ei asesu?

**Materion cludiant allweddol ar gyfer Conwy:**

Yr angen brys i gefnogi isadeiledd, technoleg a sgiliau sy'n blaenoriaethu datgarboneiddio'r sector cludiant modur;

- Gallu'r gefnffordd strategol a'r coridorau rheilffordd i ddarparu'r cysylltedd uniongyrchol angenrheidiol ar gyfer pobl a nwyddau, yng Nghonwy a gogledd Cymru, i'r porthladdoedd a'r rhwydwaith ehangach i gefnogi'r economi, swyddi, twristiaeth a mannau cynaliadwy;
- Diffyg gwytnwch y rhwydweithiau ffordd a rheilffyrdd mewn digwyddiadau a gynlluniwyd a rhai annisgwyl gan gynnwys tywydd garw, yn arbennig perygl llifogydd;
- Cyfle i hyrwyddo ac ymestyn llwybrau Teithio Llesol diogel gan integreiddio Isadeiledd Gwyrdd drwy ardal y Cynllun;
- Diffyg llwybrau amgen hyfyw a fforddiadwy i geir er mwyn cael mynediad at safleoedd cyflogaeth allweddol a gwasanaethau eraill; a'r angen am gysylltiadau cludiant da i/o'r rhwydwaith cefnffyrdd i ardaloedd gwledig er mwyn cynnal hyfywedd busnesau lleol a chefnogi'r Gymraeg, cyfleusterau iechyd ac addysg, manwerthu a diwylliant.

# 2. Asesiad o Effaith

Dylai'r adran hon gofnodi unrhyw effeithiau sydd wedi'u dynodi, neu rai posib', ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, grwpiau sy'n profi anghydraddoldeb, a grwpiau eraill sydd mewn perygl o brofi gwaeth canlyniadau. Dylid cofnodi effeithiau cadarnhaol a negyddol ar bob un o'r grwpiau sydd wedi'u diffinio isod lle bo hynny'n berthnasol.


**Meddyliwch am unrhyw rwystrau i fynediad, meysydd o anghydraddoldeb, a sut y gallai gwahanol grwpiau fod wedi'u heffeithio'n anghyfartal gan y cynnig hwn. I'r gwrthwyneb, meddyliwch sut y gallai grwpiau penodol elwa neu weld gwell canlyniadau o ganlyniad i'r cynnig.**


## Nodweddion Gwarchodedig

| **Oedran**<br><br>Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn neu'r boblogaeth sydd o oed gweithio. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

**Demograffeg oedran Conwy**


Dyma'r ddemograffeg sydd i'w gweld yng Nghonwy (ac mae angen eu hystyried o fewn dyluniad polisi'r CDLlN).






Ers cyfrifiad 2011, mae newid amlwg wedi bod wrth i'r grŵp oedran mwyaf newid o'r categori 45–49 i 55–59.

Mae hyn yn dangos bod 'ymchwydd' o boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghonwy (yn yr un modd â gweddill y DU) sy'n nesáu at y grwpiau oedran hŷn o 65 a hŷn. Mae'n bwysig nodi hyn gan mai'r grwpiau dros 65 oed yw'r rhai lle mae iechyd yn tueddu i ddirywio a materion amddifadedd cymdeithasol a thlodi yn tueddu i gynyddu, gan arwain at gynnydd o ran anghydraddoldeb.  Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau cymorth llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd.



Mae hyn yn dangos eto bod cynnydd yn y boblogaeth hŷn a fydd angen mathau penodol o gludiant o ganlyniad, er enghraifft, mwy o ddibyniaeth ar yr isadeiledd cludiant lleol.  Mae hefyd yn debygol y bydd defnydd uwch o gadeiriau olwyn a sgwteri symudedd ac mae gan flaenau siopau effaith ar eu defnydd - gan fod blaenau siop gorlawn yn creu rhwystrau ar gyfer eu defnydd.

Mae cynnydd hefyd yn y categori oedran 25–34 ac mae'r cynnydd hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae'n amlwg felly fod hon yn boblogaeth o oed ôl-ymddeol sy'n uwch na gweddill Cymru, ac mae Conwy yn enwog am fod yn ardal lle mae pobl yn dod i ymddeol iddi.

Mae cyfran uwch o henoed ym mhoblogaeth Conwy hefyd, felly mae mwy o alw am gludiant cyhoeddus a darpariaeth arall o gludiant i rai nad ydynt yn gallu gyrru, er enghraifft, tacsis neu wasanaethau fel deialu a theithio.

O gymharu â gweddill Cymru, mae lefelau llawer is o boblogaeth ar gyfer pob grŵp oedran hyd at 45 oed.  O ran trigolion o oed gweithio felly (16–65 oed), mae'r gyfran yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a'r DU.

Mae'r graff hwn eto yn dangos bod yr ymchwydd yn y boblogaeth yn heneiddio'n gyflym ac fel mae'r grŵp oedran wedi tyfu ers y cyfrifiad diwethaf.  Bydd angen i'r CDLlN roi ystyriaeth i hyn yn ei ddyluniad polisi.

Mae demograffeg oedran Conwy yn dangos mai'r grŵp oedran mwyaf yw 50–64 oed, sy'n 22.5% o'r boblogaeth gyfan.  Cynyddodd hyn o 20.9% o'r boblogaeth i 22.5% o 2020 i 2021 hefyd, felly mae'r grŵp oedran yn tueddu i dyfu o ran cyfran.  Fel y nodwyd, pan fydd yr ymchwydd hwn yn y boblogaeth yn heneiddio, bydd materion cydraddoldeb amlwg i'w hystyried yng Nghonwy ac mae angen i'r CDLlN baratoi ar gyfer hynny yn y drafft cyfredol.

Mae allfudiad o rai 18–24 oed hefyd, sy'n effeithio ar ddemograffeg Conwy, ac mae angen i'r CDLlN ystyried sut y gall tai gyfrannu at liniaru'r allfudo hwn.  Er bod ystadegau'n dangos bod poblogaeth y grŵp oedran hwnnw wedi cynyddu, mae'r allfudo'n parhau.

**Crynodeb ar Oedran:**

Mae poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghonwy ac mae cyfran fawr o'r boblogaeth yn hŷn.

Felly mae polisïau fel hyn yn bwysig iawn i bobl hŷn sy'n dod yn llai abl yn gorfforol wrth iddynt fynd yn hŷn, ac felly yn fwy dibynnol ar adeiladau sy'n hygyrch a gwasanaethau stryd sy'n glir a hygyrch er mwyn gallu cael mynediad atynt.


Mae sgwteri symudedd a chadeiriau olwyn, er enghraifft, yn dod yn rhywbeth mae pobl hŷn yn fwy dibynnol arnynt (o'i gymharu â grwpiau oed iau) er mwyn cynnal symudedd wrth fynd yn hŷn. Mae drysau a blaenau siop gorlawn ac anhygyrch yn ogystal â strydoedd gorlawn tu allan i siopau yn cael effaith sylweddol ar unrhyw un sy'n defnyddio sgwter symudedd, neu gadair olwyn, a gall achosi rhannau o'r stryd i ddod yn anhygyrch o ganlyniad i hynny.

Bydd y polisi sydd wedi'i anelu at reoli hyn, felly'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl hŷn gan ei fod yn nodi gofynion ar gyfer cadw blaenau siop yn glir a hygyrch.

**Sylwer:** Ychydig iawn o fanylion sydd o fewn y polisi hwn a byddai'r polisi yn elwa o ehangu ar yr angen am flaenau siop hygyrch, a phalmentydd stryd hygyrch tu allan i flaenau siop. Mae nodyn y bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu llunio i gefnogi hyn a dyma lle gallai gwybodaeth fwy technegol gael ei rhoi o ran disgwyliadau o'r paramedrau derbyniol i fodloni gofynion y polisi hwn.

| **Anabledd**<br><br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys pobl sydd ag anableddau corfforol / dysgu, cyflyrau hirdymor, neu iechyd meddwl gwael | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

Mae gan adran Cludiant y CDLlN y potensial i gael effaith sylweddol ar bobl anabl, felly rhaid ystyried yn ofalus yr hyn sydd ynddo a'r hyn sydd heb ei gynnwys.





Mae 22% o'r boblogaeth yn anabl, sy'n cyd-fynd â'r lefelau ar hyd a lled Cymru. Mae 22% o'r boblogaeth felly sydd o bosibl yn fwy dibynnol ar isadeiledd cludiant cyhoeddus.

| **Problemau iechyd hirdymor neu anableddau ym Mwrdeistref Sirol Co** | **Unigolion (Nifer)** | **Unigolion (%)** |
|---|---|---|
| Yr holl drigolion arferol | 114,741 | 100.0 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Cyfyngu'n helaeth ar weithgareddau ddydd | 11,920 | 10.4 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Cyfyngu ychydig ar weithgareddau ddydd | 14,024 | 12.2 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Cyflwr iechyd corfforol neu fed hirdymor ond heb gyfyngu ar weithgareddau dydd i ddydd | 7,673 | 6.7 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Dim cyflyrau iechyd corfforol n meddyliol hirdymor | 81,124 | 70.7 |

Roedd 22.6% o bobl yng Nghonwy wedi nodi eu bod yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghyfrifiad 2021. Mae hyn yn gyfystyr â 33,617 o bobl a mwy nag 1 o bob 5 o bobl yn anabl.  Mae angen ystyried hyn yn ofalus wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus ac mae angen i'r CDLlN ystyried yr ystadegyn yma'n ofalus.

O’r rhai sy’n ystyried eu hunain yn anabl, nododd 11,920 fod eu gweithgareddau dydd i ddydd wedi’u cyfyngu’n helaeth – golyga hyn fod 10% o bobl yn ystyried eu hunain yn anabl lle bo’u gweithgareddau wedi’u cyfyngu’n helaeth.




Yn 2021, roedd 9.2% o drigolion Conwy wedi nodi eu bod yn anabl ac wedi’u cyfyngu’n helaeth. Roedd y ffigwr wedi gostwng o 10.4% yn 2011. Roedd y gostyngiad yng nghyfran y trigolion a nododd eu bod yn anabl ac wedi’u cyfyngu’n helaeth yn fwy yng Ngwynedd (1.7 pwynt canran) nag yng Nghonwy (1.2 pwynt canran). Yng Ngwynedd, gostyngodd y gyfran o 9.4% yn 2011 i 7.7% yn 2021.

Yn 2021, roedd ychydig mwy nag un o bob naw o bobl (11.3%) yn anabl ac wedi’u cyfyngu ychydig, o gymharu â 10.8% yn 2011.

**<u>Materion pwysig yn ymwneud ag anghydraddoldeb - Darpariaeth Anabl</u>**

Mae tai yn hollbwysig ar draws pob grŵp oedran. Mae gwaith ymchwil yn dangos fod materion anghydraddoldeb perthnasol sy’n ymwneud â:

- Dibyniaeth drom pobl anabl ar ddarpariaeth cludiant gan nad ydynt yn gallu gyrru (o ganlyniad i’w hanabledd neu incwm is).
- Gallu pobl anabl i gael mynediad at gludiant hygyrch.

Mae data ac ystadegau'n dangos fod pobl anabl yn llai cefnog yn gyffredinol ac felly'n tueddu i fod ar incwm is.   Y rheswm dros hyn yw bod cyfran is o bobl anabl mewn cyflogaeth, naill ai o ganlyniad i wahaniaethu - llai o bobl anabl yn cael cynnig swyddi, neu gan nad yw'r unigolyn anabl yn gallu gweithio yn sgil eu hanabledd.

Mae'r ystadegau uchod yn nodi'n glir fod poblogaeth Conwy'n cynnwys nifer uchel o breswylwyr ag anableddau a/neu salwch hirdymor cyfyngol.  Mae gan y CDLlN y potensial i gael effaith ar yr isadeiledd cludiant a'r graddau y mae'n bodloni anghenion pobl anabl.

**<u>Polisïau Cludiant Arbennig y CDLlN</u>**

Roedd y polisïau canlynol o fewn adran gludiant y CDLlN yn mynd i'r afael â hyn yn benodol:

**STA/1 - Cludiant Cynaliadwy, Hygyrchedd a Datgarboneiddio**

Mae'r polisi'n cael effaith uniongyrchol ar y mater o ddibyniaeth drom ar berchnogaeth car, sy'n rhoi pobl anabl dan anfantais.   Mae'r polisi'n nodi y bydd yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus, a fydd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol uniongyrchol ar bobl anabl.

Mae'r polisi hefyd yn mynd i'r afael â'r broblem o gludiant hygyrch yn benodol.  Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar bobl anabl a'u hangen am gludiant hygyrch.

Mae'r polisi'n cyfeirio'n benodol at gymunedau difreintiedig ac yn sicrhau fod datblygiadau newydd yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd drwy sicrhau fod isadeiledd digonol i gefnogi datblygiadau newydd a bod hygyrchedd ar gyfer pobl anabl wrth wraidd hyn.   Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar sawl mater yn ymwneud ag anghydraddoldeb.

Mae'r polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar faterion yn ymwneud ag anableddau meddyliol drwy ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd sefydlu cynaliadwyedd yn y cynigion datblygu.   Bydd hyn yn annog dulliau trafnidiaeth

cynaliadwy amgen, megis beicio a cherdded, sydd i gyd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl â phroblemau iechyd meddwl. Bydd cyfraniadau at les cadarnhaol yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar anableddau iechyd meddwl.

**STA/4 Llwybrau a Chynlluniau Cludiant**

Bydd y polisi'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl anabl sy'n fwy dibynnol ar gludiant cyhoeddus. Mae'r polisi'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd ddiogelu ac ymestyn yr isadeiledd cludiant cyhoeddus. Yn ogystal â hynny, bydd yn rhaid i'r llwybrau a'r cynllun newydd y bydd y datblygiad yn eu cyflwyno gydymffurfio â'r canlynol:

*2. Bydd gofyn i lwybrau a chynlluniau fod yn hygyrch a diwallu'r polisïau perthnasol a'r safonau rheoleiddio ar gydraddoldeb, mynediad, hawliau dynol a'r Gymraeg, a cheisio diddymu rhwystrau corfforol, agweddol, amgylcheddol, systemig, ieithyddol ac economaidd sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau ac isadeiledd cludiant cynaliadwy.*

Mae'r polisi'n nodi safbwynt cadarn a chlir ynglŷn â'r effaith gadarnhaol sylweddol y bydd yn ei chael ar faterion yn ymwneud ag anghydraddoldeb i bobl anabl o ganlyniad i leihau llwybrau cludiant a all arwain at oblygiadau dinistriol i bobl anabl.

**STA/7 Gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus**

Mae'r polisi eto'n cyfeirio at ddiogelu llwybrau cludiant cyhoeddus sy'n cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar bobl anabl sy'n fwy dibynnol ar gludiant cyhoeddus.

Mae'r polisi hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr wella'r ddarpariaeth gludiant gyfredol pan gaiff datblygiadau eu cyflwyno. Er enghraifft, yn y dyfyniad canlynol

*" 3. Lle bo angen, bydd gofyn i ddatblygwyr ddarparu gwelliannau priodol i gyfleusterau cyfnewidfeydd bws neu reilffordd presennol,...."*

Bydd hyn eto'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl anabl.

**Sylwer:** Gallai'r Polisi hwn elwa o gyfeiriad at hygyrchedd o fewn paragraffau'r Polisi, gallai nodi y dylai pob gwelliant newydd fod yn gwbl hygyrch er mwyn bodloni anghenion pobl anabl. Mae'n bosibl y gellid lliniaru hyn o fewn y canllawiau cynllunio atodol hefyd.

**STA/8 Safonau Parcio**

Mae darpariaeth parcio hygyrch yn arbennig o heriol i bobl anabl. Byddai'r polisi hwn yn elwa o gyfeiriad penodol at yr angen am feysydd parcio hygyrch, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer llefydd parcio anabl. Hyd yn oed os yw hyn wedi'i nodi o fewn y ***CCA Safonau Parcio diwygiedig a'r Canllawiau Cenedlaethol*** y cyfeirir atynt o fewn y polisi, byddai'r polisi a'r bennod cludiant yn elwa o gyfeiriad penodol at hyn o fewn y Polisi STA/8.

**Crynodeb ar Anabledd**

Nid yw'r bennod cludiant yn y CDLlN yn cyfeirio'n benodol at Anabledd ar hyn o bryd, ac mae hyn yn wendid posibl ac efallai y bydd angen ystyried ei addasu cyn mabwysiadu'r CDLlN yn derfynol. Dyma pam y nodwyd effaith negyddol, ac felly dylid cynnwys cyfeiriad mwy penodol at y canlynol o fewn y Bennod Cludiant:

- Y mathau o gludiant y mae ar bobl anabl eu hangen.
- I ba raddau y caiff anghenion pobl anabl eu bodloni drwy ddarpariaeth gludiant, a ble mae'r bylchau.
- Beth yw'r galw am gludiant cyhoeddus gan bobl anabl.
- Sut gall y CDLlN gyfrannu at gau'r bylchau cludiant a nodwyd i bobl anabl.

Gellid lliniaru hyn gyda chanllawiau cynllunio atodol ar ôl mabwysiadu'r CDLlN a'i bolisïau.

| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys dynion hoyw / deurywiol, merched lesbiaidd / deurywiol, neu bobl heterorywiol | Effaith gadarnhaol | Effaith negyddol | Effaith niwtral |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan yr adran gludiant yn y CDLlN unrhyw berthnasedd penodol i gyfeiriadedd rhywiol ac felly mae'r effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir yn niwtral.

| **Ailbennu Rhywedd**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n bwriadu mynd drwy broses ailbennu rhywedd, wrthi'n mynd neu wedi mynd drwyddi. | Effaith gadarnhaol | Effaith negyddol | Effaith niwtral |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan y bennod cludiant yn y CDLlN unrhyw berthnasedd penodol i gyfeiriadedd rhywiol ac felly mae'r effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir yn niwtral.

| **Rhyw (Rhywedd)**<br>Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys rhai gwryw neu fenyw – neu grwpiau rhyweddol penodol fel bechgyn neu ferched. | Effaith gadarnhaol | Effaith negyddol | Effaith niwtral |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |


Nid oes gan y bennod cludiant yn y CDLlN unrhyw berthnasedd  i Ryw (Rhywedd) ac felly mae'r effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir yn niwtral.

| **Hil**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys rhai o wahanol ethnigrwydd, cenedligrwydd, hunaniaethau cenedlaethol a lliw croen. | Effaith gadarnhaol | Effaith negyddol | Effaith niwtral |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Er bod y boblogaeth o leiafrifoedd ethnig yn fechan, mae'r adran Cludiant o fewn y CDLlN yn dal i allu cael effeithiau arwyddocaol ar grwpiau sy'n lleiafrifoedd ethnig ac felly mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r hyn sydd o fewn yr adran a'r hyn sydd heb ei gynnwys ynddi.

Dyma'r wybodaeth ddemograffig am Hil sydd i'w gweld ar gyfer ardal Conwy.

### Ethnigrwydd yng Nghonwy




Y grŵp ethnig mwyaf yw Gwyn sy'n cyfrif am 96.9% o'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd.

Roedd 1.4% o drigolion Conwy wedi nodi mai eu grŵp ethnig oedd "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig". Mae hyn yn gynnydd o 1.1% yn 2011 a fyddai'n awgrymu fod y gymuned Asiaidd yn tyfu yng Nghonwy. Y cynnydd hwn oedd y cynnydd mwyaf ymysg grwpiau ethnig lefel uchel yn ardal Conwy. Wrth gymharu hyn ar draws Cymru, mae canran y bobl o grŵp ethnig "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig" wedi cynyddu o 2.3% i 2.9% – cynnydd o 0.6%. Mae'r grŵp Du Caribïaidd neu Affricanaidd yn cynrychioli dim ond 0.2% o'r boblogaeth.


Mae sawl ffactor sy'n gallu cyfrannu at y newid yng nghyfansoddiad ethnig Cymru a Lloegr. Mae rhai o'r ffactorau hyn yn cynnwys heneiddio, ffrwythlondeb, marwolaeth a

mudo. Wrth i'r categorïau addasu ac wrth i ddiwylliant addasu, gall pobl sy'n llenwi categorïau'r cyfrifiad newid sut maent yn cofnodi eu hethnigrwydd *sydd hefyd yn gallu effeithio ar y canlyniadau*.

Fodd bynnag, mae poblogaeth lleiafrif ethnig Conwy'n isel iawn ar y cyfan. Mae'r CDLlN yn berthnasol i'r nodwedd warchodedig hon gan fod mynediad at dai diogel ac addas yn angen sylfaenol i bob aelwyd felly mae hyn angen bod yn ystyriaeth yn y CDLlN.

| Ethnigrwydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl drigolion arferol | 114,743 | 100.0 |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 1,651 | 1.4 |
| Du / Du Cymreig / Du Prydeinig / Caribïaidd / Affricanaidd | 271 | 0.2 |
| Grwpiau ethnig cymysg neu luosog | 1,254 | 1.1 |
| Gwyn | 111,176 | 96.9 |
| Grwpiau ethnig eraill | 391 | 0.3 |

O gyfanswm poblogaeth o 114,743, mae 1,651 o bobl Asiaidd, a 1,254 o bobl o grwpiau ethnig cymysg neu luosog.




**Materion pwysig yn ymwneud ag Anghydraddoldeb - darpariaeth Hil a Chludiant**

- Mae proffiliau demograffig yn dangos fod grwpiau o leiafrifoedd ethnig yn tueddu i fod ar incwm is, sy'n golygu eu bod yn gyffredinol yn fwy dibynnol ar gludiant cyhoeddus. Felly os oes diffyg cludiant, gall hyn gael effaith fwy niweidiol ar y grŵp hwn yn gyffredinol, a golyga hynny fod darpariaeth cludiant gwael yn creu anfantais gan arwain at faterion o anghydraddoldeb. Mae hyn yn fater anghydraddoldeb perthnasol y mae angen mynd i'r afael â hi. Mae angen ystyried hyn yn ofalus wrth siapio'r ddarpariaeth gludiant ar draws Conwy drwy'r CDLlN.
- Mae proffilio demograffig hefyd yn dangos fod nifer is o bobl mewn grwpiau lleiafrif ethnig yn berchen ar gar a hefyd yn benodol, merched nad ydynt yn gyrru. Golyga hyn fod grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy dibynnol ar gludiant cyhoeddus a thacsis ac ati.

**<u>Papurau cefndir</u>**

Nid yw'r papurau cefndir a ddefnyddir i siapio'r polisïau cludiant penodol yn cyfeirio'n benodol ac yn uniongyrchol at faterion yn ymwneud â hil. Mae problemau cludiant sy'n cael effaith ar anghydraddoldeb hil yn digwydd lle ceir achosion o orgyffwrdd gydag incwm is, felly mae papur cefndir y bennod Cludiant yn y CDLl yn ystyried y canlynol yn benodol:

- prisiau tai,
- cyflenwad tai fforddiadwy
- fforddiadwyedd i breswylwyr
- effaith cymunedau gwledig a lefelau is o fforddiadwyedd tai mewn cymunedau gwledig.
- darpariaeth cartrefi gofal mewn cymunedau gwledig - sy'n heriol.

Mae pob un o'r ffactorau hyn yn ymwneud yn benodol â phoblogaethau lleiafrifol ac felly mae'r data a'r dystiolaeth a ddefnyddir i lywio'r datblygiad polisi wedi'u halinio'n dda â bodloni anghenion grwpiau o leiafrifoedd ethnig.

**<u>Polisïau Cludiant Arbennig y CDLlN</u>**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Cludiant yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chludiant a Hil:

**STA/1 - Cludiant Cynaliadwy, Hygyrchedd a Datgarboneiddio**

Mae'r polisi'n cael effaith gadarnhaol ar y mater o orddibyniaeth ar berchnogaeth car, sy'n rhoi'r rheiny sydd ar incwm is dan anfantais, ac mae ymchwil yn dangos fod rhai grwpiau o leiafrifoedd ethnig yn tueddu i fod ar incwm is.

Mae'r polisi'n nodi y bydd yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus, a fydd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol uniongyrchol ar bobl o leiafrifoedd ethnig sydd ar incwm is - a'r cyfuniad o anfanteision yn ymwneud â Hil ac incwm isel.

Mae'r polisi'n cyfeirio'n benodol at gymunedau difreintiedig ac yn sicrhau fod datblygiadau newydd yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd drwy sicrhau fod isadeiledd cludiant digonol i gefnogi datblygiadau newydd. Mae'n bosibl y bydd y polisi hwn felly'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar faterion anghydraddoldeb gan gynnwys pobl sydd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ac ar incwm isel.

Mae'r polisi hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar faterion yn ymwneud ag anabledd meddyliol drwy ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd sefydlu cynaliadwyedd yn y cynigion datblygu, er mwyn annog dulliau cludiant cyhoeddus amgen, megis beicio a cherdded, a fydd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar faterion o groestoriadedd o ran pobl o gefndiroedd o leiafrifoedd ethnig sydd hefyd ag anabledd iechyd meddwl - mae'r cyfuniad o hil ac anabledd meddyliol yn cael effaith niweidiol mwy sylweddol, a bydd hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol. Bydd cyfraniadau at les cadarnhaol yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar anableddau iechyd meddwl.

**STA/4 Llwybrau a Chynlluniau Cludiant**

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar sawl mater yn ymwneud â Hil. Mae'r polisi'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd ddiogelu ac ymestyn yr isadeiledd cludiant cyhoeddus. Bydd hyn felly'n cael effaith gadarnhaol ar grwpiau o leiafrifoedd ethnig sydd hefyd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol isel ac yn wynebu anfantais ddwys drwy'r cyfuniad o incwm isel a hil. Yn ogystal â hynny, bydd yn

rhaid i'r llwybrau a'r cynllun newydd y bydd y datblygiad yn eu cyflwyno gydymffurfio â'r canlynol:

*2. Bydd gofyn i lwybrau a chynlluniau fod yn hygyrch a diwallu'r polisïau perthnasol a'r safonau rheoleiddio ar gydraddoldeb, mynediad, hawliau dynol a'r Gymraeg, a cheisio diddymu rhwystrau corfforol, agweddol, amgylcheddol, systemig, ieithyddol ac economaidd sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau ac isadeiledd cludiant cynaliadwy.*

Mae'r polisi'n nodi safbwynt cadarn a chlir ynglŷn â'r effaith gadarnhaol sylweddol y bydd yn ei chael ar faterion yn ymwneud â Hil drwy gyfeirio'n uniongyrchol at hawliau dynol a chydraddoldeb o ganlyniad i leihau llwybrau cludiant a all arwain at oblygiadau dinistriol ar gyfer grwpiau o leiafrifoedd ethnig ar incwm isel.

**STA/7 Gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus**

Mae'r polisi eto'n cyfeirio at ddiogelu llwybrau cludiant cyhoeddus sy'n cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar grwpiau ethnig penodol sy'n fwy dibynnol ar gludiant cyhoeddus.

Mae'r polisi hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr wella'r ddarpariaeth gludiant gyfredol pan gaiff datblygiadau eu cyflwyno.   Er enghraifft, yn y dyfyniad canlynol:

3. *Lle bo angen, bydd gofyn i ddatblygwyr ddarparu gwelliannau priodol i'r cyfleusterau bws neu reilffordd presennol,...."*

Bydd hyn eto'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl anabl.

**<u>Crynodeb ar Hil</u>**

Bydd yr adran Cludiant yn y CDLlN yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at nodwedd warchodedig hil, ac felly mae'r effaith yn gadarnhaol o ganlyniad i gyflwyno'r polisïau hyn yn y CDLlN diwygiedig.

| **Beichiogrwydd a Mamolaeth**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gyn<br>merched beichiog, pobl ar absenoldeb ma<br>a rhai sy'n gofalu am fabi newydd / plentyr<br>unrhyw grefydd na system gred | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan y bennod Cludiant yn y CDLlN unrhyw berthnasedd penodol i Grefydd a Chredoau ac felly mae'r effaith ar y nodwedd warchodedig hon yn niwtral.

**Beichiogrwydd fesul ardal a grŵp oedran 2016**

| Ardal | Nifer dan 16 | Cyfradd dan 16 | Nifer dan 18 | Cyfradd dan 18 | Nifer dan 20 | Cyfradd dan 20 | Nifer pob oed | Cyfradd pob oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 174 | 3.65 | 1,061 | 20.93 | 3,288 | 37.24 | 40,327 | 72.06 |
| BILIP Betsi Cadwaladr | Dim data | Dim data | 221 | 19.82 | 749 | 40.21 | 8,854 | 77.07 |
| Ynys Môn | Dim data | Dim data | 18 | 16.89 | 72 | 41.81 | 848 | 80.34 |
| Gwynedd | 6 | 3.39 | 36 | 19.35 | 139 | 36.11 | 1,442 | 66.07 |
| Conwy | Dim data | Dim data | 37 | 19.38 | 116 | 39.28 | 1,304 | 75.56 |
| Sir Ddinbych | 3 | 2.09 | 40 | 25.48 | 117 | 46.84 | 1,194 | 79.44 |
| Sir y Fflint | 9 | 3.57 | 44 | 17.08 | 146 | 35.86 | 2,065 | 77.99 |
| Wrecsam | 4 | 1.90 | 46 | 21.23 | 159 | 45.02 | 2,001 | 84.32 |

*Disgrifiad cyffredinol*

*Mae'r tabl hwn yn darparu data ar y cyfraddau beichiogi sydd wedi arwain at naill ai enedigaeth fyw neu blentyn farw-anedig neu derfynu beichiogrwydd drwy erthyliad cyfreithlon. Amcangyfrifon yw'r ffigurau beichiogi, a gafwyd drwy gyfuno gwybodaeth gofrestru genedigaethau a hysbysu am erthyliadau cyfreithlon. Nid ydynt yn cynnwys colli babi nac erthyliad anghyfreithlon. Amcangyfrifir y dyddiad cenhedlu drwy ddefnyddio cofnod cyfnod beichiogi ar gyfer erthyliadau a babanod marw-anedig a drwy dybio 38 wythnos ar gyfer genedigaethau byw. Mae'r ffigyrau beichiogi yn ymwneud â thrigolion mewn ardal. Ffynhonnell:* https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Births-Deaths-and-Conceptions/Conceptions/conceptions-by-area-agegroup

Cyfyngedig yw'r data sydd ar gael mewn perthynas â beichiogrwydd a mamolaeth yng Nghonwy, ond mae data ar gael gan Stats Cymru fel y nodir yn y dyfyniad uchod o 2016. Dengys y data bod cofnod o 1,304 o ferched yn feichiog yn 2016. Mae hyn yn gyfystyr â 75.6 fesul 1,000 o ferched yn feichiog. O gymharu ar lefel Cymru, mae'r cyfraddau beichiogi yn uwch nag yng Ngwynedd sy'n 66.1 yn feichiog fesul 1,000 o ferched, ond yn is nag yn Sir Ddinbych (79.4 fesul 1,000 o ferched), Sir y Fflint (78 fesul 1,000 o ferched) a Wrecsam (84.3 fesul 1000 o ferched).

Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yn Lloegr oedd 1.62 plentyn fesul merch yn 2021, oedd yn gynnydd o 1.9% o 1.59 yn 2020. Roedd cyfradd ffrwythlondeb is yng Nghymru, gydag 1.49 plentyn fesul merch yn 2021, y cynnydd blynyddol cyntaf yn y gyfradd ers tair blynedd.

**Polisïau Cludiant Arbennig y CDLlN**

Mae'r polisïau canlynol yn yr adran Datblygu Economaidd yn y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Datblygu Economaidd a Beichiogrwydd a Mamolaeth:

**STA/4 Llwybrau a Chynlluniau Cludiant**

Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar sawl mater yn ymwneud â Beichiogrwydd a Mamolaeth. Mae'r polisi'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd ddiogelu ac ymestyn yr isadeiledd cludiant cyhoeddus. Bydd hyn felly'n cael

effaith gadarnhaol gan y bydd merched sy'n feichiog a'r rheiny sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar yn gallu bod yn fwy dibynnol ar gludiant cyhoeddus. Yn ogystal â hynny, bydd yn rhaid i'r llwybrau a'r cynllun newydd y bydd y datblygiad yn eu cyflwyno gydymffurfio â'r canlynol:

**STA/7 Gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus**

Mae'r polisi eto'n cyfeirio at ddiogelu llwybrau cludiant cyhoeddus sy'n cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar grwpiau ethnig penodol sy'n fwy dibynnol ar gludiant cyhoeddus.

Mae'r polisi hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr wella'r ddarpariaeth gludiant gyfredol pan gaiff datblygiadau eu cyflwyno. Er enghraifft, yn y dyfyniad canlynol

3. *Lle bo angen, bydd gofyn i ddatblygwyr ddarparu gwelliannau priodol i'r cyfleusterau bws neu reilffordd presennol,...."*

Mae hyn eto'n cael effaith sylweddol ar ferched sy'n feichiog neu wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar.

## Crynodeb Beichiogrwydd a Mamolaeth:

Bydd y polisïau cludiant yn cael effaith gadarnhaol ar feichiogrwydd a mamolaeth drwy wella ac ymestyn cludiant cyhoeddus yng Nghonwy.

| **Priodas a Phartneriaeth Sifil**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sydd mewn partneriaeth gyfreithiol ffurfiol – o'r un rhyw a'r rhyw arall | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | ☑ |

Nid oes gan y bennod cludiant yn y CDLlN unrhyw berthnasedd penodol i Briodas a Phartneriaeth Sifil ac felly mae'r effaith ar y nodwedd warchodedig hon yn niwtral.

# 3. Grwpiau Cynhwysiant

Dylai'r gwasanaethau rydym ni'n eu comisiynu fod ar gael i bawb a bod mor gynhwysol â phosibl. Dylai eich cynnig hefyd roi ystyriaeth i unrhyw grwpiau eraill yn y boblogaeth sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol (neu mewn perygl o fod). Gall hyn gynnwys gofalwyr, pobl sy'n ddigartref, rhai sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gweithwyr rhyw a llawer o grwpiau eraill sydd wedi'u gwthio at gyrion cymdeithas.

Meddyliwch pa grwpiau cynhwysiant eraill allai gael eu heffeithio can eich cynnig. Dewiswch o'r ddewislen ym mhob adran isod neu nodi pa grwpiau eraill sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol yr ydych chi'n eu hystyried. Dewiswch y tabl a chlicio'r symbol '+' glas ar waelod ochr dde'r tabl i ychwanegu mwy o adrannau os oes angen.

# 4. Cydymffurfio â Dyletswyddau Cyfreithiol

**A yw'r sefydliad wedi rhoi sylw dyledus ac ystyriaeth i'r meysydd canlynol?**

### Cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon **YDY ☑ / NAC YDY ☐**

Gwahaniaethu anghyfreithlon yw trin pobl yn 'llai ffafriol' gan fod ganddynt nodwedd warchodedig.

### Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt. **YDY☑ / NAC YDY☐**

Mae hyn yn golygu sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gallu manteisio ar gyfleoedd ac adnoddau'n gyfartal.

## Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt. **YDY☑ / NAC YDY☐**

Mae hyn yn golygu creu amgylchedd cydlynol a chynhwysol i bawb drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth o wahaniaethau.

## A oes unrhyw bryderon o ran Hawliau Dynol? **YDY☐ / NAC YDY☑**

Os ateboch chi '**Oes**', gofynnwch am gyngor gan y Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant i drafod cynnal Asesiad Hawliau Dynol penodol

## Darparwch adroddiad ategol i gefnogi eich atebion i'r cwestiynau uchod: **Rhaid llenwi'r rhan hon**

**Mae'r asesiad hwn yn ymwneud â'r Bennod Cludiant yn y CDLlN sy'n cynnwys nifer o bolisïau sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth yn ymwneud â Chydraddoldeb. Mae'r asesiad yn ystyried cludiant, rôl y CDLlN yn hyn, a'r polisïau penodol sydd yn y Bennod Cludiant ac mae'r effaith gyffredinol ar y nodweddion gwarchodedig gwahanol hefyd wedi cael eu hystyried.**

**Mae'r asesiad wedi ystyried perthnasedd y polisi cynllunio strategol arfaethedig o ran y gwahanol nodweddion gwarchodedig drwy ystyried pob un o'r polisïau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y bennod hon yn ofalus. I grynhoi felly, wrth ystyried pob un o'r agweddau hyn, ni fydd y bennod na'r polisïau oddi mewn iddo'n cael effaith niweidiol ar y tair agwedd o'r ddyletswydd gyffredinol, ac nid oes unrhyw faterion hawliau dynol yn berthnasol. Ystyrir felly bod ystyried dyledus wedi'i roi.**

**Sylwer: Mae rhywfaint o effaith niweidiol wedi'i nodi o ran yr angen i fod yn fwy cadarn mewn perthynas ag Anabledd a Chludiant. Er bod sylw dyledus wedi'i roi i'r agwedd hon, dylid ystyried yn ofalus sut gellid ei lliniaru. Gellid lliniaru'r effaith drwy wneud addasiadau i'r polisi, ychwanegu polisi newydd neu gynhyrchu canllawiau cynllunio atodol i fynd i'r afael â'r mater.**

# Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

## Templed Cam 2 ar gyfer Gwasanaethau, Polisïau a Swyddogaethau

Teitl y Gwasanaeth / Polisi / Swyddogaeth:

**Cyfleusterau Cymunedol**

Dyddiad Cwblhau: 03/06/2025

# 1. Trosolwg o'r Asesiad

## Crynodeb o wybodaeth am y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy'n cael ei asesu:

**<u>Amcan Strategol 4 Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol:</u> Cyfrannu at synnwyr o le ac iechyd, lles ac amwynder cyffredinol cymunedau lleol drwy sicrhau bod gan y grwpiau poblogaeth presennol a rhai'r dyfodol fynediad at gymysgedd cynaliadwy o gyfleusterau cymunedol.**

Mae cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn allweddol i greu lleoedd hyfyw a chynaliadwy a chefnogi'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, rhandiroedd, mannau claddu, canolfannau hamdden, adeiladau cymunedol a lleoedd addoli. Gallant fod ym mherchnogaeth y cyhoedd, preifat a'r trydydd sector.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu fod ag ymagwedd strategol a hirdymor tuag at ddarparu cyfleusterau cymunedol, gan sicrhau fod gofynion y gymuned yn parhau i gael eu diwallu. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn dangos fod gan Fwrdeistref Sirol Conwy strwythur poblogaeth sy'n heneiddio. Bydd y CDLlN yn cefnogi cyfleusterau cymunedol i ddiwallu eu hanghenion ac anghenion eraill sy'n byw'n lleol. Hefyd bydd angen i adeiladu tai newydd sicrhau fod anghenion y preswylwyr newydd o ran cyfleusterau cymunedol penodol yn cael eu diwallu.

**Polisïau sy'n cael eu hasesu**
Nid yw pob polisi a geir yn y bennod hon o'r CDLlN yn cael ei asesu oherwydd eu bod wedi'u hasesu fel rhai amherthnasol i Ddeddfwriaeth Cydraddoldeb (mae'r gwaith papur ar gyfer hyn ar gael ar gais).

Fodd bynnag, mae'r tri pholisi canlynol yn cael sylw yn yr asesiad hwn:

**CFS/1 Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol**

**CFS/4 Cyfleusterau Cymunedol Newydd**

**CFS/5 Colli Cyfleusterau Cymunedol**

## Beth yw nodau ac amcanion y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy'n cael ei asesu?

**Cyfleusterau Cymunedol**
Mae cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn cyfrannu at ymdeimlad o le sy'n bwysig i addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, lles, y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig ac amwynder cymunedau lleol ac mae eu bodolaeth yn aml yn elfen allweddol wrth greu lleoedd hyfyw a chynaliadwy. Mae mynediad i'r cyfleusterau hyn, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig, yn rhoi cyfle i fod yn rhan o fywyd

cymunedol gan helpu i greu ymdeimlad o berthyn, sy'n cyfrannu at fyw cydlynol. Mae cefnogi cyfleusterau cymunedol presennol a rhai newydd yn ffactor allweddol mewn creu lleoedd bywiog, cymdeithasol a chynaliadwy.

**Colli Cyfleusterau Cymunedol**

Mae cyfleusterau cymunedol yn yr ardaloedd gwledig yn rhan hanfodol o gynaliadwyedd a lles cymunedau lleol. Mae cyfleusterau o’r fath yn bwysig i’r Gymraeg a’r diwylliant Cymreig. Er mwyn i gymunedau fod yn gynaliadwy, mae angen iddynt gynnwys neu gael mynediad at ystod o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol fel siopau, tafarndai, neuaddau pentref ac ati. Mae'r polisi hwn yn ceisio amddiffyn a chadw cyfleusterau cymunedol lle bo modd a chaniatáu creu cyfleusterau newydd mewn lleoliadau priodol a chynaliadwy.

Cyfleusterau cymunedol yw'r rhai sydd o fudd a gwerth i'r gymuned leol, yn darparu lleoliad ar gyfer swyddogaethau cymdeithasol a chyfarfodydd ac yn elwa'r economi leol.

O ran marchnata cyfleusterau cymunedol, bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ategol bod y cyfleuster wedi cael ei farchnata'n weithredol am o leiaf blwyddyn am bris realistig, yn seiliedig ar werth marchnad priodol, sy'n adlewyrchu'r defnydd presennol.

# 2. Asesiad o Effaith

Dylai'r adran hon gofnodi unrhyw effeithiau sydd wedi'u dynodi, neu rai posib', ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, grwpiau sy'n profi anghydraddoldeb, a grwpiau eraill sydd mewn perygl o brofi gwaeth canlyniadau. Dylid cofnodi effeithiau cadarnhaol a negyddol ar bob un o'r grwpiau sydd wedi'u diffinio isod lle bo hynny'n berthnasol.


**Meddyliwch am unrhyw rwystrau i fynediad, meysydd o anghydraddoldeb, a sut y gallai gwahanol grwpiau fod wedi'u heffeithio'n anghyfartal gan y cynnig hwn. I'r gwrthwyneb, meddyliwch sut y gallai grwpiau penodol elwa neu weld gwell canlyniadau o ganlyniad i'r cynnig.**


## Nodweddion Gwarchodedig

| **Oedran**<br>Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn neu'r boblogaeth sydd o oed gweithio. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

**Demograffeg oedran Conwy**

Dyma'r ddemograffeg sydd i'w gweld yng Nghonwy (ac mae angen ei hystyried o fewn dyluniad polisi'r CDLlN).






Ers cyfrifiad 2011, mae newid amlwg wedi bod wrth i'r grŵp oedran mwyaf newid o'r categori 45–49 i 55–59.

Mae hyn yn dangos bod 'ymchwydd' o boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghonwy (yn yr un modd â gweddill y DU) sy'n nesáu at y grwpiau oedran hŷn o 65 a hŷn. Mae'n bwysig nodi hyn gan mai'r grwpiau dros 65 oed yw'r rhai lle mae iechyd yn tueddu i ddirywio a materion amddifadedd cymdeithasol a thlodi yn tueddu i gynyddu, gan arwain at gynnydd o ran anghydraddoldeb. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau cymorth llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd.


Mae cynnydd yn y boblogaeth hŷn a fydd angen mathau penodol o gludiant o ganlyniad, er enghraifft, mwy o ddibyniaeth ar yr isadeiledd cludiant lleol.

Mae cynnydd hefyd yn y categori oedran 25–34 ac mae'r cynnydd hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae'n amlwg felly fod hon yn boblogaeth o oed ôl-ymddeol sy'n uwch na gweddill Cymru, ac mae Conwy yn enwog am fod yn ardal lle mae pobl yn dod i ymddeol iddi.

Mae cyfran uwch o henoed ym mhoblogaeth Conwy hefyd, felly mae mwy o alw am gludiant cyhoeddus a darpariaeth arall o gludiant i rai nad ydynt yn gallu gyrru, er enghraifft, tacsis neu wasanaethau fel deialu a theithio.

O gymharu â gweddill Cymru, mae lefelau llawer is o boblogaeth ar gyfer pob grŵp oedran hyd at 45 oed. O ran preswylwyr o oed gweithio felly (16–65 oed), mae'r gyfran yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a'r DU.




Mae'r graff hwn eto yn dangos bod yr ymchwydd yn y boblogaeth yn heneiddio'n gyflym ac fel mae'r grŵp oedran wedi tyfu ers y cyfrifiad diwethaf. Bydd angen i'r CDLlN roi ystyriaeth i hyn yn ei ddyluniad polisi.

Mae demograffeg oedran Conwy'n dangos mai'r grŵp oedran mwyaf yw 50–64 oed, sy'n 22.5% o'r boblogaeth gyfan. Fe gynyddodd hyn o 20.9% o'r boblogaeth i 22.5% o 2020 i 2021 hefyd, felly mae'r grŵp oedran yn tueddu i dyfu o ran cyfran. Fel y nodwyd, pan fydd yr ymchwydd hwn yn y boblogaeth yn heneiddio, bydd materion cydraddoldeb amlwg i'w hystyried yng Nghonwy ac mae angen i'r CDLlN baratoi ar gyfer hynny yn y drafft cyfredol.

Mae allfudiad o rai 18–24 oed hefyd, sy'n effeithio ar ddemograffeg Conwy, ac mae angen i'r CDLlN ystyried sut y gall tai gyfrannu at liniaru'r allfudo hwn. Er bod ystadegau'n dangos bod poblogaeth y grŵp oedran hwnnw wedi cynyddu, mae'r allfudo'n parhau

**<u>Polisïau Cyfleusterau Cymunedol CDLlN Penodol</u>**

Mae'r polisïau canlynol dan adran Cyfleusterau Cymunedol y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chyfleusterau Cymunedol ac Oedran:

**CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol**

**CFS/4 – Cyfleusterau Cymunedol Newydd**

**CFS/5 – Colli Cyfleusterau Cymunedol**

Mae'r polisïau hyn yn ymwneud â chadw a diogelu cyfleusterau cymunedol. Mae cyfleusterau cymunedol yn llefydd effeithiol iawn i ddod â chymunedau at ei gilydd mewn sawl ffordd wahanol, drwy ddarparu dulliau fforddiadwy i gymdeithasu a chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a chlybiau. Mae'r cyfleusterau yn aml iawn yn cael eu cynnal ar sail elusennol 'cost yn unig' – h.y. mae unrhyw arian a wneir yn sgil llogi'r cyfleusterau yn seiliedig ar gwrdd â chostau yn hytrach na gwneud elw, ac felly maen nhw'n ariannol hygyrch at ddefnydd cymunedol pawb, yn cynnwys y rheiny ar incymau isel.


Mae cyfleusterau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar bob grŵp oed, yn arbennig pobl hŷn sydd yn aml iawn efo mwy o amser hamdden oherwydd eu bod wedi ymddeol – sydd hefyd yn cynyddu'r angen i aros yn ffit ac iach. Dengys ymchwil bod cymdeithasu a chadw'n gorfforol actif yn fuddiol i bob grŵp oed, yn arbennig pobl hŷn sy'n fwy agored i arwahanrwydd cymdeithasol wrth iddyn nhw heneiddio a mynd yn llai actif o gymharu â grwpiau eraill.

Gall pobl ifanc gael budd sylweddol o hyn yn nhermau cymryd rhan mewn clybiau a gweithgareddau cymdeithasol sy'n cael eu cynnal yn defnyddio cyfleusterau cymunedol ac mae hyn yn fuddiol i'w datblygiad cymdeithasol gan eu helpu i gael bywyd cymdeithasol iach fel oedolion.

**<u>Crynodeb Oedran:</u>**

Mae'r polisiau Cyfleusterau Cymunedol yn ymwneud â diogelu gofodau sy'n dod â chymunedau at ei gilydd at ddibenion cymdeithasol a diwylliannol. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol grwpiau oedran. Felly bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau oedran gwahanol drwy ddod â phobl at ei gilydd ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol, clybiau a gweithgareddau eraill sy'n fuddiol i feithrin cydlyniant ar draws gwahanol grwpiau oedran.

| **Anabledd** | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys pobl sydd ag anableddau corfforol / dysgu, cyflyrau hirdymor, neu iechyd meddwl gwael | ☑ | ☐ | ☐ |





Mae 23% o'r boblogaeth yn anabl, ychydig yn uwch na'r lefelau ar hyd a lled Cymru. Felly gall 23% o'r boblogaeth fod angen gwahanol fathau o dai.

| Problemau iechyd hirdymor neu anableddau yn Sir Conwy | Unigolion (Nifer) | Unigolion (%) |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: cyfyngu'n helaeth ar weithgaredd dydd i ddydd | 11,920 | 10.4 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: cyfyngu ychydig ar weithgaredda i ddydd | 14,024 | 12.2 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: cyflwr iechyd corfforol neu f hirdymor ond heb gyfyngu ar weithgareddau dydd i ddydd | 7,673 | 6.7 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: dim cyflyrau iechyd corfforc meddyliol hirdymor | 81,124 | 70.7 |

Roedd 22.6% o bobl yng Nghonwy wedi nodi eu bod yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghyfrifiad 2021. Mae hyn yn gyfystyr â 33,617 o bobl a mwy nag 1 o bob 5 o bobl yn anabl. Mae angen ystyried hyn yn ofalus wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus ac mae angen i'r CDLlN ystyried yr ystadegyn yma'n ofalus.

O’r rhai sy’n eu cyfrif eu hunain yn anabl, nododd 11,920 fod eu gweithgareddau dydd i ddydd wedi’u cyfyngu’n helaeth – mae hyn yn 10% o bobl yn ystyried eu hunain yn anabl lle bo’u gweithgareddau wedi’u cyfyngu’n helaeth.

**Mae canran y bobl a ddywedodd eu bod yn anabl ac yn gyfyngedig iawn yng Nghonwy wedi lleihau 1.2%.**




Yn 2021, roedd 9.2% o breswylwyr Conwy wedi nodi eu bod yn anabl ac wedi’u cyfyngu’n helaeth. Roedd y ffigwr wedi gostwng o 10.4% yn 2011. Roedd y gostyngiad yng nghyfran y preswylwyr a nododd eu bod yn anabl ac wedi’u cyfyngu’n helaeth yn fwy yng Ngwynedd (1.7 pwynt canran) nag yng Nghonwy (1.2 pwynt canran). Yng Ngwynedd, gostyngodd y gyfran o 9.4% yn 2011 i 7.7% yn 2021.

Yn 2021, roedd ychydig mwy nag un o bob naw o bobl (11.3%) yn anabl ac wedi’u cyfyngu ychydig, o gymharu â 10.8% yn 2011.

**<u>Polisïau Cyfleusterau Cymunedol CDLlN Penodol</u>**

Mae’r polisïau canlynol dan adran Cyfleusterau Cymunedol y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chyfleusterau Cymunedol ac Anabledd:

**CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol**

**CFS/4 – Cyfleusterau Cymunedol Newydd**

**CFS/5 – Colli Cyfleusterau Cymunedol**

Mae'r polisïau hyn yn ymwneud â chadw a diogelu cyfleusterau cymunedol. Mae cyfleusterau cymunedol yn llefydd effeithiol iawn i ddod â chymunedau at ei gilydd mewn sawl ffordd wahanol, drwy ddarparu dulliau rhad iawn i gymdeithasu a chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a chlybiau. Mae'r cyfleusterau yn aml iawn yn cael eu cynnal ar sail elusennol 'cost yn unig' – h.y. mae unrhyw arian a wneir yn sgil llogi'r cyfleusterau yn seiliedig ar gwrdd â chostau yn hytrach na gwneud elw, ac felly maen nhw'n ariannol hygyrch at ddefnydd cymunedol pawb.

Mae cyfleusterau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl anabl. Dengys ymchwil bod nifer o anableddau sy'n tueddu i arwain at lefelau uwch o arwahanrwydd cymdeithasol, er enghraifft anableddau corfforol sy'n golygu bod yn rhaid i'r unigolyn fynd i fwy o ymdrech i fynd i ddigwyddiadau cymdeithasol, neu anableddau iechyd meddwl sy'n golygu bod digwyddiadau cymdeithasol yn fwy heriol i'r unigolyn fynd iddyn nhw. Mae cysylltiadau cymdeithasol o fudd mawr ac yn bwysig iawn ar gyfer lles corfforol a meddyliol, yn enwedig i bobl anabl. Mae diogelu cyfleusterau cymunedol, drwy gyflwyno polisïau sy'n llywodraethu hynny yn mynd i gael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl anabl.

**<u>Crynodeb Anabledd</u>**

Mae'r polisïau Cyfleusterau Cymunedol yn ymwneud â diogelu gofodau sy'n dod â chymunedau at ei gilydd at ddibenion cymdeithasol a diwylliannol. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol grwpiau o bobl anabl. Felly bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol ar ddod â phobl anabl a heb anabledd at ei gilydd, ynghyd â phobl gyda gwahanol fathau o anabledd. Mae sawl budd i hyn, ac mae'n gwella bywydau pobl.

| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys dynion hoyw / deurywiol, merched lesbiaidd / deurywiol, neu bobl heterorywiol | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

| Cyfeiriadedd rhywiol yn Sir Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn | 96,362 | 100.0 |
| Strêt neu heterorywiol | 85,973 | 89.2 |
| Hoyw neu lesbiaidd | 1,330 | 1.4 |
| Deurywiol | 872 | 0.9 |
| Panrywiol | 140 | 0.1 |
| Anrhywiol | 45 | 0.0 |
| Cwiar | 7 | 0.0 |
| Pob cyfeiriadedd rhywiol arall | 9 | 0.0 |
| Heb ateb | 7986 | 8.3 |

Cofnododd y cyfrifiad fod 89.2% o'r boblogaeth yn strêt neu'n heterorywiol yng Nghonwy, 1.4% yn hoyw neu'n lesbiaidd, 0.9% yn ddeurywiol ac roedd 8.3% heb ateb y cwestiwn. Mae cwestiynau sy'n ymwneud â hyn yn fater sensitif ac mae rhai'n teimlo'n anghyfforddus yn ateb y mathau hyn o gwestiynau, sy'n ei gwneud yn anodd mesur neu ddibynnu ar yr ystadegau a gasglwyd. Mae'r Adran Fasnach a Diwydiant yn rhoi amcangyfrif swyddogol bod 5–7% o boblogaeth Prydain yn hoyw, lesbiaidd, neu'n ddeurywiol sy'n awgrymu bod rhywfaint o dan-adrodd yng Nghonwy pan gynhaliwyd y cyfrifiad.

**Polisïau Cyfleusterau Cymunedol CDLlN Penodol**

Mae'r polisïau canlynol dan adran Cyfleusterau Cymunedol y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chyfleusterau Cymunedol a Rhywioldeb:

**CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol**

**CFS/4 – Cyfleusterau Cymunedol Newydd**

**CFS/5 – Colli Cyfleusterau Cymunedol**

Mae'r polisïau hyn yn ymwneud â chadw a diogelu cyfleusterau cymunedol. Mae cyfleusterau cymunedol yn llefydd effeithiol iawn i ddod â chymunedau at ei gilydd mewn sawl ffordd wahanol, drwy ddarparu dulliau fforddiadwy i gymdeithasu a chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a chlybiau. Mae'r cyfleusterau yn aml iawn yn cael eu cynnal ar sail elusennol 'cost yn unig' – h.y. mae unrhyw arian a wneir yn sgil llogi'r cyfleusterau yn seiliedig ar gwrdd â chostau yn hytrach na gwneud elw, ac felly maen nhw'n ariannol hygyrch at ddefnydd cymunedol pawb.

Mae cyfleusterau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar nifer o bobl wahanol. Mae cysylltiadau cymdeithasol o fudd mawr ac yn bwysig iawn ar gyfer lles corfforol a meddyliol. Mae hyn hefyd yn helpu i ddod â phobl wahanol at ei gilydd mewn gofodau cymdeithasol, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb o ran cyfleoedd a pherthnasau da ar draws nodweddion gwarchodedig gwahanol.

Felly mae diogelu cyfleusterau cymunedol drwy'r polisïau hyn sy'n llywodraethu diogelwch cyfleusterau sy'n darparu lle i hyn ddigwydd, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn fuddiol iawn i rywioldeb oherwydd dengys ymchwil bod unigolion LHDTC+ yn gallu profi mwy o arwahanrwydd cymdeithasol ac felly mae'r polisïau hyn yn cyfrannu at ddiogelu gofodau sy'n dod â phobl at ei gilydd ac yn gwella ansawdd bywyd pobl o'r grwpiau hyn.

**Crynodeb Rhywioldeb**

Mae'r polisïau Cyfleusterau Cymunedol yn ymwneud â diogelu gofodau sy'n dod â chymunedau at ei gilydd at ddibenion cymdeithasol a diwylliannol. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol fathau o bobl. Felly bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddod a phobl at ei gilydd mewn ffordd gadarnhaol, drwy ddiogelu a gwella'r cyfleusterau sy'n gwneud i hyn ddigwydd.

| **Ailbennu Rhywedd**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n bwriadu mynd, wrthi'n mynd neu wedi mynd drwy broses ailbennu rhywedd. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

| **Hunaniaeth rhywedd yn Sir Conwy** | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn | 96,362 | 100.0 |
| Hunaniaeth rhywedd 16 oed a hŷn | 89,545 | 92.9 |
| Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd ar yr enedigaeth ond heb nodi unrhyw hunaniaeth benodol | 94 | 0.1 |
| Merch draws | 40 | 0.0 |
| Dyn traws | 58 | 0.1 |
| Anneuaidd | 34 | 0.0 |
| Pob hunaniaeth rhywedd arall | 27 | 0.0 |
| Heb ateb | 6,564 | 6,8 |

Ffynhonnell: SYG – Cyfrifiad 2021 (TS070)

Mae'r wybodaeth o ran hunaniaeth rhywedd yn parhau i fod yn gymharol gyfyngedig ac mae'n parhau i fod yn nodwedd warchodedig sy'n cael ei than-adrodd.

Dengys y cyfrifiad bod 0.1% – 94 o bobl yng Nghonwy sydd â hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni. Roedd 40 yn nodi eu bod yn ferch draws, 58 (0.1%) yn ddyn traws, 34 yn anneuaidd a 27 o blith pob hunaniaeth rhywedd arall.

**<u>Polisïau Cyfleusterau Cymunedol CDLlN Penodol</u>**

Mae'r polisïau canlynol dan adran Cyfleusterau Cymunedol y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chyfleusterau Cymunedol ac Ailbennu Rhywedd:

**CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol**

**CFS/4 – Cyfleusterau Cymunedol Newydd**

**CFS/5 – Colli Cyfleusterau Cymunedol**


Mae'r polisïau hyn yn ymwneud â chadw a diogelu cyfleusterau cymunedol. Mae cyfleusterau cymunedol yn llefydd effeithiol iawn i ddod â chymunedau at ei gilydd mewn sawl ffordd wahanol, drwy ddarparu dulliau rhad iawn i gymdeithasu a chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a chlybiau. Mae'r cyfleusterau yn aml iawn yn cael eu cynnal ar sail elusennol 'cost yn unig' – h.y. mae unrhyw arian a wneir yn sgil llogi'r cyfleusterau yn seiliedig ar gwrdd â chostau yn hytrach na gwneud elw, ac felly maen nhw'n ariannol hygyrch at ddefnydd cymunedol pawb.

Mae cyfleusterau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar nifer o bobl wahanol. Mae cysylltiadau cymdeithasol o fudd mawr ac yn bwysig iawn ar gyfer lles corfforol a meddyliol. Mae hyn hefyd yn helpu i ddod â phobl wahanol at ei gilydd mewn gofodau cymdeithasol, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb o ran cyfleoedd a pherthnasau da ar draws nodweddion gwarchodedig gwahanol. Felly mae diogelu cyfleusterau cymunedol drwy'r polisïau hyn sy'n llywodraethu diogelwch cyfleusterau sy'n darparu lle i hyn ddigwydd, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn fuddiol iawn i unigolion sydd wedi ailbennu eu rhywedd oherwydd dengys ymchwil bod unigolion sydd wedi ailbennu eu rhywedd yn gallu profi mwy o arwahanrwydd cymdeithasol ac felly mae'r polisïau hyn yn cyfrannu at ddiogelu gofodau sy'n dod â phobl at ei gilydd ac yn gwella ansawdd bywyd pobl o'r grwpiau hyn.

**<u>Crynodeb Ailbennu Rhywedd</u>**

Mae'r polisïau Cyfleusterau Cymunedol yn ymwneud â diogelu gofodau sy'n dod â chymunedau at ei gilydd at ddibenion cymdeithasol a diwylliannol. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol fathau o bobl. Felly bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddod a phobl at ei gilydd mewn ffordd gadarnhaol, drwy ddiogelu a gwella'r cyfleusterau sy'n gwneud i hyn ddigwydd.

| **Rhyw (Rhywedd)**<br>Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys rhai gwryw neu fenyw – neu grwpiau rhyweddol penodol fel bechgyn neu ferched. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |



| Rhyw (Rhywedd) yn Sir Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Benyw | 59,156 | 51.6 |
| Gwryw | 55,585 | 48.4 |

Ffynhonnell: SYG – Cyfrifiad 2021 (TS008)

Mae’r dadansoddiad o ran rhyw ar draws Conwy yn y cyfrifiad yn dangos bod ychydig yn fwy o ferched na dynion gyda 51.6% o’r boblogaeth yn ferched a 48.4% yn ddynion. Mae hyn yn gyfystyr â 59,156 o ferched a 55,585 o ddynion.

## Disgwyliad Oes Dynion a Merched

**Conwy**

| Blwyddyn | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|
| 1991-93 | 74.4 | 80.2 |
| 1992-94 | 74.6 | 80.3 |
| 1993-95 | 74.4 | 80.1 |
| 1994-96 | 75 | 80.1 |
| 1995-97 | 74.7 | 80 |
| 1996-98 | 74.7 | 80.1 |
| 1997-99 | 74.4 | 79.7 |
| 1998-00 | 74.7 | 80 |
| 1999-01 | 75 | 80.1 |
| 2000-02 | 75.5 | 80.3 |
| 2001-03 | 75.7 | 80.5 |
| 2002-04 | 75.8 | 80.8 |
| 2003-05 | 76.3 | 81.2 |
| 2004-06 | 76.6 | 81.4 |
| 2005-07 | 77 | 81.5 |
| 2006-08 | 77.1 | 81.6 |
| 2007-09 | 77.3 | 81.9 |
| 2008-10 | 78 | 82 |
| 2009-11 | 78.2 | 82.4 |
| 2010-12 | 79 | 82.6 |

**Cymru**

| Blwyddyn | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|
| 1991-93 | 73.3 | 78.9 |
| 1992-94 | 73.4 | 79.0 |
| 1993-95 | 73.4 | 79.0 |
| 1994-96 | 73.7 | 79.2 |
| 1995-97 | 73.8 | 79.1 |
| 1996-98 | 74.2 | 79.3 |
| 1997-99 | 74.3 | 79.4 |
| 1998-00 | 74.6 | 79.6 |
| 1999-01 | 74.8 | 79.8 |
| 2000-02 | 75.3 | 80.0 |
| 2001-03 | 75.5 | 80.1 |
| 2002-04 | 75.8 | 80.3 |
| 2003-05 | 76.1 | 80.5 |
| 2004-06 | 76.6 | 81.0 |
| 2005-07 | 76.8 | 81.2 |
| 2006-08 | 77.0 | 81.3 |
| 2007-09 | 77.2 | 81.5 |
| 2008-10 | 77.6 | 81.8 |
| 2009-11 | 78.0 | 82.2 |
| 2010-12 | 78.2 | 82.2 |

Cyfrifwyd mai'r disgwyliad oes yng Nghonwy yn 2010–2012 oedd 79 i ddynion ac 82.6 i ferched. Mae hyn hefyd yn cynyddu'n raddol dros amser, wedi codi o 74.4 yn 1991 ar gyfer dynion ac 80.2 ar gyfer merched, sy'n dangos cynnydd uwch o ran disgwyliad oes dynion.

Wrth gymharu'r ystadegau hyn â rhai Cymru, mae'r disgwyliad oes yn uwch ar gyfer dynion a merched o gymharu â Chymru. Mae'r cynnydd i ddisgwyliad oes yn debyg i gyfradd Cymru.

Bydd disgwyliad oes, felly, ychydig yn uwch ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghonwy o gymharu â Chymru. Mae'r ffaith bod pobl yn byw'n hirach, yn enwedig yng Nghonwy, yn golygu y bydd mwy o alw ar y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r angen i fynd i'r afael â materion anghydraddoldeb ar gyfer pobl hŷn, fel arwahanrwydd ac arwahanrwydd gwledig yn benodol, hyd yn oed yn fwy perthnasol wrth i'r boblogaeth fyw'n hŷn.

**Polisïau Cyfleusterau Cymunedol CDLlN Penodol**

Mae'r polisïau canlynol dan adran Cyfleusterau Cymunedol y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chyfleusterau Cymunedol a Rhyw (Rhywedd):

**CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol**

**CFS/4 – Cyfleusterau Cymunedol Newydd**

**CFS/5 – Colli Cyfleusterau Cymunedol**

Mae'r polisïau hyn yn ymwneud â chadw a diogelu cyfleusterau cymunedol. Mae cyfleusterau cymunedol yn llefydd effeithiol iawn i ddod â chymunedau at ei gilydd mewn sawl ffordd wahanol, drwy ddarparu dulliau rhad iawn i gymdeithasu a chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a chlybiau. Mae'r cyfleusterau yn aml iawn yn cael eu cynnal ar sail elusennol 'cost yn unig' – h.y. mae unrhyw arian a wneir yn sgil llogi'r cyfleusterau yn seiliedig ar gwrdd â chostau yn hytrach na gwneud elw, ac felly maen nhw'n ariannol hygyrch at ddefnydd cymunedol pawb.

Mae cyfleusterau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar nifer o bobl wahanol. Mae cysylltiadau cymdeithasol o fudd mawr ac yn bwysig iawn ar gyfer lles corfforol a meddyliol. Mae hyn hefyd yn helpu i ddod â phobl wahanol at ei gilydd mewn gofodau cymdeithasol, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb o ran cyfleoedd a pherthnasau da ar draws nodweddion gwarchodedig gwahanol. Felly mae diogelu cyfleusterau cymunedol drwy'r polisïau hyn sy'n llywodraethu diogelwch cyfleusterau sy'n darparu lle i hyn ddigwydd, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

**Crynodeb Rhyw (Rhywedd)**


Mae'r polisïau Cyfleusterau Cymunedol yn ymwneud â diogelu gofodau sy'n dod â chymunedau at ei gilydd at ddibenion cymdeithasol a diwylliannol. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol fathau o bobl. Felly bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddod a phobl at ei gilydd mewn ffordd gadarnhaol, drwy ddiogelu a gwella'r cyfleusterau sy'n gwneud i hyn ddigwydd.

| **Hil**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys rhai o wahanol ethnigrwydd, cenedligrwydd, hunaniaethau cenedlaethol a lliw croen. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

Er bod y boblogaeth o leiafrifoedd ethnig yn fechan, mae'r adran Tai o fewn y CDLlN yn dal i allu cael effeithiau arwyddocaol ar grwpiau sy'n lleiafrifoedd ethnig ac felly mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r hyn sydd o fewn yr adran dai a'r hyn sydd heb ei gynnwys ynddi.

Dyma’r wybodaeth ddemograffig am Hil sydd i’w gweld ar gyfer ardal Conwy.

## Ethnigrwydd yng Nghonwy




Y grŵp ethnig mwyaf yw Gwyn sy’n cyfrif am 96.9% o’r boblogaeth yn ei chyfanrwydd.


Roedd 1.4% o drigolion Conwy wedi nodi mai eu grŵp ethnig oedd “Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig”. Mae hyn wedi cynyddu o 1.1% yn 2011 a fyddai’n awgrymu bod cymuned Asiaidd yn tyfu yng Nghonwy. Y cynnydd hwn oedd y cynnydd mwyaf ymysg grwpiau ethnig lefel uchel yn ardal Conwy. Wrth gymharu hyn ar draws Cymru, mae canran y bobl o grŵp ethnig “Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig” wedi cynyddu o 2.3% i 2.9% – cynnydd o 0.6%. Mae’r grŵp Du Caribïaidd neu Affricanaidd yn cynrychioli dim ond 0.2% o’r boblogaeth.

Mae sawl ffactor sy’n gallu cyfrannu at y newid yng nghyfansoddiad ethnig Cymru a Lloegr. Mae rhai o’r ffactorau hyn yn cynnwys heneiddio, ffrwythlondeb, marwolaeth a mudo. Wrth i’r categorïau addasu ac wrth i ddiwylliant addasu, gall pobl sy’n llenwi categorïau’r cyfrifiad newid sut maent yn cofnodi eu hethnigrwydd *sydd hefyd yn gallu effeithio ar y canlyniadau*.

| Ethnigrwydd yn Sir Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,743 | 100.0 |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 1,651 | 1.4 |
| Du / Du Cymreig / Du Prydeinig / Caribïaidd / Affricanaidd | 271 | 0.2 |
| Grwpiau ethnig cymysg neu luosog | 1,254 | 1.1 |
| Gwyn | 111,176 | 96.9 |
| Grwpiau ethnig eraill | 391 | 0.3 |


O gyfanswm poblogaeth o 114,743, mae 1,651 o bobl Asiaidd, a 1,254 o bobl o grwpiau ethnig cymysg neu luosog.

## Hunaniaeth Genedlaethol yng Nghonwy




Roedd canran y rhai oedd yn cyfrif eu hunain yn "Gymreig yn unig" wedi cynyddu yng Nghonwy o 0.4 pwynt canran, o 41.6% yn 2011 i 42.0% yn 2021. Mae hyn yn groes i ostyngiad ar draws gweddill Cymru. Roedd canran y rhai oedd wedi nodi "Cymreig a Phrydeinig yn unig" yng Nghonwy wedi cynyddu o 4.3% i 5.8%, a chanran y rhai oedd wedi nodi "Prydeinig yn unig" wedi cynyddu o 21.7% i 24.3%.

## Gwlad Enedigol




Mae cynnydd o 0.9% yn y rhai a nododd mai Cymru yw eu gwlad enedigol, o 54.45% yn 2011 i 55.5% yn 2021. Bu gostyngiad yn y gyfran a nododd mai Lloegr yw eu gwlad enedigol hefyd, o 39.7% yn 2011 i 37.9% yn 2021. Bu cynnydd bychan o 1% yn y rhai a nododd mai eu gwlad enedigol yw Gwlad Pwyl. Bu gostyngiad bychan yn y rhai a nododd Iwerddon a'r Alban hefyd.

**<u>Polisïau Cyfleusterau Cymunedol CDLlN Penodol</u>**

Mae'r polisïau canlynol dan adran Cyfleusterau Cymunedol y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chyfleusterau Cymunedol a Hil:

**CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol**

**CFS/4 – Cyfleusterau Cymunedol Newydd**

**CFS/5 – Colli Cyfleusterau Cymunedol**


Mae'r polisïau hyn yn ymwneud â chadw a diogelu cyfleusterau cymunedol. Mae cyfleusterau cymunedol yn llefydd effeithiol iawn i ddod â chymunedau at ei gilydd mewn sawl ffordd wahanol, drwy ddarparu dulliau rhad iawn i gymdeithasu a chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a chlybiau. Mae'r cyfleusterau yn aml iawn yn cael eu cynnal ar sail elusennol 'cost yn unig' – h.y. mae unrhyw arian a wneir yn sgil llogi'r cyfleusterau yn seiliedig ar gwrdd â chostau yn hytrach na gwneud elw, ac felly maen nhw'n ariannol hygyrch at ddefnydd cymunedol pawb.

Mae cyfleusterau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar nifer o bobl wahanol. Mae cysylltiadau cymdeithasol o fudd mawr ac yn bwysig iawn ar gyfer lles corfforol a meddyliol. Mae hyn hefyd yn helpu i ddod â phobl wahanol at ei gilydd mewn gofodau cymdeithasol, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb o ran cyfleoedd a pherthnasau da ar draws nodweddion gwarchodedig gwahanol. Mae hyn yn fuddiol iawn i bobl o wahanol grwpiau hil ac yn hanfodol i hyrwyddo cydlyniant cymunedol a meithrin perthnasau cadarnhaol ar draws grwpiau hil gwahanol. Felly mae diogelu cyfleusterau cymunedol drwy'r polisïau hyn sy'n llywodraethu diogelwch cyfleusterau sy'n darparu lle i hyn ddigwydd, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

**Crynodeb Hil**

Mae'r polisïau Cyfleusterau Cymunedol yn ymwneud â diogelu gofodau sy'n dod â chymunedau at ei gilydd at ddibenion cymdeithasol a diwylliannol. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol fathau o bobl. Felly bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddod a phobl at ei gilydd mewn ffordd gadarnhaol, drwy ddiogelu a gwella'r cyfleusterau sy'n gwneud i hyn ddigwydd.

| **Crefydd a Chred**<br>Gall y grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys yr holl grwpiau ffydd cydnabyddedig a rhai nad ydynt yn dilyn unrhyw grefydd na system gred | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |




## Crefydd

| Crefydd yn Sir Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Dim crefydd | 46,946 | 40.9 |
| Cristion | 58,283 | 50.8 |
| Bwdhydd | 375 | 0.3 |
| Hindŵ | 254 | 0.2 |
| Iddew | 63 | 3.1 |
| Mwslim | 842 | 0,7 |
| Sikh | 33 | 0.0 |
| Crefydd arall | 621 | 0.5 |
| Heb ateb | 7,324 | 6.4 |

Yn 2021, roedd 50.8% wedi nodi eu bod yn Gristnogion – dyma'r categori crefydd a chred mwyaf a gofnodwyd yng Nghonwy. Roedd y ffigwr hefyd yn uwch o gymharu â Chymru gyfan gyda 45.6% yn nodi eu bod yn Gristnogion. Roedd 40.9% o breswylwyr Conwy wedi nodi "Dim crefydd", sef yr ail gategori mwyaf. Roedd hyn yn is na'r gyfran a nododd "Dim crefydd" trwy Gymru gyfan, sef 46.5%. Roedd gweddill y categorïau crefydd a chred yn is nag 1%, a chrefydd Islam oedd y mwyaf o blith y rheiny ar 0.7%. Ffigwr Cymru gyfan o ran unigolion oedd yn cyfrif eu hunain yn Fwslimiaid yw 2.2%.

**Crefydd**



O ran sut mae'r gyfran wedi newid dros amser, yn 2011, roedd 26.1% wedi nodi "Dim crefydd" ac erbyn 2021 roedd wedi cynyddu'n sylweddol i 40.9%. Mae hyn yn gynnydd o 14.9% o 2011 i 2021. Y cynnydd o 14.9 pwynt canran oedd y cynnydd mwyaf ar draws y categorïau crefydd a chred yng Nghonwy.

Ar draws Cymru, roedd canran y preswylwyr a oedd wedi nodi "Dim crefydd" wedi codi o 32.1% i 46.5%. Mae hyn yn gynnydd o 14.4%, sy'n llai na'r cynnydd yng Nghonwy. Dylid nodi, fodd bynnag, fod hwn yn gwestiwn gwirfoddol yn y cyfrifiad felly mae angen trin y wybodaeth yn ofalus, yn enwedig wrth gymharu â gwahanol ardaloedd.

Roedd newid sylweddol yn nifer yr unigolion a oedd wedi nodi eu bod yn Gristnogion hefyd. Yn 2011, roedd 64.7% o boblogaeth Conwy wedi nodi eu bod yn Gristnogion ac roedd hyn wedi gostwng i 50.8% yn 2021 – gostyngiad o 13.9%. Roedd 6.4% heb nodi eu crefydd, sydd wedi gostwng o 7.8% yn 2011.

**Polisïau Cyfleusterau Cymunedol CDLlN Penodol**

Mae'r polisïau canlynol dan adran Cyfleusterau Cymunedol y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chyfleusterau Cymunedol a Chrefydd a Chred:

**CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol**

**CFS/4 – Cyfleusterau Cymunedol Newydd**

**CFS/5 – Colli Cyfleusterau Cymunedol**

Mae'r polisïau hyn yn ymwneud â chadw a diogelu cyfleusterau cymunedol. Mae cyfleusterau cymunedol yn llefydd effeithiol iawn i ddod â chymunedau at ei gilydd mewn sawl ffordd wahanol, drwy ddarparu dulliau rhad iawn i gymdeithasu a chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a chlybiau. Mae'r cyfleusterau yn aml iawn yn cael eu cynnal ar sail elusennol 'cost yn unig' – h.y. mae unrhyw arian a wneir yn sgil llogi'r cyfleusterau yn seiliedig ar gwrdd â chostau yn hytrach na gwneud elw, ac felly maen nhw'n ariannol hygyrch at ddefnydd cymunedol pawb.

Mae cyfleusterau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar nifer o bobl wahanol. Mae cysylltiadau cymdeithasol o fudd mawr ac yn bwysig iawn ar gyfer lles corfforol a meddyliol. Mae hyn hefyd yn helpu i ddod â phobl wahanol at ei gilydd mewn gofodau cymdeithasol, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb o ran cyfleoedd a pherthnasau da ar draws nodweddion gwarchodedig gwahanol. Mae hyn yn fuddiol iawn ar draws Crefyddau a Chredoau ac yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol ar draws crefyddau a chredoau gwahanol lle ceir tensiynau cymdeithasol weithiau. Felly mae diogelu cyfleusterau cymunedol drwy'r polisïau hyn sy'n llywodraethu diogelwch cyfleusterau sy'n darparu lle i hyn ddigwydd, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

**Crynodeb Crefydd a Chred**

Mae'r polisïau Cyfleusterau Cymunedol yn ymwneud â diogelu gofodau sy'n dod â chymunedau at ei gilydd at ddibenion cymdeithasol a diwylliannol. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol fathau o bobl. Felly bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddod a phobl at ei gilydd mewn ffordd gadarnhaol, drwy ddiogelu a gwella'r cyfleusterau sy'n gwneud i hyn ddigwydd.

| **Beichiogrwydd a Mamolaeth**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gyn<br>merched beichiog, pobl ar absenoldeb ma<br>a rhai sy'n gofalu am fabi newydd / plentyr | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

## Beichiogrwydd fesul ardal a grŵp oedran 2016

| **Ardal** | **Nifer dan 16** | **Cyfradd dan 16** | **Nifer dan 18** | **Cyfradd dan 18** | **Nifer dan 20** | **Cyfradd dan 20** | **Nifer pob oed** | **Cyfradd pob oed** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 174 | 3.65 | 1,061 | 20.93 | 3,288 | 37.24 | 40,327 | 72.06 |
| BILIP Betsi Cadwaladr | Dim data | Dim data | 221 | 19.82 | 749 | 40.21 | 8,854 | 77.07 |
| Ynys Môn | Dim data | Dim data | 18 | 16.89 | 72 | 41.81 | 848 | 80.34 |
| Gwynedd | 6 | 3.39 | 36 | 19.35 | 139 | 36.11 | 1,442 | 66.07 |
| Conwy | Dim data | Dim data | 37 | 19.38 | 116 | 39.28 | 1,304 | 75.56 |
| Sir Ddinbych | 3 | 2.09 | 40 | 25.48 | 117 | 46.84 | 1,194 | 79.44 |
| Sir y Fflint | 9 | 3.57 | 44 | 17.08 | 146 | 35.86 | 2,065 | 77.99 |
| Wrecsam | 4 | 1.90 | 46 | 21.23 | 159 | 45.02 | 2,001 | 84.32 |

Ffynhonnell: *https://statscymru.llyw.cymru/v/SkbO*

*Disgrifiad cyffredinol*

*Mae'r tabl hwn yn darparu data ar y cyfraddau beichiogi sydd wedi arwain at naill ai enedigaeth fyw neu blentyn farw-anedig neu derfynu beichiogrwydd drwy erthyliad cyfreithlon. Amcangyfrifon yw'r ffigurau beichiogi, a gafwyd drwy gyfuno gwybodaeth gofrestru genedigaethau a hysbysu am erthyliadau cyfreithlon. Nid ydynt yn cynnwys colli babi nac erthyliad anghyfreithlon. Amcangyfrifir y dyddiad cenhedlu drwy ddefnyddio cofnod cyfnod beichiogi ar gyfer erthyliadau a babanod marw-anedig a drwy dybio 38 wythnos ar gyfer genedigaethau byw. Mae'r ffigyrau beichiogi yn ymwneud â phreswylwyr mewn ardal.* Ffynhonnell: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Births-Deaths-and-Conceptions/Conceptions/conceptions-by-area-agegroup

Cyfyngedig yw'r data sydd ar gael mewn perthynas â beichiogrwydd a mamolaeth yng Nghonwy, ond mae data ar gael gan Stats Cymru fel y nodir yn y dyfyniad uchod o 2016. Dengys y data bod cofnod o 1,304 o ferched yn feichiog yn 2016. Mae hyn yn gyfystyr â 75.6 fesul 1,000 o ferched yn feichiog. O gymharu ar lefel Cymru, mae'r cyfraddau beichiogi yn uwch nag yng Ngwynedd sy'n 66.1 yn feichiog fesul 1,000 o ferched, ond yn

is nag yn Sir Ddinbych (79.4 fesul 1,000 o ferched), Sir y Fflint (78 fesul 1,000 o ferched) a Wrecsam (84.3 fesul 1000 o ferched).

Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yn Lloegr oedd 1.62 plentyn fesul merch yn 2021, oedd yn gynnydd o 1.9% o 1.59 yn 2020. Roedd cyfradd ffrwythlondeb is yng Nghymru, gydag 1.49 plentyn fesul merch yn 2021, y cynnydd blynyddol cyntaf yn y gyfradd ers tair blynedd.

**Polisïau Cyfleusterau Cymunedol CDLlN Penodol**

Mae'r polisïau canlynol dan adran Cyfleusterau Cymunedol y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chyfleusterau Cymunedol a Beichiogrwydd a Mamolaeth.

**CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol**

**CFS/4 – Cyfleusterau Cymunedol Newydd**

**CFS/5 – Colli Cyfleusterau Cymunedol**


Mae'r polisïau hyn yn ymwneud â chadw a diogelu cyfleusterau cymunedol. Mae cyfleusterau cymunedol yn llefydd effeithiol iawn i ddod â chymunedau at ei gilydd mewn sawl ffordd wahanol, drwy ddarparu dulliau rhad iawn i gymdeithasu a chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a chlybiau. Mae'r cyfleusterau yn aml iawn yn cael eu cynnal ar sail elusennol 'cost yn unig' – h.y. mae unrhyw arian a wneir yn sgil llogi'r cyfleusterau yn seiliedig ar gwrdd â chostau yn hytrach na gwneud elw, ac felly maen nhw'n ariannol hygyrch at ddefnydd cymunedol pawb.

Mae cyfleusterau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar nifer o bobl wahanol. Mae cysylltiadau cymdeithasol o fudd mawr ac yn bwysig iawn ar gyfer lles corfforol a meddyliol. Mae hyn hefyd yn helpu i ddod â phobl wahanol at ei gilydd mewn gofodau cymdeithasol, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb o ran cyfleoedd a pherthnasau da ar draws nodweddion gwarchodedig gwahanol. Mae hyn yn fuddiol iawn i famau beichiog a'r rheiny sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar sy'n cael budd o ymgysylltu â gweithgareddau cymdeithasol sy'n therapiwtig iawn cyn ac ar ôl rhoi genedigaeth. Felly mae diogelu cyfleusterau cymunedol drwy'r polisïau hyn sy'n llywodraethu diogelwch cyfleusterau sy'n darparu lle i hyn ddigwydd, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

**Crynodeb Beichiogrwydd a Mamolaeth**


Mae'r polisïau Cyfleusterau Cymunedol yn ymwneud â diogelu gofodau sy'n dod â chymunedau at ei gilydd at ddibenion cymdeithasol a diwylliannol. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol fathau o bobl. Felly bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddod a phobl at ei gilydd mewn ffordd gadarnhaol, drwy ddiogelu a gwella'r cyfleusterau sy'n gwneud i hyn ddigwydd.

| **Priodas a Phartneriaeth Sifil**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sydd mewn partneriaeth gyfreithiol ffurfiol – o’r un rhyw a’r rhyw arall | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |




| **Statws Partneriaeth Gyfreithiol ym Mwrdeistref Sirol Conwy** | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn | 96,366 | 100.0 |
| Erioed wedi priodi na chofrestru mewn partneriaeth sifil | 31,279 | 32.5 |
| Priod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 43,990 | 45.6 |
| Priod | 43,791 | 45.4 |
| Mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 199 | 0.2 |
| Wedi gwahanu, ond yn dal wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil yn gyfreithi | 2,061 | 2.1 |
| Wedi ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil | 10,732 | 11.1 |
| Gweddw neu bartner sifil sy'n fyw | 8,304 | 8.6 |

Mae cyfrifiad 2021 yn dangos bod 45.7% yn nodi eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil. 0.2% (199) o’r boblogaeth wedi nodi eu bod wedi’u cofrestru mewn partneriaeth sifil gyda 45.6% (43,791) wedi priodi.




Mae newidiadau sydd wedi digwydd ers cyfrifiad 2011. Roedd 28.9% o breswylwyr Conwy sy’n 16 oed a hŷn, wedi nodi nad oeddent erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn 2011 ac roedd hyn wedi cynyddu 3.6% i 32.5% yn 2021.

Roedd nifer yr unigolion a nododd eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil wedi gostwng 2.9% o 48.5% yn 2011 i 45.6% yn 2021.

Roedd canran yr oedolion yng Nghonwy a oedd wedi ysgaru neu wedi diddymu partneriaeth sifil hefyd wedi cynyddu o 10.6% yn 2011 i 11.1% yn 2021.

Roedd y cynnydd o ran canran y rhai 16 oed a hŷn a oedd erioed wedi priodi neu wedi bod mewn partneriaeth sifil yng Nghonwy (3.6 pwynt canran) yn debyg i’r cynnydd yng Ngwynedd (3.6 pwynt canran). Yng Ngwynedd, roedd y ganran wedi cynyddu o 36.4% yn 2011 i 40.1% yn 2021, ac yng Nghymru gyfan roedd y ganran wedi cynyddu o 33.5% i 37.2%.

Felly, mae canran yr unigolion sydd erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn is na ffigwr Cymru gyfan ac yn is na Gwynedd.

Efallai bod cynnwys priodasau o’r un rhyw a phartneriaethau sifil lle nad yw’r ddau o’r un rhyw yn 2021 wedi effeithio ar y ffigyrau hyn, gan nad oedd yr un o’r rhain yn cael eu cydnabod yn gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn 2011.

**<u>Polisïau Cyfleusterau Cymunedol CDLlN Penodol</u>**

Mae'r polisïau canlynol dan adran Cyfleusterau Cymunedol y CDLlN yn ymwneud â materion anghydraddoldeb mewn perthynas â Chyfleusterau Cymunedol a Beichiogrwydd a Mamolaeth.

**CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol**

**CFS/4 – Cyfleusterau Cymunedol Newydd**

**CFS/5 – Colli Cyfleusterau Cymunedol**

Mae'r polisïau hyn yn ymwneud â chadw a diogelu cyfleusterau cymunedol. Mae cyfleusterau cymunedol yn llefydd effeithiol iawn i ddod â chymunedau at ei gilydd mewn sawl ffordd wahanol, drwy ddarparu dulliau rhad iawn i gymdeithasu a chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a chlybiau. Mae'r cyfleusterau yn aml iawn yn cael eu cynnal ar sail elusennol 'cost yn unig' – h.y. mae unrhyw arian a wneir yn sgil llogi'r cyfleusterau yn seiliedig ar gwrdd â chostau yn hytrach na gwneud elw, ac felly maen nhw'n ariannol hygyrch at ddefnydd cymunedol pawb.

Mae cyfleusterau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar nifer o bobl wahanol. Mae cysylltiadau cymdeithasol o fudd mawr ac yn bwysig iawn ar gyfer lles corfforol a meddyliol. Mae hyn hefyd yn helpu i ddod â phobl wahanol at ei gilydd mewn gofodau cymdeithasol, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb o ran cyfleoedd a pherthnasau da ar draws nodweddion gwarchodedig gwahanol. Felly mae diogelu cyfleusterau cymunedol drwy'r polisïau hyn sy'n llywodraethu diogelwch cyfleusterau sy'n darparu lle i hyn ddigwydd, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

**<u>Crynodeb Priodas a Phartneriaethau Sifil:</u>**

Mae'r polisïau Cyfleusterau Cymunedol yn ymwneud â diogelu gofodau sy'n dod â chymunedau at ei gilydd at ddibenion cymdeithasol a diwylliannol. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol fathau o bobl. Felly bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddod a phobl at ei gilydd mewn ffordd gadarnhaol, drwy ddiogelu a gwella'r cyfleusterau sy'n gwneud i hyn ddigwydd.

# 3. Grwpiau Cynhwysiant

**Dylai'r gwasanaethau rydym ni'n eu comisiynu fod ar gael i bawb a bod mor gynhwysol â phosib'. Dylai eich cynnig hefyd roi ystyriaeth i unrhyw grwpiau eraill yn y boblogaeth sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol (neu mewn perygl o fod). Gall hyn gynnwys gofalwyr, pobl sy'n ddigartref, rhai sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gweithwyr rhyw a llawer o grwpiau eraill sydd wedi'u gwthio at gyrion cymdeithas.**

**Meddyliwch pa grwpiau cynhwysiant eraill allai gael eu heffeithio can eich cynnig. Dewiswch o'r ddewislen ym mhob adran isod neu nodi pa grwpiau eraill sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol yr ydych chi'n eu hystyried. Dewiswch y tabl a chlicio'r symbol '+' glas ar waelod ochr dde'r tabl i ychwanegu mwy o adrannau os oes angen.**

# 4. Cydymffurfio â Dyletswyddau Cyfreithiol

**A yw'r sefydliad wedi rhoi sylw dyledus ac ystyriaeth i'r meysydd canlynol?**

### Cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon **YDY ☑ / NAC YDY ☐**

Gwahaniaethu anghyfreithlon yw trin pobl yn 'llai ffafriol' gan fod ganddynt nodwedd warchodedig.

### Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt. **OES ☑ / NAC OES ☐**

Mae hyn yn golygu sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gallu manteisio ar gyfleoedd ac adnoddau'n gyfartal.

### Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt. **OES ☑ / NAC OES ☐**

Mae hyn yn golygu creu amgylchedd cydlynol a chynhwysol i bawb drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth o wahaniaethau.

### A oes unrhyw bryderon o ran Hawliau Dynol? **OES ☐ / NAC OES ☑**

Os ateboch chi '**Oes**', gofynnwch am gyngor gan y Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant i drafod cynnal Asesiad Hawliau Dynol penodol

### Darparwch adroddiad ategol i gefnogi eich atebion i'r cwestiynau uchod: **Rhaid llenwi'r rhan hon**

**Mae hwn yn asesiad o bolisïau Cyfleusterau Cymunedol y CDLlN sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth cydraddoldeb.**

**Mae'r asesiad wedi ystyried perthnasoedd y polisïau cynllunio strategol arfaethedig ar y gwahanol nodweddion gwarchodedig drwy ystyried yn ofalus sut y bydd yn cael effaith ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae'r polisïau hyn yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol y gymuned leol drwy ddiogelu a gwella cyfleusterau cymunedol sy'n darparu isadeiledd ar gyfer dod â chymunedau at ei gilydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y**

**nodweddion gwarchodedig a 3 agwedd y ddyletswydd gyffredinol, yn enwedig yr un sy'n ymwneud â meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau. Bydd y polisi hwn yn cyfrannu'n sylweddol at wella'r berthynas rhwng gwahanol grwpiau ac felly mae ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i holl agweddau'r ddyletswydd gyffredinol.**

# Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

## Templed Cam 2 ar gyfer Gwasanaethau, Polisïau a Swyddogaethau

Teitl y Gwasanaeth / Polisi / Swyddogaeth:

**Amgylchedd Hanesyddol**

- **Adfywio drwy Ddiwylliant**

Dyddiad Cwblhau: 30/05/2022

# 1. Trosolwg o'r Asesiad

## Crynodeb o wybodaeth am y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy'n cael ei asesu:

Mae gan asedau hanesyddol rôl bwysig o safbwynt twristiaeth, buddsoddiad a lles cymunedau. Mae angen eu diogelu a, lle bo'n briodol, eu gwella drwy'r broses gynllunio. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn ganolog i ddiwylliant a chymeriad Sir Conwy, gan adrodd ein hanes drwy adeiladau, strwythurau, parciau, gerddi, archeoleg a thirweddau a chyfrannu at ein hymdeimlad o le a hunaniaeth. Mae'n gwella ein hansawdd bywyd, lles cyffredinol a meddyliol, ac yn ychwanegu at hynodrwydd rhanbarthol a lleol ac mae'n ased economaidd, addysgol a chymdeithasol pwysig y dylid ei warchod er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau a chael profiad ohono.

Mae papur o'r enw 'Treftadaeth yng Nghymru' a gyhoeddwyd gan y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn mesur effaith a dylanwad y sector treftadaeth yng Nghymru. Mae'r ffigyrau'n dangos bod rhai sy'n cael eu hysgogi gan yr amgylchedd hanesyddol i ymweld â Chymru wedi gwario £1.72bn yn 2018, gyda'r sector yn cefnogi dros 40,500 o swyddi. Ar ben hyn, mae llawer o bobl yng Nghymru'n cael eu cyflogi mewn swyddi sy'n bodoli'n anuniongyrchol i'r sector treftadaeth – er enghraifft, pobl sy'n gweithio mewn gwestai a bwytai sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer ymwelwyr Cymru sy'n dod yma oherwydd treftadaeth yn bennaf. Mae'r papur hefyd yn nodi bod gweithwyr adeiladu yng Nghymru yn treulio 43% o'u hamser yn gweithio ar gadwraeth, atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau traddodiadol a adeiladwyd cyn 1919. Mae Treftadaeth yng Nghymru'n cyfleu gwerth treftadaeth wedi'i fesur ac yn dangos pa mor werthfawr yw'r amgylchedd hanesyddol i'r economi a'r sector twristiaeth ac addysg.

## Beth yw nodau ac amcanion y gwasanaeth / polisi / penderfyniad sy'n cael ei asesu?

Mae nifer o fentrau strategol sy'n seiliedig ar ddiwylliant ar waith ar draws Sir Conwy, a bydd rhai yn effeithio ar faterion sy'n ymwneud â chynllunio defnydd tir.

Gall asedau diwylliannol gynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill; cerddoriaeth, celfyddydau, hanes, iaith a thraddodiadau sy'n ffurfio cymeriad, hunaniaeth ac arferion cymuned. O safbwynt defnydd tir, gall hyn olygu adeiladau a mannau sy'n cael eu defnyddio i feithrin y gweithgareddau hyn, er enghraifft, theatrau, orielau, a mannau coffa ac enwi llond llaw.

Mae Creu Conwy – Tanio'r Fflam – strategaeth ddiwylliannol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy 2021–2028 yn canolbwyntio ar y canlynol; Rhaglen (digwyddiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau), Pobl (cynyddu gallu, cydweithio a phartneriaethau), a Lle (amgylchedd naturiol ac adeiledig, a chymunedau). Mae i'r strategaeth ymagwedd creu lleoedd ac un sy'n seiliedig ar asedau gan ddefnyddio diwylliant cyfoethog Conwy i gefnogi lles pobl yn well a chymell adnewyddiad economaidd a chymunedol gan gyd-fynd ag amcanion a nodau'r Strategaeth Twf Economaidd.

Mae Creu Conwy'n cael ei arwain gan bartneriaeth strategol sy'n cynnwys cyrff diwylliannol allweddol lleol a chenedlaethol. Mae Timau Tref wedi'u datblygu yn y 5 tref fwyaf (Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst), gyda chynrychiolaeth traws-sector o'r gymuned leol a'r sector diwylliannol i lywio gweithgarwch ar lawr gwlad, gan sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y lleoedd ac yn berthnasol ac wedi'i integreiddio â chynlluniau lle a chymunedol lleol. Mae enghreifftiau o brosiectau'n cynnwys: Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Northern Eye, Llyfrgelloedd fel Canolbwynt Cymunedol, Cynnig Busnes Archifau Conwy, Casglu – creu map diwylliant Conwy gan y gymuned ac Oriel Môr.

Bydd y Cyngor yn ceisio cefnogi datblygiadau sy'n rhan o Creu Conwy a mentrau adfywio eraill sydd â chysylltiad â defnydd tir ac yn cydymffurfio â pholisïau eraill yn y CDLlN.

# 2. Asesiad o Effaith

Dylai'r adran hon gofnodi unrhyw effeithiau sydd wedi'u dynodi, neu rai posib', ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, grwpiau sy'n profi anghydraddoldeb, a grwpiau eraill sydd mewn perygl o brofi gwaeth canlyniadau. Dylid cofnodi effeithiau cadarnhaol a negyddol ar bob un o'r grwpiau sydd wedi'u diffinio isod lle bo hynny'n berthnasol.


**Meddyliwch am unrhyw rwystrau i fynediad, meysydd o anghydraddoldeb, a sut y gallai gwahanol grwpiau fod wedi'u heffeithio'n anghyfartal gan y cynnig hwn. I'r gwrthwyneb, meddyliwch sut y gallai grwpiau penodol elwa neu weld gwell canlyniadau o ganlyniad i'r cynnig.**


## Nodweddion Gwarchodedig

| **Oedran**<br>Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn neu'r boblogaeth sydd o oed gweithio. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

**Demograffeg oedran Conwy**

Dyma'r ddemograffeg sydd i'w gweld yng Nghonwy (ac mae angen eu hystyried o fewn dyluniad polisi'r CDLlN).






Ers cyfrifiad 2011, mae newid amlwg wedi bod wrth i'r grŵp oedran mwyaf newid o'r categori 45–49 i 55–59.

Mae hyn yn dangos bod 'ymchwydd' o boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghonwy (yn yr un modd â gweddill y DU) sy'n nesáu at y grwpiau oedran hŷn o 65 a throsodd. Mae'n bwysig nodi hyn gan mai'r grwpiau dros 65 oed yw'r rhai lle mae iechyd yn tueddu i ddirywio a materion amddifadedd cymdeithasol a thlodi yn tueddu i gynyddu, gan arwain at gynnydd o ran anghydraddoldeb. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau cymorth llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd.


Mae cynnydd yn y boblogaeth hŷn a fydd angen mathau penodol o gludiant o ganlyniad, er enghraifft, mwy o ddibyniaeth ar yr isadeiledd cludiant lleol.

Mae cynnydd hefyd yn y categori oedran 25–34 ac mae'r cynnydd hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae'n amlwg felly fod hon yn boblogaeth o oed ôl-ymddeol sy'n uwch na gweddill Cymru, ac mae Conwy hefyd yn lle mae pobl yn ymddeol iddo.

Mae cyfran uwch o henoed ym mhoblogaeth Conwy hefyd, felly mae mwy o alw am gludiant cyhoeddus a darpariaeth arall o gludiant i rai nad ydynt yn gallu gyrru, er enghraifft, tacsis neu wasanaethau fel deialu a theithio.

O gymharu â gweddill Cymru, mae lefelau llawer is o boblogaeth ar gyfer pob grŵp oedran hyd at 45 oed. O ran preswylwyr o oed gweithio felly (16–65 oed), mae'r gyfran yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a'r DU.




Mae'r graff hwn eto yn dangos bod yr ymchwydd yn y boblogaeth yn heneiddio'n gyflym ac fel mae'r grŵp oedran wedi tyfu ers y cyfrifiad diwethaf. Bydd angen i'r CDLlN roi ystyriaeth i hyn yn ei ddyluniad polisi.


Mae demograffeg oedran Conwy'n dangos mai'r grŵp oedran mwyaf yw 50–64 oed, sy'n 22.5% o'r boblogaeth gyfan. Fe gynyddodd hyn o 20.9% o'r boblogaeth i 22.5% o 2020 i 2021 hefyd, felly mae'r grŵp oedran yn tueddu i dyfu o ran cyfran. Fel y nodwyd, pan fydd yr ymchwydd hwn yn y boblogaeth yn heneiddio, bydd materion cydraddoldeb amlwg i'w hystyried yng Nghonwy ac mae angen i'r CDLlN baratoi ar gyfer hynny yn y drafft cyfredol.

Mae allfudiad o rai 18–24 oed hefyd, sy'n effeithio ar ddemograffeg Conwy, ac mae angen i'r CDLlN ystyried sut y gall tai gyfrannu at liniaru'r allfudo hwn. Er bod ystadegau'n dangos bod poblogaeth y grŵp oedran hwnnw wedi cynyddu, mae'r allfudo'n parhau

**Crynodeb ar Oedran:**

Mae'r polisi adfywio drwy ddiwylliant yn ymwneud â dod â chymunedau ynghyd a buddsoddi yn amgylchedd diwylliannol a chymdeithasol y gymuned drwy'r celfyddydau, cerddoriaeth a hanes. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol grwpiau oedran. Bydd y polisi hwn felly yn cael effaith gadarnhaol ar ddod â grwpiau o wahanol oedrannau ynghyd.

| **Anabledd**<br><br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys pobl sydd ag anableddau corfforol / dysgu, cyflyrau hirdymor, neu iechyd meddwl gwael | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |





Mae 22% o'r boblogaeth sy'n anabl, sy'n cyd-fynd â'r lefelau ar hyd a lled Cymru. Gan hynny, gallai 22% o'r boblogaeth fod angen gwahanol fathau o dai.

| **Problemau iechyd hirdymor neu anableddau yn Sir Conwy** | **Unigolion (Nifer)** | **Unigolion (%)** |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: cyfyngu'n helaeth ar weithgareddau dydd i ddydd | 11,920 | 10.4 |
| Yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: cyfyngu ychydig ar weithgareddau dydd i ddydd | 14,024 | 12.2 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor ond heb gyfyngu ar weithgareddau dydd i ddydd | 7,673 | 6.7 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: dim cyflyrau iechyd corfforol na meddyliol hirdymor | 81,124 | 70.7 |

Roedd 22.6% o bobl yng Nghonwy wedi nodi eu bod yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghyfrifiad 2021. Mae hyn yn gyfystyr â 33,617 o bobl a mwy nag 1 o bob 5 o bobl yn anabl. Mae angen ystyried hyn yn ofalus wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus ac mae angen i'r CDLlN ystyried yr ystadegyn yma'n ofalus.

O'r rhai sy'n eu cyfrif eu hunain yn anabl, nododd 11,920 fod eu gweithgareddau dydd i ddydd wedi'u cyfyngu'n helaeth – mae hyn yn 10% o bobl yn ystyried eu hunain yn anabl lle bo'u gweithgareddau wedi'u cyfyngu'n helaeth.




Yn 2021, roedd 9.2% o breswylwyr Conwy wedi nodi eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu'n helaeth. Roedd y ffigwr wedi gostwng o 10.4% yn 2011. Roedd y gostyngiad yng nghyfran y preswylwyr a nododd eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu'n helaeth yn fwy yng Ngwynedd (1.7 pwynt canran) nag yng Nghonwy (1.2 pwynt canran). Yng Ngwynedd, gostyngodd y gyfran o 9.4% yn 2011 i 7.7% yn 2021.

Yn 2021, roedd ychydig mwy nag un o bob naw o bobl (11.3%) yn anabl ac wedi'u cyfyngu ychydig, o gymharu â 10.8% yn 2011.

**Crynodeb ar Anabledd**

Mae'r polisi adfywio drwy ddiwylliant yn ymwneud â dod â chymunedau ynghyd a buddsoddi yn amgylchedd diwylliannol a chymdeithasol y gymuned drwy'r celfyddydau, cerddoriaeth a hanes. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol grwpiau o bobl, ac mae'n benodol bwysig i bobl anabl sydd ar y cyfan wedi'u heithrio'n fwy o safbwynt cymdeithasol. Mae eu cynnwys mewn diwylliant yn hollbwysig er mwyn lles cymdeithasol a meddyliol ac mae'n gwella ansawdd bywyd pobl anabl sy'n elwa ar gefnogaeth gan y gymuned gymdeithasol. Gan hynny, bydd y polisi'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon.

| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br><br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys dynion hoyw / deurywiol, merched lesbiaidd / deurywiol, neu bobl heterorywiol | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

| Cyfeiriadedd rhywiol yn Sir Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd | 96,362 | 100.0 |
| Strêt neu heterorywiol | 85,973 | 89.2 |
| Hoyw neu lesbiaidd | 1,330 | 1.4 |
| Deurywiol | 872 | 0.9 |
| Panrywiol | 140 | 0.1 |
| Anrhywiol | 45 | 0.0 |
| Cwiar | 7 | 0.0 |
| Pob cyfeiriadedd rhywiol arall | 9 | 0.0 |
| Heb ateb | 7986 | 8.3 |

Cofnododd y cyfrifiad fod 89.2% o'r boblogaeth yn strêt neu'n heterorywiol yng Nghonwy, 1.4% yn hoyw neu'n lesbiaidd, 0.9% yn ddeurywiol ac roedd 8.3% heb ateb y cwestiwn. Mae cwestiynau sy'n ymwneud â hyn yn fater sensitif ac mae rhai'n teimlo'n anghyfforddus yn ateb y mathau hyn o gwestiynau, sy'n ei gwneud yn anodd mesur neu ddibynnu ar yr ystadegau a gasglwyd. Mae'r Adran Fasnach a Diwydiant yn rhoi amcangyfrif swyddogol bod 5–7% o boblogaeth Prydain yn hoyw, lesbiaidd, neu'n ddeurywiol sy'n awgrymu bod rhywfaint o dan-adrodd yng Nghonwy pan gynhaliwyd y cyfrifiad.

**Crynodeb Rhywioldeb**

Mae'r polisi adfywio drwy ddiwylliant yn ymwneud â dod â chymunedau ynghyd a buddsoddi yn amgylchedd diwylliannol a chymdeithasol y gymuned drwy'r celfyddydau, cerddoriaeth a hanes. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol grwpiau o bobl, ac mae'n benodol bwysig ar gyfer y nodwedd warchodedig hon. Gan hynny, bydd y polisi'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon.

| **Ailbennu Rhywedd**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n bwriadu mynd, wrthi'n mynd neu wedi mynd drwy broses ailbennu rhywedd. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

| **Hunaniaeth rhywedd yn Sir Conwy** | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd | 96,362 | 100.0 |
| Hunaniaeth rhywedd 16 oed a throsodd | 89,545 | 92.9 |
| Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd ar yr enedigaeth ond heb nodi unrhyw hunaniaeth benodol | 94 | 0.1 |
| Merch draws | 40 | 0.0 |
| Dyn traws | 58 | 0.1 |
| Anneuaidd | 34 | 0.0 |
| Pob hunaniaeth rhywedd arall | 27 | 0.0 |
| Heb ateb | 6,564 | 6.8 |

Mae'r wybodaeth o ran hunaniaeth rhywedd yn parhau i fod yn gymharol gyfyngedig ac mae'n parhau i fod yn nodwedd warchodedig sy'n cael ei than-adrodd.

Dengys y cyfrifiad bod 0.1% – 94 o bobl yng Nghonwy sydd â hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni. Roedd 40 yn nodi eu bod yn ferch draws, 58 (0.1%) yn ddyn traws, 34 yn anneuaidd a 27 o blith pob hunaniaeth rhywedd arall.

**Crynodeb ar Ailbennu Rhywedd**

Mae'r polisi adfywio drwy ddiwylliant yn ymwneud â dod â chymunedau ynghyd a buddsoddi yn amgylchedd diwylliannol a chymdeithasol y gymuned drwy'r celfyddydau, cerddoriaeth a hanes. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol grwpiau o bobl, ac mae'n benodol bwysig ar gyfer y nodwedd warchodedig hon. Gan hynny, bydd y polisi'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon.

| **Rhyw (Rhywedd)**<br>Gallai grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys rhai gwryw neu fenyw – neu grwpiau rhyweddol penodol fel bechgyn neu ferched. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

| Rhyw yn Sir Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Benyw | 59,156 | 51.6 |
| Gwryw | 55,585 | 48.4 |

Mae'r dadansoddiad o ran rhyw ar draws Conwy yn y cyfrifiad yn dangos bod ychydig yn fwy o ferched na dynion gyda 51.6% o'r boblogaeth yn ferched a 48.4% yn ddynion. Mae hyn yn gyfystyr â 59,156 o ferched a 55,585 o ddynion.

### Disgwyliad Oes a Rhywedd

Conwy

| Blwyddyn | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|
| 1991-93 | 74.4 | 80.2 |
| 1992-94 | 74.6 | 80.3 |
| 1993-95 | 74.4 | 80.1 |
| 1994-96 | 75 | 80.1 |
| 1995-97 | 74.7 | 80 |
| 1996-98 | 74.7 | 80.1 |
| 1997-99 | 74.4 | 79.7 |
| 1998-00 | 74.7 | 80 |
| 1999-01 | 75 | 80.1 |
| 2000-02 | 75.5 | 80.3 |
| 2001-03 | 75.7 | 80.5 |
| 2002-04 | 75.8 | 80.8 |
| 2003-05 | 76.3 | 81.2 |
| 2004-06 | 76.6 | 81.4 |
| 2005-07 | 77 | 81.5 |
| 2006-08 | 77.1 | 81.6 |
| 2007-09 | 77.3 | 81.9 |
| 2008-10 | 78 | 82 |
| 2009-11 | 78.2 | 82.4 |
| 2010-12 | 79 | 82.6 |

Cymru

| Blwyddyn | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|
| 1991-93 | 73.3 | 78.9 |
| 1992-94 | 73.4 | 79.0 |
| 1993-95 | 73.4 | 79.0 |
| 1994-96 | 73.7 | 79.2 |
| 1995-97 | 73.8 | 79.1 |
| 1996-98 | 74.2 | 79.3 |
| 1997-99 | 74.3 | 79.4 |
| 1998-00 | 74.6 | 79.6 |
| 1999-01 | 74.8 | 79.8 |
| 2000-02 | 75.3 | 80.0 |
| 2001-03 | 75.5 | 80.1 |
| 2002-04 | 75.8 | 80.3 |
| 2003-05 | 76.1 | 80.5 |
| 2004-06 | 76.6 | 81.0 |
| 2005-07 | 76.8 | 81.2 |
| 2006-08 | 77.0 | 81.3 |
| 2007-09 | 77.2 | 81.5 |
| 2008-10 | 77.6 | 81.8 |
| 2009-11 | 78.0 | 82.2 |
| 2010-12 | 78.2 | 82.2 |

Cyfrifwyd mai'r disgwyliad oes yng Nghonwy yn 2010–2012 oedd 79 i ddynion ac 82.6 i ferched. Mae hyn hefyd yn cynyddu'n raddol dros amser, wedi codi o 74.4 yn 1991 ar gyfer dynion ac 80.2 ar gyfer merched, sy'n dangos cynnydd uwch o ran disgwyliad oes dynion.

Wrth gymharu'r ystadegau hyn â rhai Cymru, mae'r disgwyliad oes yn uwch ar gyfer dynion a merched o gymharu â Chymru. Mae'r cynnydd i ddisgwyliad oes yn debyg i gyfradd Cymru.

Bydd disgwyliad oes, felly, ychydig yn uwch ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghonwy o gymharu â Chymru. Mae'r ffaith bod pobl yn byw'n hirach, yn enwedig yng Nghonwy, yn golygu y bydd mwy o alw ar y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r angen i fynd i'r afael â materion anghydraddoldeb ar gyfer pobl hŷn, fel arwahanrwydd ac arwahanrwydd gwledig yn benodol, hyd yn oed yn fwy perthnasol wrth i'r boblogaeth fyw'n hŷn.

**Crynodeb ar Ryw (Rhywedd)**


Mae'r polisi adfywio drwy ddiwylliant yn ymwneud â dod â chymunedau ynghyd a buddsoddi yn amgylchedd diwylliannol a chymdeithasol y gymuned drwy'r celfyddydau, cerddoriaeth a hanes. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol grwpiau o bobl, ac mae'n benodol bwysig ar gyfer y nodwedd warchodedig hon. Gan hynny, bydd y polisi'n cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb rhyweddol.

| **Hil**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys rhai o wahanol ethnigrwydd, cenedligrwydd, hunaniaethau cenedlaethol a lliw croen. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

Er bod y boblogaeth o leiafrifoedd ethnig yn fechan, mae'r adran Tai o fewn y CDLlN yn dal i allu cael effeithiau arwyddocaol ar grwpiau sy'n lleiafrifoedd ethnig ac felly mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r hyn sydd o fewn yr adran dai a'r hyn sydd heb ei gynnwys ynddi.

Dyma'r wybodaeth ddemograffig am Hil sydd i'w gweld ar gyfer ardal Conwy.

**Ethnigrwydd yng Nghonwy**



Y grŵp ethnig mwyaf yw Gwyn sy'n cyfrif am 96.9% o'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd.


Roedd 1.4% o drigolion Conwy wedi nodi mai eu grŵp ethnig oedd "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig". Mae hyn wedi cynyddu o 1.1% yn 2011 a fyddai'n awgrymu bod cymuned Asiaidd yn tyfu yng Nghonwy. Y cynnydd hwn oedd y cynnydd mwyaf ymysg grwpiau ethnig lefel uchel yn ardal Conwy. Wrth gymharu hyn ar draws Cymru, mae canran y bobl o grŵp ethnig "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig" wedi cynyddu o 2.3% i 2.9% – cynnydd o 0.6%. Mae'r grŵp Du Caribïaidd neu Affricanaidd yn cynrychioli dim ond 0.2% o'r boblogaeth.

Mae sawl ffactor sy'n gallu cyfrannu at y newid yng nghyfansoddiad ethnig Cymru a Lloegr. Mae rhai o'r ffactorau hyn yn cynnwys heneiddio, ffrwythlondeb, marwolaeth a mudo. Wrth i'r categorïau addasu ac wrth i ddiwylliant addasu, gall pobl sy'n llenwi categorïau'r cyfrifiad newid sut maent yn cofnodi eu hethnigrwydd *sydd hefyd yn gallu effeithio ar y canlyniadau*.

| **Ethnigrwydd yn Sir Conwy** | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,743 | 100.0 |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 1,651 | 1.4 |
| Du / Du Cymreig / Du Prydeinig / Caribïaidd / Affricanaidd | 271 | 0.2 |
| Grwpiau ethnig cymysg neu luosog | 1,254 | 1.1 |
| Gwyn | 111,176 | 96.9 |
| Grwpiau ethnig eraill | 391 | 0.3 |


O gyfanswm poblogaeth o 114,743, mae 1,651 o bobl Asiaidd, a 1,254 o bobl o grwpiau ethnig cymysg neu luosog.

## Hunaniaeth Genedlaethol yng Nghonwy




Roedd canran y rhai oedd yn cyfrif eu hunain yn "Gymreig yn unig" wedi cynyddu yng Nghonwy o 0.4 pwynt canran, o 41.6% yn 2011 i 42.0% yn 2021. Mae hyn yn groes i ostyngiad ar draws gweddill Cymru. Roedd canran y rhai oedd wedi nodi "Cymreig a Phrydeinig yn unig" yng Nghonwy wedi cynyddu o 4.3% i 5.8%, a chanran y rhai oedd wedi nodi "Prydeinig yn unig" wedi cynyddu o 21.7% i 24.3%.

## Gwlad Enedigol





Mae cynnydd o 0.9% yn y rhai a nododd mai Cymru yw eu gwlad enedigol, o 54.45% yn 2011 i 55.5% yn 2021. Bu gostyngiad yn y gyfran a nododd mai Lloegr yw eu gwlad enedigol hefyd, o 39.7% yn 2011 i 37.9% yn 2021. Bu cynnydd bychan o 1% yn y rhai a nododd mai eu gwlad enedigol yw Gwlad Pwyl. Bu gostyngiad bychan yn y rhai a nododd Iwerddon a'r Alban hefyd.

**Crynodeb ar Hil**

Mae'r polisi adfywio drwy ddiwylliant yn ymwneud â dod â chymunedau ynghyd a buddsoddi yn amgylchedd diwylliannol a chymdeithasol y gymuned drwy'r celfyddydau, cerddoriaeth a hanes. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol grwpiau o bobl, ac mae'n benodol bwysig ar gyfer nodwedd warchodedig hil. Mae'n rhaid i gymunedau weithio i greu cydlyniant cymunedol ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at hynny drwy roi pwyslais ar yr angen i feithrin diwylliant a chelfyddydau sy'n dod â chymunedau ynghyd. Gan hynny, bydd y polisi'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon.

| **Crefydd a Chred**<br><br>Gall y grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys yr holl grwpiau ffydd cydnabyddedig a rhai nad ydynt yn dilyn unrhyw grefydd na system gred | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |





## Crefydd

| Crefydd yn Sir Conwy | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 114,741 | 100.0 |
| Dim crefydd | 46,946 | 40.9 |
| Cristion | 58,283 | 50.8 |
| Bwdhydd | 375 | 0.3 |
| Hindŵ | 254 | 0.2 |
| Iddew | 63 | 0.1 |
| Mwslim | 842 | 0,7 |
| Sikh | 33 | 0.0 |
| Crefydd arall | 621 | 0.5 |
| Heb ateb | 7,324 | 6.4 |

Yn 2021, roedd 50.8% wedi nodi eu bod yn Gristnogion – dyma'r categori crefydd a chred mwyaf a gofnodwyd yng Nghonwy. Roedd y ffigwr hefyd yn uwch o gymharu â Chymru gyfan gyda 45.6% yn nodi eu bod yn Gristnogion. Roedd 40.9% o breswylwyr Conwy wedi nodi "Dim crefydd", sef yr ail gategori

mwyaf. Roedd hyn yn is na'r gyfran a nododd "Dim crefydd" trwy Gymru gyfan, sef 46.5%. Roedd gweddill y categorïau crefydd a chred yn is nag 1%, a chrefydd Islam oedd y mwyaf o blith y rheiny ar 0.7%. Ffigwr Cymru gyfan o ran unigolion oedd yn cyfrif eu hunain yn Fwslimiaid yw 2.2%.

**Crefydd**




O ran sut mae'r gyfran wedi newid dros amser, yn 2011, roedd 26.1% wedi nodi "Dim crefydd" ac erbyn 2021 roedd wedi cynyddu'n sylweddol i 40.9%. Mae hyn yn gynnydd o 14.9% o 2011 i 2021. Y cynnydd o 14.9 pwynt canran oedd y cynnydd mwyaf ar draws y categorïau crefydd a chred yng Nghonwy.

Ar draws Cymru, roedd canran y preswylwyr a oedd wedi nodi "Dim crefydd" wedi codi o 32.1% i 46.5%. Mae hyn yn gynnydd o 14.4%, sy'n llai na'r cynnydd yng Nghonwy. Dylid nodi, fodd bynnag, fod hwn yn gwestiwn gwirfoddol yn y cyfrifiad felly mae angen trin y wybodaeth yn ofalus, yn enwedig wrth gymharu â gwahanol ardaloedd.

Roedd newid sylweddol yn nifer yr unigolion a oedd wedi nodi eu bod yn Gristnogion hefyd. Yn 2011, roedd 64.7% o boblogaeth Conwy wedi nodi eu bod yn Gristnogion ac roedd hyn wedi gostwng i 50.8% yn 2021 – gostyngiad o 13.9%. Roedd 6.4% heb nodi eu crefydd, sydd wedi gostwng o 7.8% yn 2011.

**<u>Crynodeb Crefydd a Chred</u>**

Mae'r polisi adfywio drwy ddiwylliant yn ymwneud â dod â chymunedau ynghyd a buddsoddi yn amgylchedd diwylliannol a chymdeithasol y gymuned drwy'r celfyddydau, cerddoriaeth a hanes. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol grwpiau o bobl ac mae'n benodol

bwysig ar gyfer nodwedd warchodedig crefydd a chred. Mae'n rhaid i gymunedau weithio i greu cydlyniant cymunedol ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at hynny drwy roi pwyslais ar yr angen i feithrin diwylliant a chelfyddydau sy'n dod â chymunedau ynghyd. Gan hynny, bydd y polisi'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon.

| **Beichiogrwydd a Mamolaeth**<br>Gallai'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gynnwys merched beichiog, pobl ar absenoldeb mamolaeth a rhai sy'n gofalu am fabi newydd / plentyn ifanc. | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
|---|---|---|---|
| | ☑ | ☐ | ☐ |

| **Ardal** | **Nifer dan 16** | **Cyfradd dan 16** | **Nifer dan 18** | **Cyfradd dan 18** | **Nifer dan 20** | **Cyfradd dan 20** | **Nifer pob oed** | **Cyfradd pob oed** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 174 | 3.65 | 1,061 | 20.93 | 3,288 | 37.24 | 40,327 | 72.06 |
| BILIP Betsi Cadwaladr | Dim data | Dim data | 221 | 19.82 | 749 | 40.21 | 8,854 | 77.07 |
| Ynys Môn | Dim data | Dim data | 18 | 16.89 | 72 | 41.81 | 848 | 80.34 |
| Gwynedd | 6 | 3.39 | 36 | 19.35 | 139 | 36.11 | 1,442 | 66.07 |
| Conwy | Dim data | Dim data | 37 | 19.38 | 116 | 39.28 | 1,304 | 75.56 |
| Sir Ddinbych | 3 | 2.09 | 40 | 25.48 | 117 | 46.84 | 1,194 | 79.44 |
| Sir y Fflint | 9 | 3.57 | 44 | 17.08 | 146 | 35.86 | 2,065 | 77.99 |
| Wrecsam | 4 | 1.90 | 46 | 21.23 | 159 | 45.02 | 2,001 | 84.32 |

*https://statscymru.llyw.cymru/v/SkbO*

*Disgrifiad cyffredinol*

*Yn y tabl hwn ceir data ar nifer yr achosion o feichiogi a arweiniodd at naill ai enedigaeth fyw neu farw-enedigaeth, neu derfynu beichiogrwydd drwy erthyliad cyfreithlon. Amcangyfrifon yw'r ffigurau beichiogi, a gafwyd drwy gyfuno gwybodaeth gofrestru genedigaethau a hysbysu am erthyliadau cyfreithlon. Nid ydynt yn cynnwys camesgoriadau nac erthyliadau anghyfreithlon. Amcangyfrifir y dyddiad beichiogi drwy ddefnyddio cofnodion hyd y beichiogrwydd ar gyfer erthyliadau a marw-enedigaethau, a rhagdybio 38 wythnos ar gyfer genedigaethau byw. Mae'r ffigurau beichiogrwydd yn ymwneud â thrigolion ardal arbennig.* Ffynhonnell: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Births-Deaths-and-Conceptions/Conceptions/conceptions-by-area-agegroup

Cyfyngedig yw'r data sydd ar gael mewn perthynas â beichiogrwydd a mamolaeth yng Nghonwy, ond mae data ar gael gan Stats Cymru fel y nodir yn y dyfyniad uchod o 2016. Dengys y data bod cofnod o 1,304 o ferched yn feichiog yn 2016. Mae hyn yn gyfystyr â 75.6 fesul 1,000 o ferched yn feichiog. O gymharu ar lefel Cymru, mae'r cyfraddau


beichiogi yn uwch nag yng Ngwynedd sy'n 66.1 yn feichiog fesul 1,000 o ferched, ond yn is nag yn Sir Ddinbych (79.4 fesul 1,000 o ferched), Sir y Fflint (78 fesul 1,000 o ferched) a Wrecsam (84.3 fesul 1000 o ferched).

Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yn Lloegr oedd 1.62 plentyn fesul merch yn 2021, oedd yn gynnydd o 1.9% o 1.59 yn 2020. Roedd cyfradd ffrwythlondeb is yng Nghymru, gydag 1.49 plentyn fesul merch yn 2021 – y cynnydd blynyddol cyntaf yn y gyfradd ers tair blynedd.

**Crynodeb Beichiogrwydd a Mamolaeth**


Mae'r polisi adfywio drwy ddiwylliant yn ymwneud â dod â chymunedau ynghyd a buddsoddi yn amgylchedd diwylliannol a chymdeithasol y gymuned drwy'r celfyddydau, cerddoriaeth a hanes. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol grwpiau o bobl ac mae'n benodol bwysig ar gyfer nodwedd warchodedig beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i gymunedau weithio i greu cydlyniant cymunedol ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at hynny drwy roi pwyslais ar yr angen i feithrin diwylliant a chelfyddydau sy'n dod â chymunedau ynghyd. Gan hynny, bydd y polisi'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon.

| **Priodas a Phartneriaeth Sifil**<br>Mae hyn yn cynnwys pobl sydd mewn partneriaeth gyfreithiol ffurfiol – o'r un rhyw a'r rhyw arall | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Effaith niwtral** |
| --- | --- | --- | --- |
| | ☑ | ☐ | ☐ |



| **Statws Partneriaeth Gyfreithiol ym Mwrdeistref Sirol Conwy** | Nifer | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn | 96,366 | 100.0 |
| Erioed wedi priodi na chofrestru mewn partneriaeth sifil | 31,279 | 32.5 |
| Priod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 43,990 | 45.6 |
| Priod | 43,791 | 45.4 |
| Mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 199 | 0.2 |
| Wedi gwahanu, ond yn dal wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol | 2,061 | 2.1 |
| Wedi ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil | 10,732 | 11.1 |
| Gweddw neu bartner sifil sy'n fyw | 8,304 | 8.6 |

Mae cyfrifiad 2021 yn dangos bod 45.7% yn nodi eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil. 0.2% (199) o'r boblogaeth wedi nodi eu bod wedi'u cofrestru mewn partneriaeth sifil gyda 45.6% (43,791) wedi priodi.




Mae newidiadau sydd wedi digwydd ers cyfrifiad 2011. Roedd 28.9% o breswylwyr Conwy sy'n 16 oed a hŷn, wedi nodi nad oeddent erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn 2011 ac roedd hyn wedi cynyddu 3.6% i 32.5% yn 2021.

Roedd nifer yr unigolion a nododd eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil wedi gostwng 2.9% o 48.5% yn 2011 i 45.6% yn 2021.

Roedd canran yr oedolion yng Nghonwy a oedd wedi ysgaru neu wedi diddymu partneriaeth sifil hefyd wedi cynyddu o 10.6% yn 2011 i 11.1% yn 2021.

Roedd y cynnydd o ran canran y rhai 16 oed a hŷn a oedd erioed wedi priodi neu wedi bod mewn partneriaeth sifil yng Nghonwy (3.6 pwynt canran) yn debyg i'r cynnydd yng Ngwynedd (3.6 pwynt canran). Yng Ngwynedd, roedd y ganran wedi cynyddu o 36.4% yn 2011 i 40.1% yn 2021, ac yng Nghymru gyfan roedd y ganran wedi cynyddu o 33.5% i 37.2%.

Felly, mae canran yr unigolion sydd erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn is na ffigwr Cymru gyfan ac yn is na Gwynedd.

Efallai bod cynnwys priodasau o'r un rhyw a phartneriaethau sifil lle nad yw'r ddau o'r un rhyw yn 2021 wedi effeithio ar y ffigyrau hyn, gan nad oedd yr un o'r rhain yn cael eu cydnabod yn gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn 2011.

**Crynodeb Priodas a Phartneriaethau Sifil**

Mae'r polisi adfywio drwy ddiwylliant yn ymwneud â dod â chymunedau ynghyd a buddsoddi yn amgylchedd diwylliannol a chymdeithasol y gymuned drwy'r celfyddydau, cerddoriaeth a hanes. Mae hyn yn bwysig iawn i feithrin cydlyniant cymunedol ymysg gwahanol grwpiau o bobl, ac mae'n benodol bwysig ar gyfer nodwedd warchodedig priodas a phartneriaeth sifil. Mae'n rhaid i gymunedau weithio i greu cydlyniant cymunedol ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at hynny drwy roi pwyslais ar yr angen i feithrin diwylliant a chelfyddydau sy'n dod â chymunedau ynghyd. Gan hynny, bydd y polisi'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon.

# 3. Grwpiau Cynhwysiant

**Dylai'r gwasanaethau rydym ni'n eu comisiynu fod ar gael i bawb a bod mor gynhwysol â phosib'. Dylai eich cynnig hefyd roi ystyriaeth i unrhyw grwpiau eraill yn y boblogaeth sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol (neu mewn perygl o fod). Gall hyn gynnwys gofalwyr, pobl sy'n ddigartref, rhai sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gweithwyr rhyw a llawer o grwpiau eraill sydd wedi'u gwthio at gyrion cymdeithas.**

**Meddyliwch pa grwpiau cynhwysiant eraill allai gael eu heffeithio can eich cynnig. Dewiswch o'r ddewislen ym mhob adran isod neu nodi pa grwpiau eraill sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol yr ydych chi'n eu hystyried. Dewiswch y tabl a chlicio'r symbol '+' glas ar waelod ochr dde'r tabl i ychwanegu mwy o adrannau os oes angen.**

# 4. Cydymffurfio â Dyletswyddau Cyfreithiol

**A yw'r sefydliad wedi rhoi sylw dyledus ac ystyriaeth i'r meysydd canlynol?**

**Cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon YDY ☑ / NAC YDY ☐**

Gwahaniaethu anghyfreithlon yw trin pobl yn 'llai ffafriol' gan fod ganddynt nodwedd warchodedig.

**Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt. YDY ☑ / NAC YDY ☐**

Mae hyn yn golygu sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gallu manteisio ar gyfleoedd ac adnoddau'n gyfartal.

**Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt. YDY ☑ / NAC YDY ☐**

Mae hyn yn golygu creu amgylchedd cydlynol a chynhwysol i bawb drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth o wahaniaethau.

## A oes unrhyw bryderon o ran Hawliau Dynol? **OES ☐ / NAC OES ☑**

Os ateboch chi '**Oes**', gofynnwch am gyngor gan y Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant i drafod cynnal Asesiad Hawliau Dynol penodol

## Darparwch adroddiad ategol i gefnogi eich atebion i'r cwestiynau uchod: **Rhaid llenwi'r rhan hon**

**Mae'r asesiad hwn yn ymwneud â'r adfywio drwy ddiwylliant sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb.**

**Mae'r asesiad wedi ystyried perthnasoedd y polisi cynllunio strategol arfaethedig ar y gwahanol nodweddion gwarchodedig drwy ystyried yn ofalus sut y bydd yn cael effaith ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Pwrpas y polisi hwn yw cefnogi iechyd diwylliannol y gymuned sy'n dod â chymunedau ynghyd ac yn eu cryfhau drwy ddefnydd pwerus o'r celfyddydau, cerddoriaeth a hanes. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y nodweddion gwarchodedig a 3 agwedd y ddyletswydd gyffredinol, yn enwedig yr un sy'n ymwneud â meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau. Bydd y polisi hwn yn cyfrannu'n sylweddol at wella'r berthynas rhwng gwahanol grwpiau ac felly mae ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i holl agweddau'r ddyletswydd gyffredinol.**